# CYNLLUN DATBLYGU LLEOL DIWYGIEDIG


RHONDDA CYNON TAF

EBRILL 2022 – EBRILL 2037










# STRATEGAETH A FFEFRIR

IONAWR 2024

RHONDDA CYNON TAF



52575-44



# TABL CYNNWYS:


| | | |
|---|---|---|
| ADRAN 1 | Cyflwyniad | 02 |
| ADRAN 2 | Cyd-destun Cenedlaethol a Rhanbarthol a Sail Tystiolaeth Leol | 06 |
| ADRAN 3 | Materion | 18 |
| ADRAN 4 | Gweledigaeth ac Amcanion | 24 |
| ADRAN 5 | Yr Asesiad Aneddiadau a'r Hierarchaeth Aneddiadau | 32 |
| ADRAN 6 | Opsiynau ar gyfer Twf | 36 |
| ADRAN 7 | Opsiynau Strategaeth Ofodol | 42 |
| ADRAN 8 | Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig - Strategaeth a Ffefrir | 48 |
| ADRAN 9 | Polisïau Strategol | 62 |




# 1 CYFLWYNIAD

## Cefndir

1.1.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (y Cyngor) yn diwygio'i Gynllun Datblygu Lleol (CDLl) ar gyfer y Fwrdeistref Sirol, a fydd yn ymdrin â chyfnod 2022-2037. Mae'r CDLl presennol yn ymdrin â chyfnod 2006-2021 ac fe'i mabwysiadwyd yn 2011. Bydd y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig (CDLl Diwygiedig) yn adeiladu ar y cynllun presennol. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gan y system gynllunio, gyda'r CDLl Diwygiedig yn graidd iddi, rôl sylweddol i'w chwarae wrth lunio'r Fwrdeistref Sirol i sicrhau ei bod yn tyfu mewn modd cynaliadwy, wrth hefyd ddiwallu anghenion a gwireddu dyheadau'r gymuned.

1.1.2 Y CDLl Diwygiedig fydd y ddogfen statudol ar gyfer cynllunio defnydd tir ar gyfer y Fwrdeistref Sirol (ac eithrio'r ardal sydd o fewn awdurdodaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) a bydd yn nodi'r weledigaeth ar gyfer Rhondda Cynon Taf a'i gymunedau. Bydd y CDLl Diwygiedig hefyd yn nodi maint a lleoliad datblygiadau newydd, yn ogystal â bod yn sail ar gyfer penderfyniadau rheoli datblygu yn y dyfodol (ceisiadau cynllunio).

1.1.3 Mae'r Cyngor bellach ar y cam Strategaeth a Ffefrir ym mhroses baratoi'r CDLl Diwygiedig. Mae cynrychiolaeth weledol o'r camau sy'n rhan o broses y CDLl Diwygiedig wedi'i nodi isod. Mae'r cam Strategaeth a Ffefrir bresennol wedi'i aroleuo'n wyn.



## Rhondda Cynon Taf

1.1.4 Mae Rhondda Cynon Taf (RhCT) yng nghanol Cymoedd De Cymru ac mae'n cynnwys ardal o tua 37,130ha (ac eithrio tir o fewn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog). Yng nghyfrifiad 2021, roedd gan RCT boblogaeth o 237,700 o breswylwyr, sy'n gynnydd o 1.4% yn y boblogaeth ers 2011 (234,000).

## Beth yw Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig?

1.1.5 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig yn ddiwygiad o'r CDLl sydd wedi'i fabwysiadu a bydd yn nodi'r weledigaeth a'r cynigion ar gyfer datblygu yn Rhondda Cynon Taf dros y cyfnod 2022-2037.

1.1.6 Rhaid i'r CDLl Diwygiedig fod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a dealltwriaeth drylwyr o anghenion, cyfyngiadau a chyfleoedd yn RhCT. O'r herwydd, mae'n ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau) baratoi a chadw "Sail Tystiolaeth" gyfredol, sy'n ymdrin â phob agwedd ar nodweddion cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol y Fwrdeistref Sirol.

1.1.7 Mae Strategaeth a Ffefrir y CDLl Diwygiedig yn adeiladu ar y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod oes y CDLl mabwysiedig (2006-2021) i bennu sut mae'r CDLl presennol wedi dod ymlaen. Mae hyn yn cynnwys tystiolaeth sydd wedi'i chynnwys yn Adroddiadau Monitro Blynyddol y Cyngor, polisïau presennol, yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (gan gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd) a'r Adroddiad Adolygu.

1.1.8 At hynny, mae llawer iawn o dystiolaeth gyfredol wedi'i pharatoi a'i chasglu yn ystod camau llunio'r Strategaeth a Ffefrir. Cyfeirir at ddogfennau sail tystiolaeth drwy'r Strategaeth a Ffefrir, fel y bo'n briodol, yn unol â'r meysydd pwnc perthnasol. Mae'r Sail Tystiolaeth yma'n ddeunydd sydd ar gael i'r cyhoedd a fydd yn parhau i gael ei ddiweddaru drwy gydol camau nesaf y CDLl Diwygiedig. Bydd y dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn sicrhau bod cynllun a all gyflawni ar gyfer RhCT yn cael ei llunio a bydd yn cydymffurfio â'r prawf "cadernid" yn ystod y cam Archwilio.

1.1.9 **Dylai CDLl Diwygiedig RhCT geisio:**

- Meddu ar weledigaeth glir y mae modd ei chyflawni, yn seiliedig ar egwyddorion cadarn ar greu lleoedd, wedi'i gwreiddio mewn polisi lleol i hwyluso datblygu cynaliadwy.
- Darparu strategaeth gydlynol sy'n adlewyrchu dyheadau'r Cyngor, rhanddeiliaid allweddol a'n cymunedau.
- Hwyluso twf mewn aneddiadau sydd wedi nodi capasiti, yn unol â'r Hierarchaeth Aneddiadau.
- Nodi ardaloedd sydd â'r modd i gynnwys seilwaith a darpariaeth cyflogaeth/tai, wrth hefyd ddiogelu amgylcheddau adeiledig a naturiol nodedig RhCT ar yr un pryd.
- Hwyluso, yn nhermau defnydd tir, amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), y Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy, Cynllun Corfforaethol y Cyngor a Chynllun Llesiant Cwm Taf Morgannwg.
- Defnyddio canllawiau, cynlluniau a pholisi cenedlaethol, yn enwedig Polisi Cynllunio Cymru a Dyfodol Cymru, i ddarparu fframwaith cadarn ar gyfer datblygu yn RhCT, sy'n diffinio rôl a swyddogaeth lleoedd.
- Nodi sut bydd RhCT yn newid ac yn datblygu dros oes y CDLl Diwygiedig (hyd at 2037).

Mae rhagor o fanylion am y Cynlluniau a chyd-destun y Polisi y dylai'r CDLl Diwygiedig gydymffurfio â nhw yn Adran 2 y papur yma.

## Beth yw Strategaeth a Ffefrir?

1.1.10 Mae Rheoliadau Cynlluniau Datblygu Lleol 14 a 15 yn ei gwneud yn ofynnol i bob ACLl baratoi “Strategaeth a Ffefrir”, sydd hefyd yn cael ei alw’n gynigion ‘Cyn-Adneuo’ y Cyngor. Caiff cam y Strategaeth a Ffefrir ei baratoi cyn y cam nesaf o baratoi’r CDLl Diwygiedig, sef llunio’r CDLl Adneuo Diwygiedig terfynol, a fydd yn destun archwiliad cyhoeddus annibynnol.

1.1.11 Mae’r cam cyn-adneuo ar gyfer Rhondda Cynon Taf yn nodi’r materion allweddol, y weledigaeth/amcanion a’r opsiynau ar gyfer strategaeth, cyn cyflwyno’r Strategaeth a Ffefrir, y bydd y Cyngor yn mynd ar ei hôl. Yn ei hanfod, y cam cyn-adneuo yma yw ‘asgwrn cefn’ proses y CDLl Diwygiedig, gan nodi’n ffurfiol lefelau twf a dosbarthiad gofodol RhCT. Mae’r Strategaeth a Ffefrir yn gosod y cyfeiriad ar gyfer y CDLl Diwygiedig a fydd yn caniatáu i’n rhanddeiliaid a’n cymunedau roi ‘Cynrychioliadau’ adeiladol (sylwadau ac adborth ar gynigion) i lywio’r Cynllun Adneuo (sydd wedi’i amserlennu i’w gyhoeddi ym mis Ionawr/Chwefror 2025).

1.1.12 Dangosir cynnwys a phroses datblygu ein Strategaeth a Ffefrir yn y diagram canlynol:



1.1.13 Nod Strategaeth a Ffefrir RhCT yw darparu opsiynau realistig sy'n adlewyrchu ein tystiolaeth, ein gweledigaeth a'n hamcanion. Mae RhCT yn bwriadu diwallu anghenion y Fwrdeistref Sirol a'i chymunedau sydd wedi dod i'r amlwg drwy sicrhau bod modd cyflawni cynigion dros gyfnod y cynllun (hyd at 2037), wrth hefyd gydymffurfio â pholisi cenedlaethol a rhoi sylw dyledus i fentrau rhanbarthol a lleol perthnasol.

1.1.14 I ailadrodd, y Strategaeth a Ffefrir yw'r cyflwyniad cyntaf o'r weledigaeth a'r amcanion, ochr yn ochr â'r opsiynau am dwf strategol a gofodol ar gyfer RhCT. Mae hefyd yn cynnwys y Safleoedd Allweddol sydd wedi'u nodi eu bod yn hanfodol i gyflawniad y CDLl Diwygiedig. Er bod y Strategaeth a Ffefrir yn cynnwys llawer o fanylion yn ymwneud â'r uchelgeisiau ar gyfer y Fwrdeistref Sirol, mae ganddi gyfyngiadau. Dylid nodi nad yw'r Strategaeth a Ffefrir yn cynnwys dyraniadau sy'n benodol i safleoedd nac yn nodi ffiniau aneddiadau (ac eithrio Safleoedd Allweddol) ac nid yw ychwaith yn cynnwys gwerthusiad terfynol o'r Safleoedd Ymgeisiol sydd wedi'u cyflwyno. Mae Polisïau Strategol wedi'u nodi yn y Strategaeth a Ffefrir, ond nid yw'n cynnwys polisïau manwl. Bydd y rhain i gyd yn ymddangos yn y Cynllun Adneuo, sydd wedi'i amserlennu i'w gyhoeddi ym mis Ionawr/Chwefror 2025. Mae'r Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol yn cael ei chyhoeddi ochr yn ochr â'r Strategaeth a Ffefrir ac mae'n nodi a yw safle wedi symud ymlaen i Gam 2 y broses neu wedi bod yn aflwyddiannus yng Ngham 1.





# 2 CYD-DESTUN CENEDLAETHOL A RHANBARTHOL A SAIL TYSTIOLAETH LEOL

## Ystyriaethau Cenedlaethol a Rhanbarthol

2.1.1 Rhaid i'r CDLl Diwygiedig a'i Strategaeth a Ffefrir gydymffurfio'n gyffredinol â rheoliadau, cynlluniau, polisïau a chanllawiau eraill ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol. Yn unol â hynny, mae'r rhain wedi helpu i baratoi'r Strategaeth a Ffefrir, ynghyd â'r Sail Tystiolaeth ac fe'u rhestrir isod, ochr yn ochr â'u perthynas â'r Strategaeth a Ffefrir.

# CENEDLAETHOL:

**Mae'r dogfennau cenedlaethol canlynol yn berthnasol ledled Cymru:**

## Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040, 2021

**Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, o'r enw 'Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040' yw'r haen uchaf o gynllun datblygu yng Nghymru, sy'n canolbwyntio ar faterion a heriau ar raddfa genedlaethol.**

Mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn pennu'r cyfeiriad ar gyfer twf, datblygu a buddsoddi mewn seilwaith yng Nghymru tan 2040. Mae'n pennu strategaeth a pholisïau strategol ar gyfer mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol drwy'r system gynllunio, gan gynnwys cynnal a datblygu economi fywiog, datgarboneiddio, datblygu ecosystemau cydnerth a gwella iechyd a llesiant cymunedau yng Nghymru.

## Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11), 2021

**Mae Polisi Cynllunio Cymru 11 yn nodi'r polisïau cynllunio ar gyfer defnydd tir a'r fframwaith cyffredinol ar gyfer datblygu cynaliadwy yng Nghymru, gan gynnwys yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth wneud penderfyniadau. Mae hefyd yn integreiddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i mewn i bolisi cynllunio cenedlaethol.**

Yn yr un modd â'r ddogfen flaenorol, sef Polisi Cynllunio Cymru 10, mae'n ei gwneud yn ofynnol i gynllunwyr groesawu'r cysyniad o greu lleoedd wrth wneud penderfyniadau cynllunio a rheoli datblygu, er mwyn sicrhau lleoedd cynaliadwy. O gofio bod creu lleoedd yn ganolog i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru); y gred yw bydd raid manteisio ar asedau, ysbrydoliaeth a photensial y gymuned leol, gyda'r bwriad o greu datblygiad sy'n hybu iechyd, hapusrwydd a lles pobl.

## Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3), 2020

**Mae'r Llawlyfr yn rhoi canllawiau ymarferol cyfredol ac addas i'r diben ar baratoi cynllun. Fel y cyfryw, ers cyflwyno llu o ddeddfwriaeth gynllunio o tua 2013 ymlaen, ochr yn ochr â newidiadau i bolisi cenedlaethol, ystyriwyd ei bod yn adeg briodol i ddechrau diwygio'r ddogfen.**

Mae newidiadau'n cynnwys yr opsiwn i Awdurdodau Cynllunio Lleol gynnal 'Asesiad Cynaliadwyedd Integredig'. Mae hyn yn cynnwys Gwerthusiad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol a hefyd elfennau allweddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), Deddf Cydraddoldeb, Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg ac ar Iechyd. Bydd cynnwys y rhain yn galluogi asesiad sy'n fwy tryloyw, cyfannol a chyflawn o oblygiadau cynaliadwyedd y cynllun.

## Adeiladu Lleoedd Gwell - Y System Gynllunio yn Sicrhau Dyfodol Cydnerth a Mwy Disglair - Creu lleoedd a'r adferiad Covid-19, 2020

**Mae'r papur, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020, yn tynnu sylw at y polisïau a'r offer cynllunio allweddol cyfredol y dylid eu defnyddio i gynorthwyo adfer Cymru, yn dilyn pandemig byd-eang COVID-19.**

Mae'r papur yn annog cynllunwyr i arddangos creadigrwydd a dyfeisgarwch wrth gynnig atebion ac ymatebion arloesol i adferiad amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd Cymru, ar bob graddfa. Mae'r papur yn annog awdurdodau cynllunio lleol i fod yn feiddgar yn eu gweledigaeth ar gyfer cynlluniau datblygu lleol sy'n dod i'r amlwg neu gynlluniau datblygu lleol diwygiedig.

## Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, 2021

**Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yw Llwybr Newydd, sy'n nodi 'llwybr newydd' ar gyfer trafnidiaeth ledled y wlad dros yr 20 mlynedd nesaf.**

Ei phrif nod yw creu cymdeithas sy'n fwy ffyniannus, gwyrdd a chyfartal i bawb. Yn ogystal â phennu blaenoriaethau ac uchelgeisiau tymor byr a hirdymor, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cyflwyno naw cynllun bach sy'n esbonio sut y bydd y nodau'n cael eu cyflawni mewn gwahanol ddulliau a sectorau trafnidiaeth.

## Deddf Cynllunio, 2015

**Darparodd y Ddeddf Cynllunio, a gafodd ei chyflwyno yn 2015, fframwaith deddfwriaethol diwygiedig i ddiwygio'r system gynllunio. Mae'r Ddeddf yn cynnwys pum amcan allweddol, yn ogystal â darparu sail gyfreithiol ar gyfer cyflwyno Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (o'r enw Cymru'r Dyfodol ar gyfer y cyfnod 2020-2040) a Chynlluniau Datblygu Strategol ar gyfer tri rhanbarth yng Nghymru.**

Bydd y Cynlluniau Datblygu Strategol ar gyfer y deg awdurdod yn Ne Ddwyrain Cymru, y mae RhCT yn un ohonyn nhw, yn darparu glasbrint a strategaeth ar gyfer datblygu a buddsoddi ar draws y rhanbarth, er dydy'r gwaith ddim wedi dechrau ar y Cynllun Datblygu Strategol eto. Yn bwysig, mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i 'ddefnydd o'r iaith Gymraeg' fod yn ystyriaeth o bwys wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), 2015

**Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn darparu fframwaith ar gyfer gwella lles Cymru, gan ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried goblygiadau hirdymor eu penderfyniadau.**

Mae'r Ddeddf yn gosod datblygu cynaliadwy yn ganolog i wella llesiant diwylliannol, cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd Cymru. Mae'r Ddeddf yn nodi'r 'pum ffordd o weithio', yn ogystal â'r saith nod llesiant y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus eu cyflawni.

## Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

**Cafodd Deddf yr Amgylchedd Gydsyniad Brenhinol ar 21 Mawrth 2016 ac mae'n ceisio darparu deddfwriaeth i reoli cyfoeth naturiol Cymru mewn modd rhagweithiol a chynaliadwy.**

Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd fioamrywiaeth er mwyn cynorthwyo i wrthdroi dirywiad a sicrhau cydnerthedd a dyfodol bioamrywiaeth yng Nghymru yn y tymor hir. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi'r dyletswyddau o osod targedau lleihau allyriadau a phennu cyllidebau carbon i Weinidogion Cymru.

## Deddf Tai (Cymru), 2014

**Ym mis Medi 2014, cafodd Deddf Tai (Cymru) Gydsyniad Brenhinol.**

Mae prif nodau'r ddeddfwriaeth yn cynnwys: Darparu rheoliadau digonol ar gyfer llywodraethu tai rhent preifat. Diwygio a gwella'r gyfraith mewn perthynas â digartrefedd, yn ogystal â gwneud darpariaethau ar gyfer safonau'r tai sy'n cael eu darparu gan awdurdodau lleol. At hynny, fe ddarparodd y Ddeddf hefyd ddiffiniad o Sipsiwn a Theithwyr, mandadu asesiad o anghenion llety a'i gwneud yn ofynnol i ACLlau ddiwallu unrhyw angen a nodwyd. Fe gafodd y Ddeddf hefyd wared â chymhorthdal y cyfrif refeniw tai, yn ogystal â chaniatáu i gymdeithasau tai cydfuddiannol roi tenantiaethau sicr.

## Deddf Teithio Llesol (Cymru), 2013

**Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) yn hyrwyddo llwybrau diogel ar gyfer cerdded a beicio, fel dewis amgen i gerbydau preifat.**

Mae'r Ddeddf yn chwarae ei rhan wrth ddylunio datblygiadau, drwy annog cysylltiadau â llwybrau presennol i hwyluso newidiadau hirdymor o ran ymddygiad a meddylfryd. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i nodi'r holl lwybrau teithio llesol ar fap rhwydwaith teithio Llesol a defnyddio hwn i gyflwyno gwelliannau parhaus yng nghwantwm ac ansawdd llwybrau, er mwyn gwella cysylltedd.

## Cylchlythyr 005/2018 – Cynllunio ar gyfer Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn, 2018

**Ym mis Mehefin 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gylchlythyr newydd o'r enw Cynllunio ar gyfer Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn, sy'n cymryd lle'r cyngor yng nghylchlythyron 30/2007, 78/91 a 76/94.**

Mae'r Cylchlythyr yn diweddaru'r diffiniad o 'Sipsiwn a Theithwyr' i gynnwys Siewmyn Teithiol, ochr yn ochr â Theithwyr Newydd lle mae modd iddyn nhw ddangos traddodiad diwylliannol o nomadiaeth neu o fyw mewn cartrefi symudol. Mae'r cylchlythyr hefyd yn ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), sy'n nodi fframwaith i awdurdodau lleol ledled Cymru i sicrhau'r 'egwyddor ddatblygu gynaliadwy'.

## Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel (2019)

**Nod y cynllun, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2019, yw cynyddu effeithlonrwydd a lleihau allyriadau carbon nwyon tŷ gwydr o leiaf 80% erbyn 2050.**

Mae hyn yn hanfodol er mwyn diwallu gofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a chreu cymunedau tecach, gwyrddach ac iachach. Mae'r cynllun yma'n hanfodol i wrthdroi effeithiau newid yn yr hinsawdd.



# RHANBARTHOL:

## Bargen Ddinesig (Prifddinas-Ranbarth Caerdydd)

**Cafodd Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, sydd werth £1.2 biliwn, ei chadarnhau'n ffurfiol yn 2017. Ar 12 Chwefror 2018, fe wnaeth Cabinet Rhanbarthol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, sy'n cynnwys yr arweinwyr o'r deg awdurdod lleol yn Ne-ddwyrain Cymru, gymeradwyo'r cynllun busnes strategol. Mae hwn yn manylu ar sut y byddai'r 'Gronfa Fuddsoddi Ehangach' gwerth £1.2 biliwn yn cael ei defnyddio hyd at 2023**

Mae'r cynllun yn pennu amcanion strategol rhanbarthol Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, sef: ffyniant a chyfle; cynhwysiant a chydraddoldeb; a hunaniaeth, diwylliant, cymuned a chynaliadwyedd. Mae'r Fargen Ddinesig hefyd yn cynnwys talu am Fetro De Cymru sydd werth £734 miliwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi £500 miliwn, ac mae Llywodraeth San Steffan wedi rhoi £125 miliwn tuag ato. Mae gwaith ar y prosiect yma wedi hen ddechrau ar draws rhanbarth De-ddwyrain Cymru.

## Cydbwyllgorau Corfforedig

**Yn 2021, lluniodd Llywodraeth Cymru reoliadau a sefydlodd bedwar Cydbwyllgor Corfforedig a oedd yn cynnwys arweinwyr gweithrediaeth awdurdodau.**

Mae un o'r Cydbwyllgorau Corfforedig a gafodd ei sefydlu yn cynnwys Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ar gyfer rhanbarth De-ddwyrain Cymru, ac mae hyn yn cynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae'r Cydbwyllgorau Corfforedig yn gyfrifol am baratoi Cynllun Datblygu Strategol, paratoi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a hyrwyddo lles economaidd yr ardal.

## Metro De-ddwyrain Cymru

**Mae'r prosiect Metro wedi cyfrif am dros hanner cyllid y Fargen Ddinesig, ac mae'r prosiect ar y gweill ledled y rhanbarth ar hyn o bryd.**

Trafnidiaeth Cymru, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, sy'n gyfrifol am weithrediad gwasanaeth rheilffordd y Metro, ac mae'r ACLlau yn parhau i fod yn gyfrifol am ddarpariaeth bysiau a theithio llesol. Y prif amcan yw creu rhwydwaith trafnidiaeth integredig, gynaliadwy ledled y rhanbarth sy'n wyrddach ac yn fwy effeithlon.

## Cynllun Llesiant Cwm Taf Morgannwg, 2023-2028

**Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg yn cynnwys cyrff cyhoeddus yn Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr, sydd wedi dod at ei gilydd i ddarparu gwasanaethau i gymunedau lleol.**

Nod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yw gwella llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd, trwy greu targedau i gyflawni amcanion y saith nod Llesiant. Nod y cynllun yw creu mynediad tecach i gyfleoedd ar gyfer pob cymuned, wrth hefyd gydnabod yr amrywiaeth o heriau y mae nifer yn eu hwynebu a sut mae hyn yn effeithio ar eu llesiant.

## Datganiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru – Datganiad Ardal Canol De Cymru, 2020

**Cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru saith datganiad ardal ledled Cymru, ond mae Rhondda Cynon Taf yn dod o dan Ddatganiad Ardal Canol De Cymru, a gafodd ei gyhoeddi yn 2020. O'r saith ardal, Canol De Cymru yw'r mwyaf poblog, gan gynnwys Caerdydd, Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg a Merthyr Tudful.**

Mae'r ardal hefyd yn cynnwys ymylon rhostir Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, yn ogystal ag iseldiroedd Bro Morgannwg ac ucheldiroedd dramatig y cymoedd. O ganlyniad, mae'r Datganiad Ardal yn cynnwys yr amcan i 'bontio amgylcheddau trefol a naturiol'. Mae'r datganiad yn cynnwys pum thema allweddol, sef: adeiladu ecosystemau gwydn; cysylltu pobl â natur; gweithio gyda dŵr; gwella ein hiechyd; a gwella ansawdd ein haer.

# SAIL TYSTIOLAETH LEOL:

## Cynllun Corfforaethol Rhondda Cynon Taf 'Gwneud Gwahaniaeth', 2020-2024

Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn ymdrin â chyfnod 2020-2024 ac yn cynnwys y weledigaeth ar gyfer y Fwrdeistref Sirol, sef: **"I Rondda Cynon Taf fod y lle gorau yng Nghymru i yw, gweithio a chwarae ynddo, lle mae pobl a busnesau yn annibynnol, yn iach ac yn llewyrchus"**

Diben y Cyngor yw darparu arweinyddiaeth gymunedol gref a chreu amgylchedd lle mae modd i bobl a busnesau ffynnu. I'r perwyl yma, mae gan y Cyngor dair prif flaenoriaeth, sydd wedi'u nodi yn y cynllun:

1. **POBL:** Sy'n annibynnol, iach a llwyddiannus.
2. **LLEOEDD:** Lle mae pobl yn falch o gael byw, gweithio a chwarae ynddyn nhw.
3. **FFYNIANT:** Creu'r cyfle i bobl a busnesau fod yn arloesol, yn entrepreneuraidd ac i gyflawni eu potensial a ffynnu.

## Mynd i'r Afael â Newid yn yr Hinsawdd - Strategaeth Newid Hinsawdd Rhondda Cynon Taf, 2022 – 2025

Nod Strategaeth Newid Hinsawdd RhCT yw cyflawni ymrwymiadau'r Cyngor i leihau allyriadau carbon ar draws y Fwrdeistref Sirol a thrwy wneud hynny, mynd i'r afael yn effeithiol â newid yn yr hinsawdd.

Mae'r Strategaeth yn nodi, erbyn 2030:

- Bydd Rhondda Cynon Taf yn garbon niwtral;
- Bydd y Fwrdeistref Sirol gyfan mor agos â phosibl at fod yn garbon niwtral; a
- Bydd ein gwaith ar y cyd â phartneriaid wedi sicrhau y bydd pob sefydliad cyhoeddus a phreifat sy'n gweithredu yn y fwrdeistref sirol yn garbon niwtral erbyn 2040.

Bydd Rhondda Cynon Taf wedi cyfrannu at uchelgais Llywodraeth Cymru o gael sector cyhoeddus sero net erbyn 2030.

## Adroddiad Adolygu CDLl, 2019 (Hefyd yn gweithredu fel crynodeb o'r holl Adroddiadau Monitro Blynyddol)

Lluniodd y Cyngor Adroddiad Adolygu i lywio'r penderfyniad i ddechrau paratoi CDLl Diwygiedig. Mae Adroddiad Adolygu yn rhoi dadansoddiad beirniadol o'r dystiolaeth a gasglwyd ers mabwysiadu'r CDLl drwy'r broses fonitro.

Mae'n ystyried ffactorau megis cyflenwi dyraniadau a datblygiadau eraill, ochr yn ochr â chyflawniad ac effeithiolrwydd polisi cynllunio. Prif ffynhonnell yr adolygiad yw Adroddiadau Monitro Blynyddol y Cyngor a chaiff eu hanfon at Lywodraeth Cymru yn flynyddol. Mae'r Adroddiadau Monitro Blynyddol yn monitro cyflawniad a gweithrediad y cynllun, yn ogystal ag ystyried unrhyw newidiadau cyd-destunol perthnasol mewn amgylchiadau economaidd byd-eang a pholisïau, canllawiau neu ddeddfwriaeth sydd newydd eu cyhoeddi.

## Papur Asesu Hierarchaeth Aneddiadau, 2023

**Mae'r Hierarchaeth Aneddiadau, fel y'i pennir gan yr Asesiad Aneddiadau, yn llywio Strategaeth Ofodol y CDLl Diwygiedig ac yn cael ei defnyddio i ganfod pa aneddiadau sydd fwyaf cynaliadwy ac sydd â'r gallu i gyflawni'r twf angenrheidiol dros gyfnod y cynllun.**

Mae'n ofynnol i ACLlau sicrhau bod penderfyniadau ar leoliad datblygiad yn ystyried materion megis: patrymau twf cynaliadwy; cynnal gwasanaethau a chyfleusterau; y berthynas rhwng aneddiadau; a symudiad pobl.

## Papur Hierarchaeth Canolfannau Manwerthu a Masnachol, 2023

**Mae'n ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol nodi Hierarchaeth Canolfannau Manwerthu a Masnachol ar gyfer eu Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLl). Mae'r papur yma'n nodi'r berthynas rhwng yr Hierarchaeth Canolfannau Manwerthu a Masnachol â'r Hierarchaeth Aneddiadau a'r Strategaeth CDLl.**

Yn nodweddiadol bydd gan aneddiadau lefel uwch ddalgylch mawr ac ystod o ddefnyddiau, tra bod aneddiadau lefel is yn cael eu dynodi i ddiwallu anghenion cyfleustra dyddiol y cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu.

## Papur Gweledigaeth, Materion ac Amcanion, 2023

**Cafodd y Papur Gweledigaeth, Materion ac Amcanion ei lunio yn 2023 ac mae'n amlinellu canfyddiadau allweddol cam cychwynnol y CDLl Diwygiedig ar gyfer RhCT. Mae'r papur yn nodi'r materion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol ac ehangach sy'n bodoli ar draws y Fwrdeistref Sirol, yn benodol, y materion hynny y mae modd i'r CDLl fynd i'r afael â nhw a'r rhai y dylai fynd i'r afael â nhw.**

Mae materion y CDLl Diwygiedig wedi'u crynhoi er mwyn llunio Gweledigaeth gryno ar gyfer y cynllun. Ystyrir bod y Materion a'r Weledigaeth yn llunio Amcanion diffiniedig ar gyfer y CDLl Diwygiedig, a hynny dros gyfnod y cynllun. O ganlyniad, mae'r deilliannau a nodwyd yn ffurfio sylfaen y CDLl Diwygiedig a gwaith paratoi'r camau dilynol.

## Adroddiad Tystiolaeth Ddemograffig, 2023

**Comisiynodd y Cyngor gwmni Edge Analytics i baratoi Adroddiad Tystiolaeth Ddemograffig yn 2022. Mae'r adroddiad yn defnyddio technoleg POPGROUP i baratoi amrywiaeth o Senarios Twf ar gyfer y Fwrdeistref Sirol, gan ymgorffori amcanestyniadau Llywodraeth Cymru yn ymwneud â phoblogaeth ac aelwydydd, yn ogystal ag ystadegau demograffig ac economaidd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a StatsCymru.**

Mae'r dadansoddiad yn amlinellu'r newid mewn poblogaeth ac aelwydydd ar gyfer pob senario twf, o 2022 i 2037, gan gynnwys anheddau newydd, mudo net cyfartalog a thwf cyflogaeth y flwyddyn.

## Papur Cyflenwad Tai, 2023

**Mae'r papur Cyflenwad Tai yn rhoi manylion ar nifer yr anheddau y mae disgwyl eu hadeiladu o'r banc tir tai presennol (safleoedd sydd â chaniatâd ar hyn o bryd neu sy'n cael eu hadeiladu) yn ystod cyfnod y cynllun.**

Yn ogystal, mae'n amcangyfrif nifer y safleoedd annisgwyl (bach a mawr), a allai godi erbyn 2037. Mae'r adroddiad yn cloi gan nodi graddfa'r dyraniadau sydd angen eu gwneud er mwyn ddiwallu'r ddarpariaeth tai a bennwyd yn y CDLl Diwygiedig.

## Asesiad o'r Farchnad Dai Leol - Canfyddiadau Drafft 2024

**Mae'r AFDL yn dadansoddi'r angen presennol sydd heb ei ddiwallu am dai fforddiadwy, yn unol â dulliau diweddaraf Llywodraeth Cymru o gyfrifo.**

Mae'r asesiad yn pennu'r angen am dai fforddiadwy yn y dyfodol, ar draws yr ardaloedd y marchnad tai yn RCT, mewn cysylltiad â'r twf penodol yn y boblogaeth ac aelwydydd a gynigir gan y CDLl Diwygiedig.

## Yr Astudiaeth Capasiti Trefol, 2022

**Mae'r Cyngor wedi llunio Astudiaeth Capasiti Trefol i ganfod capasiti tir trefol presennol i ddarparu tai yn y dyfodol a datblygiadau eraill yn y Fwrdeistref Sirol. Roedd yr astudiaeth wrth ddesg yn ceisio nodi tir posibl ar gyfer y CDLl Diwygiedig, yn ogystal â rhoi cipolwg ar nifer y datblygiadau ar safleoedd annisgwyl sy'n debygol o ddigwydd dros gyfnod y cynllun (2022-2037).**

Er bod yr astudiaeth yn amcangyfrif y potensial ar gyfer darparu anheddau newydd, does dim modd iddi ragweld pa safleoedd fydd o bosibl yn cael eu darparu yn y dyfodol. Roedd yr astudiaeth yn cynnwys y safleoedd hynny o fewn ffin ddiffiniedig yr anheddiad, gyda phob tir arall (e.e. mannau agored, parthau perygl llifogydd neu safleoedd â gwerth ecolegol) wedi'u heithrio.

## Papur Opsiynau ar gyfer Twf, 2023

**Mae'r Papur Opsiynau ar gyfer Twf yn nodi manylion ar yr opsiynau arfaethedig ar gyfer twf yn RhCT. Mae'n nodi manylion ar sut mae'r gwahanol sefyllfaoedd a gynigir yn cael eu dylanwadu gan gyfanswm y boblogaeth, demograffeg, gofynion a deiliadaeth anheddau - ac effaith bosibl y gwahanol sefyllfaoedd ar y rhain - yn ogystal â'r goblygiadau ar gyfer tir cyflogaeth a'r twf a ragwelir.**

Yn y papur, mae nifer o sefyllfaoedd wedi'u profi a'u dadansoddi i bennu'r lefel fwyaf priodol o dwf ar gyfer y CDLl Diwygiedig dros gyfnod y cynllun, sef 2022-2037.

## Papur Opsiynau Strategaeth Ofodol, 2023

**Mae Papur Opsiynau Strategaeth Ofodol wedi'i baratoi i nodi'r opsiynau strategaeth ofodol ar gyfer y CDLl Diwygiedig. Mae'n ceisio adlewyrchu'r polisïau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol allweddol sy'n berthnasol i'r gwaith o lunio'r opsiynau ar gyfer strategaeth ofodol.**

Er mwyn llunio a mabwysiadu strategaeth ofodol addas, mae angen edrych ar nifer o ddulliau neu opsiynau amgen, lle mae modd cynnwys y lefelau twf angenrheidiol. Rhaid i'r opsiynau hyn fod yn realistig a cheisio mynd i'r afael ag amcanion y CDLl Diwygiedig. Yn y pen draw, dylai hyn fod yn ffactor arwyddocaol wrth benderfynu ar Strategaeth ehangach y CDLl Diwygiedig, gan sicrhau bod modd cyflawni Gweledigaeth ac Amcanion y CDLl Diwygiedig.

## Strategaeth Cartrefi Gwag, 2022-2025

**Mae'r Strategaeth Cartrefi Gwag yn darparu fframwaith ar gyfer dod â chartrefi gwag yn ôl i ddefnydd buddiol yn RhCT. Teimlwyd bod angen llunio strategaeth bwrpasol ar gyfer RhCT, oherwydd y niferoedd uchel o gartrefi gwag ar draws y Fwrdeistref Sirol, lle mae pwysau parhaus i gyflenwi tai fforddiadwy.**

Serch hynny, nodir nad oes modd ystyried yr anheddau hyn yn yr un modd ag anheddau 'newydd', o ran cyfrannu at yr angen cyffredinol am dai, sydd wedi'i nodi yn y CDLl Diwygiedig.

## Adolygiad Tir Cyflogaeth, 2023

**Yn 2022, comisiynodd y Cyngor y Grŵp BE, ar y cyd â PER Consulting, i lunio Adolygiad Tir Cyflogaeth ar gyfer y Fwrdeistref Sirol. Mae'r Adolygiad Tir Cyflogaeth yn cynnwys sail tystiolaeth datblygu economaidd ar gyfer y Fwrdeistref Sirol a'r ardal 'fwy na lleol' (ar draws ffiniau ACLl), yn ogystal ag asesu cyd-destun y polisi.**

At hynny, mae'n cynnwys tair elfen yr Adolygiad Tir Cyflogaeth ei hun: yr asesiad o'r farchnad eiddo, yr archwiliad o safleoedd cyflogaeth presennol ac amcangyfrif o ofynion tir yn y dyfodol. O ran y gofyniad tir, mae canllawiau cyflogaeth 2015 yn nodi dwy fethodoleg ar gyfer pennu'r ffigur yma, a defnyddiwyd y ddau ohonynt yn Adolygiad Tir Cyflogaeth y Cyngor.

## Strategaeth Dwristiaeth Rhondda Cynon Taf

**Mae Strategaeth Dwristiaeth RhCT yn pennu gweledigaeth ar gyfer RhCT fel y prif gyrchfan yn y DU ar gyfer ymweliadau a gwyliau yn seiliedig ar "brofiad", gan arddangos ein tirwedd, diwylliant a'n treftadaeth o'r radd flaenaf.**

Er mwyn cyflawni hyn, mae'r strategaeth yn pennu nodau i sicrhau bod RhCT: ar flaen y gad ar gyfer twristiaeth antur; yn brif gyrchfan i'r rhai sy'n ceisio ffordd o fyw egnïol; ac yn gwneud y mwyaf o fuddion ei thirweddau rhagorol. Ymhellach, mae'r strategaeth yn ceisio defnyddio diwylliant a threftadaeth RhCT i'r eithaf, gan felly fod o fudd i drigolion a thwristiaid, yn ogystal â chreu profiad o'r radd flaenaf i ymwelwyr. Bydd hyn yn cynnwys llety dros nos sydd nid yn unig yn le i aros ond yn brofiad ynddo'i hun.

## Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd, 2022

**Mae'r Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd, a gafodd ei lunio gan JBA Consulting ym mis Tachwedd 2022, yn ceisio darparu tystiolaeth gadarn i lywio datblygiad polisi a phenderfyniadau ar ddyraniadau defnydd tir. Mae'r astudiaeth wedi rhoi sylw dyledus i bolisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol, yn ogystal â'r Nodyn Cyngor Technegol perthnasol, sef TAN 15 o'r enw Datblygu, Llifogydd ac Erydu Arfordirol.**

Mae nodau'r astudiaeth yn cynnwys:

- Rhoi gwybod am gyfleoedd datblygu posibl, gan roi sylw dyledus i reoli perygl llifogydd;
- Nodi maint a difrifoldeb y perygl llifogydd yn y Fwrdeistref Sirol er mwyn sicrhau bod datblygiad yn cael ei lywio i ffwrdd o'r ardaloedd hynny; a
- Darparu dogfen gyfeirio mae modd dibynnu arni am gyngor ac arweiniad yn y lle cyntaf.

## Strategaeth Leol Ddrafft ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd

**Mae Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd wedi'i lunio gan RCT, sy'n cynnwys strategaeth a chynllun gweithredu. Mae hwn yn nodi manylion ar yr amcanion, mesurau a chamau gweithredu sydd wedi'u datblygu i amlinellu, ar lefel uchel, sut mae RhCT yn bwriadu rheoli perygl llifogydd lleol. Mae hefyd yn nodi sut i fabwysiadu dull cyfannol o reoli perygl llifogydd.**

Dyma'r ail Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd, sy'n disodli'r strategaeth gyntaf, a gafodd ei chyhoeddi yn 2013.

## Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol (Canfyddiadau Asesiad Cam 1), 2023

**Yn unol â Rheoliadau'r CDLl, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi Cofrestr o Safleoedd Ymgeisiol, y dylid ei chyhoeddi ar y cam Strategaeth a Ffefrir.**

Mae hyn yn cynnwys yr holl safleoedd a gafodd eu derbyn yn ystod y broses Galw am Safleoedd Ymgeisiol a chanlyniadau eu hasesiadau cam cyntaf, yn unol â Methodoleg y Safleoedd Ymgeisiol.

## Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig – Proses barhaus

**Ym mis Mai 2022, comisiynodd y Cyngor gwmni LUC i gynnal Arfarniad o Gynaliadwyedd gan ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol o'r CDLl Diwygiedig. Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) yn argymell bod yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol hefyd yn ymgorffori asesiadau eraill, megis Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg.**

Dylai hefyd fynd i'r afael â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. O ganlyniad, caiff y broses ei gyfeirio ati fel Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig.

Pwrpas yr Adroddiad Cwmpasu a gafodd ei lunio gan LUC yw rhoi'r cyd-destun cychwynnol ar gyfer cwmpas Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig y CDLl Diwygiedig. Yna bydd yna Adroddiadau Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig statudol ar gyfer pob un o gamau swyddogol ac elfennau eraill y CDLl Diwygiedig.

## Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd – Proses barhaus

**Yn ogystal â'r Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig, mae LUC hefyd yn cynnal gwaith ar yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar ran y Cyngor. Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn darparu asesiad o'r niwed posibl a'r effaith y byddai modd i'r cynllun arfaethedig ei chael ar safleoedd gwarchodedig arbennig.**

Mae gan RCT nifer o safleoedd yr ystyrir eu bod o bwysigrwydd arbennig o ran cadwraeth neu fywyd gwyllt, a chaiff y rhain eu gwarchod gan gyfraith ryngwladol. Wrth lunio'r CDLl Diwygiedig, rhaid i'r Cyngor fod yn effro iawn i unrhyw gynigion datblygu, o fewn cyffiniau safleoedd o'r fath, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gwarchod rhag niwed.

## Adroddiad Hyfywedd

**Yn 2022, comisiynodd RhCT gwmni Avison Young i gynnal asesiad hyfywedd o ddatblygiadau preswyl ar draws y Fwrdeistref Sirol. Bydd hyn yn cynorthwyo'r Cyngor i asesu'r hyfywedd cyffredinol ledled RhCT, yn ogystal â'r rhwystrau i gyflwyno Safleoedd Ymgeisiol addas yn llwyddiannus.**

Bydd hefyd yn rhoi syniad o ble sy'n realistig i ragweld darpariaeth o dai fforddiadwy. Roedd yr astudiaeth yn seiliedig ar ofynion polisi y CDLl presennol.

## Asesiad Ddrafft o Anghenion Llety ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr 2022

**Roedd yr Asesiad Ddrafft o Anghenion Llety ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, a gafodd ei llunio ym mis Chwefror 2022 gan gwmni Opinion Research Services, yn asesu'r angen am lety i Sipsiwn a Theithwyr yn RhCT yn y dyfodol. Y prif amcan yw darparu asesiad cadarn o anghenion presennol ac yn y dyfodol am lety yn y tymor byr a thros oes y CDLl Diwygiedig (2022-2037).**

Mae'r anghenion llety wedi'u crynhoi drwy gyfuniad o ymchwil wrth ddesg, ymgysylltu â rhanddeiliaid ac ymgysylltu ag aelodau o'r Cymunedau Teithiol. Daw'r astudiaeth i'r casgliad y bydd angen i RCT ddiwallu anghenion y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr presennol a'r boblogaeth a ragwelir drwy'r CDLl Diwygiedig.

## Crynodeb o'r Papur Ddrafft ar gyfer Opsiynau Strategaeth Ofodol ac Ystyriaeth ar gyfer Modelu Trafnidiaeth, 2023

**Mae'r papur yma'n ganlyniad i waith modelu a gafodd ei gynnal i bennu'r teithiau ychwanegol a grëwyd o'u hystyried yn erbyn opsiynau amrywiol ar gyfer twf gofodol yn RhCT.**

Mae hyn hefyd yn dangos lle byddai'r teithio ychwanegol hyn yn digwydd.

# STRATEGAETHAU CANOL TREFI


## Strategaeth Canol Tref y Porth, 2018/2019:



**Mae'r strategaeth yn ceisio galluogi tref fywiog a deniadol, gyda chynnig da, sy'n cydnabod canol y dref fel calon ein cymunedau. Er mwyn cyflawni hyn ac i fynd i'r afael â'r heriau sylweddol a wynebir yn gyffredinol gan ganolfannau masnachol a manwerthu, mae'r strategaeth yn nodi dull integredig a chyfannol o adfywio.**

Mae'r ymagwedd yma'n nodi'r rôl nodedig y mae tref Porth yn ei chwarae a'i leoliad pwysig ar gyfer gwasanaethau, trafnidiaeth, cyflogaeth a darpariaeth tai. Er mwyn cyflawni'r strategaeth, nod y Cyngor yw harneisio unrhyw gyfleoedd sy'n cael eu cyflwyno o ffrydiau ariannu, megis Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

## Strategaeth Canol Tref 2023/24 ar gyfer Aberdâr:



**Mae'r strategaeth yn cydnabod, yn sgil pandemig byd-eang COVID-19, fod Aberdâr yn wynebu heriau sylweddol, er ei bod yn parhau i fod wrth galon ei chymunedau cyfagos.**

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo, drwy'r strategaeth a'i Gynllun Corfforaethol (Gwneud Gwahaniaeth, 2020-2024), i greu lleoedd bywiog, ffyniannus y mae pobl yn dymuno byw, gweithio a chymdeithasu ynddyn nhw. Bydd cyflawni nodau'r strategaeth yn dibynnu ar weithio mewn partneriaeth i harneisio'r egni cyfunol i roi'r ymyraethau angenrheidiol ar waith.

Mae'r strategaeth yn gosod fframwaith i arwain buddsoddiad, wrth hefyd ystyried ei rôl a'i swyddogaethau, i gefnogi cymunedau lleol trwy ddarparu gwasanaethau a chyfleusterau, cysylltiadau trafnidiaeth rhanbarthol, cyfleoedd cyflogaeth, tai a manwerthu, profiadau hamdden a diwylliannol. Mae'n ceisio manteisio ar y seilwaith strategol newydd o'i amgylch a'r Metro i ddarparu cyfleoedd ychwanegol ac annog buddsoddiad pellach.

## Cynllun Creu Lleoedd Canol Tref Pontypridd 2022:



**Mae'r cynllun yn amlinellu'r bwriad i adfywio Pontypridd, gan adeiladu ar ddyheadau a rennir ar gyfer y dref a'i rôl o fewn Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae'r cynllun yn nodi nifer o uchelgeisiau craidd a fydd yn arwain buddsoddiad yn y dyfodol yn y dref, ochr yn ochr ag ystyriaethau dylunio i sicrhau bod datblygiadau newydd yn cyflawni'r uchelgeisiau hyn.**

Mae'r uchelgeisiau hyn yn creu gweledigaeth ar gyfer Pontypridd: gan gynnwys bod yn gyrchfan busnes, yn lle gwych i fyw, yn lle hygyrch sydd â chysylltiadau trafnidiaeth da, yn cynnig mannau gwyrdd ar lan yr afon, a threflun unigryw, yn gyrchfan ddiwylliannol a chymdeithasol, yn ogystal â thref gynhwysol a chydnerth.

Bydd yr ystyriaethau dylunio sydd wedi'u rhoi ar waith i gyflawni'r amcanion hyn yn canolbwyntio ar ddatblygiad, cysylltedd, treflun, seilwaith gwyrdd a'r parth cyhoeddus, wrth hefyd adeiladu ar agweddau cymdeithasol a diwylliannol y dref. Ymhellach, mae pum ardal ofodol yn y dref, a fydd yn ganolbwynt i fuddsoddiad wedi'i dargedu, sef: Porth y De, Craidd Canol y Dref, Ardal y Farchnad, Porth y Gogledd a Pharc Coffa Ynysangharad.



# 3 MATERION

## Cyflwyniad

3.1.1 Cam cychwynnol ar gyfer Diwygio'r CDLl yw nodi materion, heriau a sbardunau allweddol sy'n wynebu RhCT.

3.1.2 Llwyddwyd i nodi'r rhain ar gyfer y CDLl Diwygiedig drwy sawl cam ac ymgysylltu'n eang â'r cyhoedd, ymgynghori â Fforwm y CDLl, y Grŵp Rhanddeiliaid Tai, Grŵp Llywio Aelodau RhCT a gweithgor swyddogion mewnol y Cyngor.

3.1.3 Roedd yr arfarniad integredig o gynaliadwyedd hefyd yn ailystyried y materion a gafodd eu nodi yn y CDLl cyfredol ac yn adolygu'r rhain i weld pa rai oedd yn parhau i fod yn berthnasol. Cwestiynwyd data gwaelodlin a thystiolaeth i ganfod pa faterion o'r cynllun cyfredol oedd yn parhau i fod yn berthnasol a hefyd i sefydlu a oedd unrhyw faterion newydd wedi codi.

3.1.4 Mae'r Materion yma'n nodi'r hyn y dylai'r CDLl Diwygiedig fynd i'r afael ag ef yn gynnar yn y broses o lunio cynllun. Yna maen nhw'n ffurfio'r sylfaen ar gyfer paratoi'r camau canlynol o'r Weledigaeth, Amcanion, Strategaeth a Ffefrir a'i Pholisïau Strategol.

3.1.5 Rhestrir y Materion, a sut y cawson nhw eu casglu, yn llawn yn y papur Gweledigaeth, Materion ac Amcanion (2023). Mae crynodeb o'r Materion allweddol, gan gynnwys yr heriau a'r sbardunau, wedi'u nodi isod, ac wedi'u grwpio i'r meysydd pwnc a ystyrir fel y rhai mwyaf priodol:

## MATERION TAI

**01. Tai i bawb:**
Mae angen mwy o dai fforddiadwy a thai marchnad breifat yn RhCT.

**02. Cymysgedd o dai i bawb.**
Mae angen datblygu ystod amrywiol o feintiau a mathau o dai ar gyfer pob aelod o gymdeithas, pob oed a'u hanghenion unigol.

**3. Adeiladau cynaliadwy:**
Dylai mwy o dai gael eu hadeiladu gan ystyried safonau carbon niwtral a charbon sero.

**4. Dyluniad datblygiadau tai:**
Dylai datblygiadau tai newydd barhau i wella eu dyluniad ar gyfer cymunedau mwy cydlynol yn y dyfodol.

**5. Hyfywedd tai:**
Mae hyfywedd ariannol i alluogi datblygiad tai sylweddol a arweinir gan y farchnad yn broblem yng ngogledd RhCT yn arbennig. Dydy cyflenwi tai newydd ddim wedi bod mor gytbwys ag y dylai ar draws holl ardaloedd RhCT dros y blynyddoedd diwethaf.

**6. Lleoliad tai:**
Dylid cyflwyno datblygiad mewn lleoliadau cynaliadwy, ar safleoedd tir llwyd yn ffin yr anheddiad lle bo modd.

**7. Tai a thrafnidiaeth:**
Mae gan rai cymunedau llai o fynediad at deithio llesol, trafnidiaeth gyhoeddus a seilwaith priffyrdd nag eraill.

**8. Ansawdd tai:**
Mae cyfran fawr o'r stoc dai yn RhCT yn hŷn, a dylid parhau i fuddsoddi i'w chynnal.

**9. Eiddo gwag:**
Mae yna dai/eiddo gwag ledled RhCT y dylid eu dychwelyd i ddefnydd buddiol.

**10. Tai amlfeddiannaeth:**
Dylid rheoli'n briodol y niferoedd uchel o dai amlfeddianaeth sy'n bodoli mewn rhai cymunedau.

**11. Tai a'r Gymraeg:**
Dylai datblygiadau tai gefnogi'r Gymraeg a pheidio â bod yn niweidiol iddi.

**12. Cymuned Sipsiwn a Theithwyr;**
Mae angen darparu tai priodol a digonol ar gyfer y gymuned Sipsiwn a Theithwyr.

## MATERION YR ECONOMI A CHYFLOGAETH

**13. Cyflogaeth:**
Mae gan rai rhannau o'r Fwrdeistref Sirol lefelau uwch o amddifadedd a diweithdra.

**14. Cynyddu cyflogaeth:**
Mae angen mwy o gyflogaeth yn RhCT i barhau i wella a chryfhau'r economi.

**15. Lleoliad cyflogaeth**
Mae anghydbwysedd yn y raddfa cyflogaeth ar draws RhCT, yn enwedig o'r gogledd i'r de ac felly dydy cyflogaeth ledled RhCT ddim mor hygyrch i bawb.

## MATERION YR ECONOMI A CHYFLOGAETH: (PARHAD):

16. **Arallgyfeirio:**
Byddai mwy o amrywiaeth a moderneiddio yn y farchnad gyflogaeth yn cael eu croesawu.
17. **Ystadau cyflogaeth;**
Byddai'r stoc adeiladau yn rhai o'r ystadau cyflogaeth a diwydiannol yn elwa o waith moderneiddio neu ailddatblygu.
18. **Cyflogaeth a chanol trefi:**
Mae angen mwy o gyfleoedd cyflogaeth yng nghanol trefi.
19. **Addysg:**
Mae yna ardaloedd yn RhCT sydd â lefelau cyrhaeddiad addysgol is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

## MATERION YN YMWNEUD Â SEILWAITH TRAFNIDIAETH

20. **Lleihau'r angen i deithio;**
Mae angen lleihau'r angen i deithio, yn enwedig trwy leoliad datblygiadau newydd.
21. **Trafnidiaeth gyhoeddus:**
Dydy rhai cymunedau ac ardaloedd yn RhCT ddim yn cael eu gwasanaethu cystal gan drafnidiaeth gyhoeddus a chyfleusterau teithio llesol ag eraill. Gall hyn ymwneud â math, amlder neu integreiddio rhwng dulliau. Dylid annog y cyfleusterau hyn a pharhau i 'w gwella i bawb.
22. **Metro:**
Mae Metro De Cymru yn cael ei groesawu a dylid ei gefnogi drwy leoli datblygiadau yn y dyfodol yn briodol.
23. **Tagfeydd a ffyrdd:**
Mae yna ardaloedd o dagfeydd traffig yn ystod oriau brig o amgylch RhCT a dylid mynd i'r afael â'r rhain lle bo modd.
24. **Cysylltedd ac integreiddio:**
Yn gyffredinol, mae llai o gysylltedd trafnidiaeth da rhwng rhai ardaloedd yn RhCT, yn enwedig wrth deithio o'r dwyrain i'r gorllewin.
25. **Cerbydau trydan:**
Does dim digon o seilwaith gwefru cerbydau trydan yn RhCT.

## MATERION IECHYD A LLES

26. **Iechyd a lles corfforol a meddyliol:**
O'u hystyried yn erbyn dangosyddion cenedlaethol, mae rhai lefelau iechyd corfforol a meddyliol gwael yn RhCT, ac mae hyn yn waeth mewn rhai ardaloedd nag eraill.
27. **Darpariaeth gofal iechyd:**
Mae angen i ddarpariaeth gofal iechyd sylfaenol fodloni gofynion y boblogaeth sy'n tyfu.
28. **Ansawdd aer a llygredd:**
Mae gan rai ardaloedd bach o RCT bocedi o ansawdd aer gwael.
29. **Mynediad i fannau agored/gwyrdd, yr awyr agored a gweithgarwch corfforol:**
Mae gan rai rhannau o RCT fannau agored a gwyrdd sy'n llai hygyrch nag eraill.
30. **Trosedd a diogelwch:**
Yn yr un modd â phob ardal, mae gan RCT broblemau o ran troseddau, a lle bo modd, dylai datblygiadau geisio dylunio i atal posibilrwydd o droseddau.

## MATERION AMGYLCHEDD NATURIOL

31. **Seilwaith gwyrdd, mannau gwyrdd a mannau agored:**
Mae angen gwarchod, gwella a darparu rhagor o seilwaith gwyrdd a glas. Mae angen mwy o fannau agored a mannau gwyrdd sy'n hygyrch ac o ansawdd da yn RhCT mewn rhai lleoedd.

32. **Ecoleg a bioamrywiaeth:**
Mae angen gwarchod a gwella nodweddion bioamrywiaeth ac asedau naturiol, yn enwedig yn unol â'r argyfwng natur sydd wedi'i ddatgan ar lefel genedlaethol.

33. **Tirwedd:**
Dylid parhau i warchod tirweddau sensitif ledled RhCT a rhoi ystyriaeth hefyd i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

## MATERION NEWID YN YR HINSAWDD

34. **Ynni Adnewyddadwy:**
Mae angen rhagor o gynlluniau datblygu ynni adnewyddadwy cynaliadwy a phriodol.

35. **Llifogydd:**
Rhaid parhau i reoli llifogydd a'u heffeithiau yn RhCT.

36. **Seilwaith gwyrdd a storio carbon:**
Mae angen cadw a gwella seilwaith gwyrdd a'r holl asedau naturiol addas a all helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

37. **Dyluniad cynaliadwy / carbon niwtral:**
Dylid dylunio datblygiadau mewn modd mwy cynaliadwy ac ystyriol o ran carbon.

38. **Tanau gwyllt:**
Mae rheoli risg tanau gwyllt yn bwysig ar gyfer diogelwch, yr amgylchedd ac ar gyfer iechyd a lles.

## MATERION GWASTRAFF

39. **Sbwriel ac ailgylchu:**
Mae angen parhau i annog a gwella cyfraddau ailgylchu cadarnhaol a lleihau'r holl wastraff sy'n cael ei gynhyrchu.

40. **Casglu gwastraff:**
Mae angen sicrhau bod datblygiadau yn cael eu dylunio gyda chasgliadau gwastraff mewn golwg.

41. **Economi gylchol:**
Mae angen mwy o ystyriaeth a chefnogaeth ar gyfer yr economi gylchol.

42. **Tipio anghyfreithlon:**
Mae tipio anghyfreithlon yn broblem yn RhCT. Mae angen sicrhau amddiffyniad ffisegol a chemegol yr amgylchedd naturiol.

## MATERION YN YMWNEUD Â MWYNAU

43. **Echdynnu:**
Ni ddylai fod rhagor o waith echdynnu glo yn RhCT.

44. **Dylai gwaith echdynnu agregau chwarel yn RhCT fod yn briodol ac yn angenrheidiol.**

45. **Gwaddol diwydiant y pyllau glo:**
Mae angen mynd i'r afael â gwaddol diwydiant y pyllau glo a'i effeithiau.

## MATERION YN YMWNEUD Â DIWYLLIANT, TREFTADAETH A'R GYMRAEG

**46. Adeiladau Rhestredig, cadwraeth a threftadaeth:**
Dylai adeiladau rhestredig, ardaloedd cadwraeth ac asedau treftadaeth gael eu cadw a'u gwella er mwyn cael nifer o fanteision.

**47. Y Gymraeg:**
Mae angen gwarchod, cefnogi ac annog y Gymraeg

**48. Addysg:**
Rhaid parhau i wella cyrhaeddiad addysgol.

**49. Addysg:**
Rhaid i gapasiti ysgolion barhau i dyfu i ddiwallu'r angen cynyddol mewn rhai ardaloedd yn RhCT.

**50. Y celfyddydau:**
Dylid cefnogi'r celfyddydau ymhellach.

**51. Gweithgareddau yn y gymuned:**
Mae angen gwella cydlyniant cymunedol a chreu cymunedau cryf.

## MATERION SEILWAITH CYMUNEDOL

**52. Iechyd:**
Mae angen i ddarpariaeth gofal iechyd sylfaenol fodloni gofynion y boblogaeth sy'n tyfu.

**53. Mynediad i wasanaethau a chyfleusterau:**
Mae gan rai cymunedau wasanaethau a chyfleusterau llai hygyrch nag eraill, a dylid ystyried hyn wrth gynnig tai newydd.

## MATERION YN YMWNEUD Â THWRISTIAETH A HAMDDEN

**54. Twristiaeth:**
Mae angen adeiladu ar lwyddiannau twristiaeth diweddar yn RhCT, er mwyn helpu i gefnogi'r economi ymhellach.

**55. Llety twristiaid:**
Mae angen llety addas pellach ar gyfer twf yn y sector Twristiaeth.

**56. Hyrwyddo Twristiaeth ac ymweliadau estynedig:**
Dylid ceisio ffyrdd o annog ymwelwyr i aros am gyfnod hirach yn RhCT. Gall hyn gynnwys hyrwyddo ein hasedau diwylliannol, treftadaeth a naturiol.

**57. Hyrwyddo a chefnogi busnesau:**
Croesewir mwy o hyrwyddo a chefnogaeth i dwristiaeth a'i busnesau yn RhCT.

**58. Cyfleusterau hamdden:**
Mae angen parhau i gefnogi defnyddiau a chyfleusterau hamdden.

## MATERION YN YMWNEUD Â CHANOL TREFI A MANWERTHU

**59. Canol trefi:**
Mae angen newid rôl canol trefi. Mae angen newid y cymysgedd o ddefnyddiau ac mae angen mabwysiadu dull hyblyg ar gyfer ffyniant yn y dyfodol.

**60. Tai yng nghanol trefi:**
Dylid cefnogi tai yng nghanol trefi ond mae angen iddyn nhw fod yn briodol ac yn addas.

**61. Buddsoddi yng nghanol trefi:**
Mae angen buddsoddiad parhaus yng nghanol trefi i gynnal hyfywedd yn y dyfodol.

## MATERION YN YMWNEUD Â GWADDOL Y DIWYDIANT GLO

**62. Diogelwch tomennydd:**
Mae angen rhoi sylw i ddiogelwch tomennydd.

**63. Adfer:**
Mae angen mynd i'r afael â'r rhwystrau o ran adfer.

**64. Ecoleg a bioamrywiaeth:**
Mae angen cydnabod gwerth uchel ecoleg a bioamrywiaeth yr hen safleoedd mwyngloddio, eu hystyried yn effeithiol a'u hintegreiddio i gynigion datblygu, diogelwch tomennydd a chyflawni rheolaeth.







# 4 GWELEDIGAETH AC AMCANION

## Cyflwyniad

4.1.1 Mae Gweledigaeth a chyfres o Amcanion ategol wedi'u llunio ar gyfer y CDLl Diwygiedig i sicrhau bod y cynllun yn mynd i'r afael â'r Materion allweddol a nodwyd. Mae'n nodi pwrpas y cynllun a sut mae bwriad i RCT newid a datblygu dros gyfnod y cynllun hyd at 2037. Mae'r Weledigaeth a'r Amcanion yn gydgysylltiedig a dylid eu hystyried gyda'i gilydd.

4.1.2 Mae'r Weledigaeth yn cyd-fynd â strategaethau a pholisïau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol perthnasol. Mae Cynllun Corfforaethol a Chynllun Llesiant y Cyngor wedi llywio Gweledigaeth y CDLl Diwygiedig yn uniongyrchol, ochr yn ochr â'r Materion a nodwyd. Mae hyn er mwyn sicrhau bod synergedd a chysondeb rhwng y tair dogfen, sy'n anelu at yr un deilliant yn gyffredinol ar gyfer RhCT.

4.1.3 Mae'r themâu cyson sydd wedi dod i'r amlwg o'r uchod yn cynnwys newid yn yr hinsawdd, iechyd, cymunedau cydlynol a phwysigrwydd yr amgylchedd a mannau gwyrdd. Mae'r Weledigaeth wedi'i llunio ar y sail yma.

4.1.4 Mae Rhondda Cynon Taf yn lle nodedig iawn gyda hanes cyfoethog, diwylliant, bywyd gwyllt pwysig, tirweddau hardd a chymunedau cyfeillgar. Yr hyn sydd hefyd yn nodedig am ardal RhCT yw'r gwahaniaethau rhwng lleoedd. Dechreuodd y CDLl blaenorol ar y gwaith o gydnabod a mynd i'r afael â'r gwahaniaethau hyn, ac adeiladu ar y cryfderau. Bydd y CDLl Diwygiedig hyn yn parhau â'r gwaith da yma ac yn adeiladu ar y llwyddiannau y mae wedi'u gweld.

## Gweledigaeth

4.1.5 Y Weledigaeth erbyn 2037 yw RhCT mwy cydnerth a chynaliadwy:

- **Ardal sydd â chymunedau cynaliadwy, cydlynol sy'n iach, wedi'u cysylltu'n dda ac sydd â mynediad cyfartal i gartrefi, swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau o ansawdd uchel.**
- **Ardal sy'n fwy cydnerth ac ystyriol i'r heriau yn ymwneud â newid yn yr hinsawdd, gyda bioamrywiaeth a mannau gwyrdd wedi'u diogelu a'u gwella a system drafnidiaeth gynaliadwy sydd â chysylltiadau da.**
- **Ardal ag economi amrywiol ac iach, gyda chanol trefi bywiog a hyfyw a sector twristiaeth lewyrchus. RhCT sy'n dathlu ei threftadaeth ac sy'n gydnerth ar gyfer y dyfodol.**

4.1.6 Bydd y Weledigaeth yn cael ei chyflawni drwy Amcanion y Cynllun, sydd wedi'u nodi yn yr adran nesaf.

## Amcanion y CDLl Diwygiedig

4.1.7 Mae angen paratoi Amcanion Clir ar ddechrau'r CDLl Diwygiedig. Maen nhw'n nodi'n fanwl y bwriadau ehangach yng Ngweledigaeth y CDLl Diwygiedig. Bydd yr Amcanion hyn yn cael eu monitro drwy gydol cyfnod y cynllun, a fydd yn y pen draw yn dangos a yw'r CDLl Diwygiedig wedi'i gyflawni'n llwyddiannus.

4.1.8 Mae'r amcanion wedi'u llunio o'r Weledigaeth ac wedi'u llywio'n helaeth gan ehangder y Materion sydd wedi'u dangos yn yr adran flaenorol. Mae rhagor o fanylion am sut mae'r Materion a'r Weledigaeth wedi llywio'r gwaith o baratoi'r Amcanion i'w gweld yn y **Papur Gweledigaeth, Materion ac Amcanion.**

4.1.9 Ymhellach, cafodd Amcanion penodol eu nodi ar gyfer y broses Arfarniad Integredig o Gynaliadwyedd, sydd hefyd yn adlewyrchu polisïau, strategaethau a chynlluniau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, gan gynnwys Cynllun Llesiant Cwm Taf Morgannwg.

4.1.10 Penderfynwyd bod 15 Amcan a nodwyd yn yr Arfarniad Integredig o Gynaliadwyedd yn gwbl briodol i'w datblygu fel Amcanion cyffredinol y CDLl Diwygiedig, gan eu bod yn cyd-fynd yn llawn â'n Gweledigaeth a'n Materion a nodwyd. Yna mae 3 Amcan arall wedi'u nodi na fyddai'n rhan o broses yr Arfarniad Integredig o Gynaliadwyedd, sy'n cael eu hystyried yn angenrheidiol i'w cyflawni gan y CDLl Diwygiedig.

4.1.11 Felly, er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r CDLl Diwygiedig a'i Weledigaeth, mae 18 o Amcanion penodol wedi'u nodi ac wedi'u rhestru isod.

4.1.12 O dan bob amcan penodol, mae nodau cysylltiedig wedi'u cynnwys i roi rhywfaint o wybodaeth am y mathau o feysydd yn rhan o'r pwnc, y gellid eu defnyddio fel sail i bolisïau manwl, wrth i'r gwaith o baratoi'r cynllun symud ymlaen i'r drafft adneuo.

## 1 AMCAN 1:
# Lliniaru ac addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd a lleihau perygl llifogydd

**Nodau ac amcanion cysylltiedig:**

- Cefnogi'r cynnydd mewn seilwaith cerbydau trydan.
- Lleoli datblygiadau mewn lleoliadau cynaliadwy.
- Sicrhau bod lleoliadau cyflogaeth yn hygyrch i bawb.
- Diogelu a gwella mynediad i ardaloedd â mannau gwyrdd a mannau agored o ansawdd da yn RhCT.
- Diogelu, gwella a darparu asedau a rhwydweithiau seilwaith gwyrdd a glas pellach ar gyfer eu rolau aml-swyddogaeth.
- Parhau i reoli ein hasedau naturiol yn RhCT mewn ffordd fwy cydlynol, gan geisio nodi'r buddion amlochrog o hyn hefyd.
- Cynyddu cynhyrchiant a chyflenwad ynni adnewyddadwy a, lle bo modd, lleihau'r defnydd o ynni sy'n cynhyrchu carbon.
- Lleihau effeithiau llifogydd a sicrhau nad yw datblygiadau a chymunedau mewn perygl o lifogydd.
- Parhau i nodi, rheoli, gwarchod a gwella seilwaith gwyrdd ac asedau naturiol eraill, gan geisio nodi manteision megis helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.
- Hyrwyddo a ble y bo'n addas mynnu dylunio cynaliadwy/carbon sero net ledled RhCT.
- Cadw a gwella ein tirweddau sy'n llawn bioamrywiaeth er mwyn cynyddu cydnerthedd cynefinoedd a rhywogaethau mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol.

## 2 AMCAN 2:
# Darparu nifer a chymysgedd priodol o dai i ddiwallu anghenion lleol

**Nodau ac amcanion cysylltiedig:**

- Darparu amrywiaeth yn y farchnad dai drwy gyflwyno amrywiaeth o fathau a meintiau o dai sy'n darparu ar gyfer anghenion pob cymuned yn RhCT.
- Cynyddu nifer y tai o ansawdd da sy'n fforddiadwy ar draws marchnadoedd cymdeithasol a marchnadoedd preifat.
- Darparu safleoedd tai hyfyw yn RhCT ac annog datblygiad tir llwyd.
- Lleihau nifer yr eiddo gwag yn RhCT a dod â nhw yn ôl i ddefnydd am nifer o resymau buddiol.
- Cynyddu nifer y tai newydd sy'n cael eu hadeiladu i safon gynaliadwy / carbon sero net ac ôl-osod y stoc bresennol lle bo modd.
- Rheoli Tai Amlfeddiannaeth a'u heffeithiau'n briodol.
- Cyflawni safon uchel o ddylunio a chreu lleoedd mewn datblygiadau.
- Ceisio nodi safleoedd addas ar gyfer datblygiadau tai newydd ym mhob rhan o RCT i ganiatáu ar gyfer anghenion tai a chyfleoedd i bawb.
- Darparu ar gyfer anghenion tai poblogaeth sy'n heneiddio, a hynny mewn adeiladau newydd a'r stoc tai presennol.
- Darparu cartrefi o ansawdd uchel.
- Yr angen i ddarparu tai priodol a digonol ar gyfer cymunedau Sipsiwn a Theithwyr.

## 3 AMCAN 3:
# Hyrwyddo cymunedau bywiog, gyda chyfleoedd i fyw, gweithio a chymdeithasu i bawb

**Nodau ac amcanion cysylltiedig:**

- Darparu gwasanaethau a chyfleusterau sy'n briodol, yn hygyrch ac yn ddigonol i gymunedau presennol a chynyddol RhCT.
- Hyrwyddo cymunedau integredig, gyda chyfleoedd i bawb fyw, gweithio a chymdeithasu.
- Nodi hierarchaeth addas o'r holl ganolfannau manwerthu, sy'n darparu gwasanaethau a chyfleusterau ar lefel ranbarthol, leol a chymdogaeth.
- Ceisio cefnogi addysg a hyfforddiant yn RhCT lle bo modd.
- Cyflawni safleoedd cyflogaeth newydd o safon uchel ac wedi'u hailddatblygu.
- Gwella seilwaith yn RhCT a lleihau tagfeydd.
- Gwella lefelau addysg a hyfforddiant yn RhCT.
- Sicrhau bod digon o leoedd ysgol lle mae poblogaethau a'r galw am leoedd ysgol yn esblygu, yn enwedig lle mae datblygiad newydd yn digwydd.
- Cyflawni safon dylunio uchel ar gyfer pob datblygiad a'u deiliaid.

## 4 AMCAN 4:
# Annog ffyrdd iach a diogel o fyw sy'n hybu lles ac yn gwella lefelau iechyd yn gyffredinol yn RhCT

**Nodau ac amcanion cysylltiedig:**

- Cefnogi darpariaeth gofal iechyd a chyfleusterau digonol, gyda mynediad iddyn nhw.
- Diogelu a gwella mynediad i ardaloedd â mannau gwyrdd a mannau agored o ansawdd da yn RhCT. Mae modd i hyn gyfrannu at iechyd a lles corfforol a meddyliol gwell ar gyfer trigolion ledled RhCT.
- Chwilio am gyfleoedd i fynd i'r afael â throseddau trwy gynllunio yn RhCT, er mwyn sicrhau bod pobl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld yn teimlo'n ddiogel.
- Diogelu, gwella a darparu asedau a rhwydweithiau seilwaith gwyrdd a glas pellach ar gyfer eu rolau aml-swyddogaeth.
- Parhau i reoli, diogelu a gwella seilwaith gwyrdd ac asedau naturiol eraill, gan geisio nodi manteision megis gwella natur a helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

5

## AMCAN 5:
## Lleihau'r angen i deithio a hyrwyddo dulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy

**Nodau ac amcanion cysylltiedig:**

- Lleoli datblygiadau mewn lleoliadau cynaliadwy sydd â mynediad da at ystod o ddulliau trafnidiaeth cynaliadwy.
- Gwella'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus/cynaliadwy o ran ansawdd, lleoliad a chost.
- Gwella amlder trafnidiaeth gyhoeddus a chysylltedd gwahanol ddulliau er mwyn caniatáu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus sy'n fwy cyfannol.
- Cefnogi amcanion a chyflawniad Metro De Cymru.
- Gwella cysylltedd trafnidiaeth gyhoeddus yn RhCT rhwng gwahanol ardaloedd a gwahanol ddulliau.
- Gwella'r rhwydwaith teithio llesol ac annog pawb i'w ddefnyddio.



6

## AMCAN 6:
## Hyrwyddo, gwarchod a gwella treftadaeth ddiwylliannol a'r amgylchedd adeiledig

**Nodau ac amcanion cysylltiedig:**

- Diogelu, cadw, hyrwyddo a gwella'r amgylchedd hanesyddol (adeiladau rhestredig, ardaloedd cadwraeth ac asedau treftadaeth) fel adnodd ar gyfer llesiant cyffredinol cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.
- Ceisio datblygu cyfleoedd i ymestyn y diwydiant twristiaeth dreftadol yn RhCT.
- Cefnogi diwylliant y celfyddydau a threftadaeth gysylltiedig RhCT.

7

## AMCAN 7:
## Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg

**Nodau ac amcanion cysylltiedig:**

- Cefnogi iaith Gymraeg sy'n ffynnu mewn cysylltiad â nodi lleoliadau datblygu.
- Cefnogi a sefydlu'r amodau yn RhCT, sy'n caniatáu i'r Gymraeg ffynnu.

8

## AMCAN 8:
## Gwarchod a gwella ansawdd a chymeriad y dirwedd

**Nodau ac amcanion cysylltiedig:**

- Gwarchod a gwella ein tirweddau unigryw sydd o bosibl yn sensitif i bwysau datblygu.

## AMCAN 9: Gwarchod a gwella bioamrywiaeth

**Nodau ac amcanion cysylltiedig:**

- Gwarchod a gwella bioamrywiaeth a nodweddion ecolegol rhag datblygiad amhriodol a'i effeithiau cysylltiedig.
- Nodi'r ecoleg a'r fioamrywiaeth mewn ardaloedd ag etifeddiaeth mwyngloddio.
- Cydnabod y rôl unigryw sydd gan yr adnodd cyfoethog o gynefin lled-naturiol ac amrywiaeth y rhywogaethau yn RhCT fel asedau ar gyfer llesiant trigolion RhCT.
- Cydnabod, rheoli a gwarchod ecoleg a bioamrywiaeth unigryw ein hetifeddiaeth mwyngloddio, gan integreiddio hyn yn effeithiol â gofynion diogelwch a chynnal a chadw tomennydd.

## AMCAN 10: Diogelu ansawdd a nifer yr adnoddau dŵr yn RhCT

**Nodau ac amcanion cysylltiedig:**

- Diogelu, gwella a darparu asedau a rhwydweithiau seilwaith gwyrdd a glas pellach ar gyfer eu rolau aml-swyddogaeth.
- Gwella'r amgylchedd dŵr a cheisio mynd i'r afael â'r effeithiau negyddol arno.

## AMCAN 11: Gwarchod a gwella ansawdd aer a sicrhau seinweddau priodol

**Nodau ac amcanion cysylltiedig:**

- Ceisio gwella ansawdd aer ar draws y Fwrdeistref Sirol.
- Ceisio gwella seinweddau ar draws y Fwrdeistref Sirol.

## AMCAN 12: Hyrwyddo defnydd effeithlon o dir, priddoedd a mwynau

**Nodau ac amcanion cysylltiedig:**

- Annog cyflawniad gwaith datblygu tir llwyd.
- Rheoli ein hasedau naturiol yn RhCT yn well mewn ffordd fwy cydlynol, sy'n nodi ac yn darparu buddion amlochrog sy'n cefnogi ei gilydd.
- Sicrhau bod holl waith echdynnu chwarel yn briodol, yn angenrheidiol ac yn unol â'r holl safonau ac amodau.
- Hyrwyddo defnydd effeithlon a phriodol o fwynau, gan gynnwys diogelu adnoddau a sicrhau bod cronfeydd digonol yn cael eu dyrannu i ddiwallu anghenion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- Annog ailgylchu ac ailddefnyddio agregau a deunyddiau adeiladu, lle bo modd.

13

## AMCAN 13:
# Parhau i leihau'r gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu a hyrwyddo dulliau rheoli gwastraff mwy cynaliadwy

**Nodau ac amcanion cysylltiedig:**

- Parhau i annog, cefnogi a gwella ailgylchu yn RhCT, a chefnogi lleihau gwastraff yn gyffredinol.
- Sicrhau bod stadau tai newydd o bob maint wedi'u dylunio'n briodol i ganiatáu i gerbydau mwy eu cyrraedd, yn enwedig ar gyfer casglu gwastraff.
- Sicrhau bod yr holl wastraff gweddilliol nad oes modd ei ailgylchu yn cael ei waredu mewn modd cynaliadwy nad yw'n creu unrhyw lygredd.
- Cefnogi'r economi gylchol i sicrhau bod asedau, deunyddiau, cynhyrchion a chydrannau adeiledig yn cael eu hailddefnyddio ac yn parhau i gael eu defnyddio cyhyd ag y bo modd.




14

## AMCAN 14:
# Darparu ar gyfer economi gynaliadwy

**Nodau ac amcanion cysylltiedig:**

- Lleihau lefelau amddifadedd yn RhCT a cheisio cefnogi cyfleoedd cyflogaeth.
- Mynd i'r afael ag effaith y coronafeirws yn RhCT.
- Darparu ar gyfer economi gynaliadwy.
- Ceisio datblygu cyfleoedd i ymestyn y diwydiant twristiaeth dreftadol yn RhCT.

15

## AMCAN 15:
# Darparu ar gyfer ystod amrywiol o gyfleoedd gwaith

**Nodau ac amcanion cysylltiedig:**

- Cefnogi safleoedd cyflogaeth presennol ledled RhCT a cheisio adfywio'r stoc hŷn ac adfeiliedig ar safleoedd. Dyrannu cyfleoedd cyflogaeth newydd mewn lleoliadau priodol.
- Darparu ystod amrywiol o gyfleoedd gwaith.
- Cynyddu nifer y cyfleoedd gwaith yn RhCT.
- Cynyddu nifer y cyfleoedd cyflogaeth yng nghanol trefi.



16

## AMCAN 16:
## Hyrwyddo Canol Trefi bywiog, hyblyg a chydnerth

**Nodau ac amcanion cysylltiedig:**

- Cefnogi ac annog rôl newidiol ac amrywiaethu priodol ar gyfer canol trefi neu ganolfannau masnachol a rhoi hyblygrwydd iddyn nhw addasu i newid.
- Darparu tai priodol mewn lleoliadau canol trefi ar y raddfa gywir a ddylai gynyddu bywiogrwydd canol trefi.
- Parhau i ddarparu seilwaith digonol a phriodol yng nghanol trefi, gan gynnwys cysylltu'r holl ddulliau trafnidiaeth, trafnidiaeth gyhoeddus a dulliau teithio llesol
- Creu hierarchaeth fanwerthu briodol, sy'n darparu gwasanaethau a chyfleusterau ar lefel ranbarthol, leol a chymdogaeth.
- Cynyddu nifer y cyfleoedd cyflogaeth yng nghanol trefi.



17

## AMCAN 17:
## Mynd i'r afael ag ôl-effeithiau mwyngloddio yn RhCT

**Nodau ac amcanion cysylltiedig:**

- Mynd i'r afael yn briodol â'r risg sy'n gysylltiedig â thomennydd o'r diwydiant glo a gwaith mwyngloddio eraill.
- Ceisio nodi opsiynau i ailddatblygu safleoedd tir llwyd sy'n cael eu heffeithio gan ein hetifeddiaeth mwyngloddio, ar y ddaear ac o dan y ddaear.
- Sicrhau bod safleoedd etifeddiaeth mwyngloddio yn cael eu hadfer yn briodol.
- Cydnabod ecoleg a bioamrywiaeth mewn ardaloedd o etifeddiaeth mwyngloddio.

18

## AMCAN 18:
## Cefnogi twf y sector twristiaeth a hamdden

**Nodau ac amcanion cysylltiedig:**

- Helpu i gefnogi darparu llety addas ar gyfer y sector twristiaeth.
- Cefnogi twf twristiaeth a chyfleoedd cysylltiedig yn RhCT.
- Cefnogi twf twristiaeth eco/gwyrdd yn RhCT.
- Gwella cyfleusterau twristiaeth a seilwaith cysylltiedig a hygyrchedd i bawb.
- Cefnogi'r sector hamdden a'i anghenion a gwaith datblygu sy'n esblygu.



# 5 YR ASESIAD ANEDDIADAU A’R HIERARCHAETH ANEDDIADAU

## Cyflwyniad

5.1.1 Rhan allweddol o broses y CDLl Diwygiedig yw cynnal Asesiad Aneddiadau sy’n llywio’r gwaith o nodi Hierarchaeth Aneddiadau. Dylai hyn sicrhau bod penderfyniadau ar leoliad datblygiad yn y CDLl Diwygiedig yn ystyried materion megis patrymau twf cynaliadwy, cynnal gwasanaethau a chyfleusterau, a’r berthynas rhwng maint aneddiadau a sut maen nhw’n cael eu defnyddio gan bobl.

5.1.2 Mae’r Cyngor wedi ymgymryd â’r broses yma i benderfynu a yw’r hierarchaeth gyfredol yn gywir o hyd. Caiff hyn ei nodi’n fanylach yn y **Papur Asesu Aneddiadau a Hierarchaeth Aneddiadau**. Roedd yr asesiad yn seiliedig ar Hierarchaeth Aneddiadau cyfredol y CDLl o’r cychwyn cyntaf.

5.1.3 Cafodd y fethodoleg ranbarthol y cytunwyd arni ei defnyddio ar gyfer cynnal Asesiadau Aneddiadau yn y lle cyntaf; er, fel y mae’r papur yn ei nodi, cafodd ystyriaethau priodol ychwanegol eu gwneud. Cafodd asesiadau ansoddol a meintiol eu cynnal, gan gynnwys dadansoddiad cynhwysfawr iawn o’r holl aneddiadau. Cafodd aneddiadau eu hasesu i ganfod y berthynas rhyngddyn nhw, eu cymwysterau cynaliadwyedd, lefel y gwasanaethau a’r cyfleusterau oedd yn bresennol a’u hagosrwydd atyn nhw, maint y boblogaeth, pellter o gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus a’u hamlder, a chanran y siaradwyr Cymraeg oedd yn bresennol. Roedd hyn yn y pen draw er mwyn pennu eu gallu a’u capasiti i gynnwys datblygiad pellach.

## Hierarchaeth Aneddiadau'r CDLl Diwygiedig

5.1.4 Roedd deilliannau'r Asesiad Aneddiadau yn dangos bod angen nifer fach o ddiwygiadau i Hierarchaeth Aneddiadau cyfredol y CDLl.

5.1.5 Yn gyntaf, er mwyn gwahaniaethu'n gliriach â'r Hierarchaeth Manwerthu sydd â chysylltiad agos, cyfeirir at 'Brif Drefi' bellach fel 'Prif Aneddiadau.'

5.1.6 Yn ail, mae Pont-y-clun wedi'i nodi fel anheddiad llai yn y CDLl cyfredol, (er ei fod o fewn Prif Dref Llantrisant/Tonysguboriau mewn fersiynau cynharach o broses paratoi'r CDLl cyfredol). Fodd bynnag, daeth yr Asesiad Aneddiadau i'r casgliad bod Pont-y-clun bellach yn rhan o'r hyn sydd bellach yn Brif Anheddiad, o ystyried y perthnasoedd rhyngddibynnol, cymdeithasol, economaidd a daearyddol clir rhwng y lleoedd hyn. O hyn ymlaen, cyfeirir at y Prif Anheddiad yma fel 'Tonysguboriau, Pont-y-clun a Llantrisant'. Ystyrir bod yr ardaloedd tai a chyflogaeth drwyddi draw yn anwahanadwy, yng nghyd-destun yr anheddiad mwy. Mae trigolion Tonysguboriau, Pont-y-clun a Llantrisant yn dibynnu ar y cyfleoedd masnachol a'r cyfleoedd trafnidiaeth gyhoeddus ledled yr anheddiad, sy'n gydgysylltiedig.

5.1.7 Hefyd, mae pentref Llwydcoed bellach yn cael ei ystyried yn anheddiad llai, gan ei fod ychydig yn fwy ar wahân na'r lleoedd hynny sy'n rhan o Brif Anheddiad Aberdâr (sef Aberdâr, Aberaman, Aber-nant, Trecynon a Chwmdâr). Mae Llwydcoed yn debycach i aneddiadau Cwm-bach ac Abercwmboi/Cwmaman, oherwydd er eu bod yn cadw perthynas ryngddibynnol ag Aberdâr, maen nhw'n fwy ar wahan ac yn fwy annibynnol.

5.1.8 Mae'r holl aneddiadau eraill o fewn yr Hierarchaeth wedi aros yr un fath felly mae Hierarchaeth Aneddiadau'r Fwrdeistref Sirol fel a ganlyn:

**Prif Aneddiadau**

- **Aberdâr**
- **Tonysguboriau, Pont-y-clun a Llantrisant**
- **Pontypridd**

5.1.9 Bydd y Prif Aneddiadau yn parhau i fod y prif ganolfannau a phyrth pwysig ar gyfer buddsoddiad newydd, arloesi a datblygu cynaliadwy. Mae hyn ar lefel RhCT ac ar lefel ranbarthol. Mae gan y Prif Aneddiadau gysylltiadau sylweddol o drafnidiaeth gyhoeddus a llwybrau teithio llesol, sy'n hwyluso symud o amgylch y Fwrdeistref Sirol a'r rhanbarth ehangach.

**Aneddiadau Allweddol**

- **Glynrhedynog**
- **Hirwaun**
- **Llanharan**
- **Aberpennar**
- **Porth**
- **Tonypandy**
- **Tonyrefail**
- **Treorci**

5.1.10 Mae Aneddiadau Allweddol yn llai yn ddaearyddol ac yn llai arwyddocaol yn strategol na'r Prif Aneddiadau. Serch hynny, mae'r aneddiadau hyn yn hynod o bwysig, gan weithredu fel canolfannau ar gyfer gweithgareddau masnachol a chymunedol a datblygiad a buddsoddiad cynaliadwy. At hynny, mae gan fwyafrif yr Aneddiadau Allweddol y cyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus angenrheidiol i gefnogi twf.

## Aneddiadau Llai

- **De Aberaman**
- **Abercynon**
- **Beddau**
- **Pentre'r Eglwys**
- **Cilfynydd**
- **Cwm-bach**
- **Cymer**
- **Efail Isaf**
- **Gilfach-goch**
- **Glyn-coch**
- **Y Ddraenen-wen**
- **Llanhari**
- **Llanilltud Faerdref**
- **Llwydcoed**
- **Maerdy**
- **Penrhiwceiber**
- **Pentre**
- **Pen-y-waun**
- **Rhigos**
- **Rhydfelen**
- **Ffynnon Taf**
- **Ton-teg**
- **Treherbert**
- **Tylorstown**
- **Ynys-hir**
- **Ynys-y-bwl**
- **Ystrad**

5.1.11 Yn yr un modd â'r Prif Aneddiadau a'r Aneddiadau Allweddol, mae Aneddiadau Llai wedi'u lleoli'n gynaliadwy gyda gwasanaethau a chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus i gefnogi datblygiad. Bydd yr Aneddiadau Llai yn chwarae rhan bwysig wrth gyflawni'r Strategaeth drwy gefnogi bywiogrwydd yr aneddiadau lefel uwch a darparu ar gyfer lefelau twf. Byddan nhw'n helpu i ddiwallu anghenion cymunedau lleol, gan gadw ac ehangu'r ddarpariaeth o wasanaethau a chyfleusterau.

## Aneddiadau y Tu Allan i Ffiniau Aneddiadau

| Enw | Lleoliad | Math |
|---|---|---|
| **Teras Trem y Gogledd** | Aberaman | **2** |
| **Goitre Coed Isaf** | Abercynon | **2** |
| **Llys Gelynog** | Beddau | **1** |
| **Blaen-cwm** | Blaen-cwm | **1** |
| **Coed-elái** | Coed-elái | **1** |
| **Teras Pwllfa Dâr** | Cwmdâr | **2** |
| **Heol Creigiau** | Efail Isaf | **1** |
| **Groes-faen** | Groes-faen | **1** |
| **Heol yr Arhosfan** | Hirwaun | **2** |
| **Coedlan Seymour** | Llanharan | **2** |
| **Dyffryn Meiros** | Llanharan | **1** |
| **Trem-y-Fforest** | Llanhari | **2** |
| **Degar** | Llanhari | **1** |

| Annediadau y Tu Allan i Ffiniau Aneddiadau (parhad) | | |
|---|---|---|
| **Enw** | **Lleoliad** | **Math** |
| **Gwaun Llanhari** | Llanhari | **1** |
| **Castell-y-Mwnws** | Llanhari | **1** |
| **Mwyndy** | Llantrisant | **1** |
| **Greys Place** | Llwydcoed | **2** |
| **Pantaquesta** | Meisgyn | **1** |
| **Yr Ucheldir** | Penycoedcae | **1** |
| **Penycoedcae** | Penycoedcae | **1** |
| **Cefn Rhigos** | Rhigos | **1** |
| **Rhiwsaeson** | Rhiwsaeson | **1** |
| **Talygarn** | Talygarn | **1** |
| **Talygarn House** | Talygarn | **1** |
| **Pantybrad** | Tonyrefail | **1** |
| **Maes Tyle-coch** | Treorci | **2** |
| **Ynysmaerdy** | Ynysmaerdy | **1** |
| **Trem Hyfryd** | Ynys-y-bwl | **2** |
| **Y Darren-ddu** | Ynys-y-bwl | **1** |

5.1.12 Mae'r Hierarchaeth Aneddiadau hefyd yn cydnabod bod yna 29 o aneddiadau o ddeg neu ragor o anheddau y tu allan i'r ffiniau aneddiadau sydd wedi'u diffinio. Yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol, dydy'r aneddiadau hyn ddim yn addas ar gyfer datblygiad pellach gan eu bod nhw mewn lleoliadau anghynaliadwy a fydden nhw ddim yn diwallu'r Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy.

- Anheddiad Math 1: **Clwstwr o anheddau**
- Anheddiad Math 2: **Teras neu stryd**

5.1.13 Dylid nodi hefyd bod yr Hierarchaeth Aneddiadau cyffredinol wedi'i chysylltu'n annatod â'r Hierarchaeth Canolfannau Manwerthu a Masnachol sydd wedi'i nodi mewn polisi strategol yn ddiweddarach yn y Strategaeth a Ffefrir. Fodd bynnag, dylid nodi, o'r pwynt hwn ymlaen yn y CDLl, bod yr hyn y cyfeiriwyd ato fel y Canolfannau Manwerthu a Masnachol (a'r papur hierarchaeth cefndir) bellach yn cael ei alw'n 'Ganolfannau Aneddiadau' h.y. canolfannau'r aneddiadau yn yr Hierarchaeth Aneddiadau.







# 6 OPSIYNAU AR GYFER TWF

## Cyflwyniad

6.1.1 Rhan sylfaenol o'r gwaith o baratoi'r CDLl Diwygiedig yw sefydlu'r lefel fwyaf addas o dwf i'r cynllun ei gyflawni. Caiff hyn ei bennu gan lu o dystiolaeth, anghenion a dyheadau yn ymwneud â materion cymdeithasol, economaidd a demograffig. Yn bennaf, mae hyn yn ymwneud â'r raddfa tai y dylid ei darparu yn y CDLl Diwygiedig. Fodd bynnag, mae hyn hefyd wedi'i gysylltu'n gynhenid ag economi RhCT, o ran twf cyflogaeth a cheisio sicrhau demograffeg gytbwys yn y dyfodol yn y Fwrdeistref Sirol, er mwyn ei ffyniant parhaus.

6.1.2 Mae 'Edge Analytics' wedi paratoi adroddiad **Tystiolaeth Ddemograffig** ar gyfer RhCT. Mae'n gosod proffil manwl o ddemograffig a chyflogaeth ar gyfer y Fwrdeistref Sirol. Yna mae'n cyflunio amrywiaeth o senarios twf, yn seiliedig ar ddemograffeg a chyflogaeth. Mae'n cloi gydag ystod gysylltiedig o ddeilliannau twf o ran anheddau a chyflogaeth ar gyfer pob un o'r sefyllfaoedd hyn rhwng 2022 a 2037.

6.1.3 Mae'r **Papur Opsiynau ar gyfer Twf** yn dilyn ymlaen o hyn, gan nodi ein dadansoddiad o'r Senarios Twf hyn i benderfynu beth sydd fwyaf addas ar gyfer y CDLl Diwygiedig, yn erbyn llu o dystiolaeth ac ystyriaethau perthnasol.

6.1.4 Mae tystiolaeth arall o'r fath sydd wedi llywio'r broses yma yn cynnwys:

- **Adroddiad Adolygu CDLl**
- **Amcanestyniadau Aelwydydd a Phoblogaeth 2018 Llywodraeth Cymru**
- **Y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac Ystadegau Cymru**
- **Papur Cyflenwad Tai**
- **Asesiadau Safleoedd Ymgeisiol**
- **Astudiaeth Capasiti Trefol**
- **Asesiad o'r Farchnad Dai Leol**

## Senarios Twf

**Cafodd senarios a oedd yn dangos deilliannau tebyg eu grwpio gyda'i gilydd i'w dadansoddi, fel a ganlyn:**

### SENARIOS TWF YSTOD GANOLIG:

6.1.5 **Mae'r cyntaf o'r senarios twf ystod ganolig yn seiliedig ar Brif Amcanestyniadau Poblogaeth 2018 Llywodraeth Cymru (LIC). Mae'r ail yn senario 5 mlynedd ar sail Anheddau. Ystyrir mai opsiwn 2018-LIC yw'r prif amcanestyniad (neu'r amcanestyniad 'ganolog'), ac mae ei ragolygon yn seiliedig ar dybiaethau megis marwolaethau, mudo, cyfansoddiad aelwydydd, a ffrwythlondeb yn y dyfodol, yr ystyrir sydd fwyaf adlewyrchol o batrymau demograffig ar yr adeg cyhoeddi. Mae'r opsiwn 5 mlynedd ar sail Anheddau wedi llunio amcanestyniadau gan ddefnyddio cyfradd cwblhau tai blynyddol cyfartalog RhCT o 509 o anheddau'r flwyddyn (2016/17 – 2020/21).**

6.1.6 Mae'r amcanestyniadau hyn wedi'u trosi i ofynion tai newydd o 8,450 a 7,635 ar draws cyfnod y CDLl Diwygiedig, neu 564 a 509 o anheddau i'w hadeiladu'r flwyddyn, yn y drefn honno. Y twf cyflogaeth blynyddol disgwyliedig cysylltiedig fyddai 266 a 187 o swyddi yn y drefn honno.

| Enw'r Senario Amcanestyniad | Crynodeb | Cyfanswm y newid yn y boblogaeth 2022-37 (% y newid) | Cyfanswm y newid mewn aelwydydd 2022-37 (% y newid) | Cyfanswm Anheddau (Anheddau'r flwyddyn) | Twf Cyflogaeth y flwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|
| **2018-LIC** | Prif Amcanestyniadau Poblogaeth yn seiliedig ar ffrwythlondeb, marwolaethau, mudo a thybiaethau am gyfansoddiad aelwydydd. | 8,020 (3.3%) | 8,009 (7.5%) | 8,450 (564) | 266 |
| **5 mlynedd ar sail Anheddau** | Modelu ar dwf blynyddol cyfartalog anheddau sy'n cyfateb i gyfradd flynyddol gyfartalog cwblhau tai RhCT 2016/17 – 2020/21. | 6,406 (2.7%) | 7,234 (6.8%) | 7,635 (509) | 187 |

6.1.7 At ei gilydd, caiff y ddwy senario twf ystod ganolig eu hategu gan y dystiolaeth fwyaf sylweddol. Mae pob un o'r senarios hyn yn cyflwyno senarios twf realistig mae modd eu cyflawni, ac mae'r twf mewn anheddau a swyddi a ragwelir gan y senarios hyn yn adlewyrchu safle RhCT yn rhan o Ardal Twf Genedlaethol Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd. Mae gan yr opsiynau ar gyfer twf ystod ganolig y fantais o ddarparu cydbwysedd i ddarparu nifer uchelgeisiol ond cyraeddadwy o dai preifat a fforddiadwy y mae mawr eu hangen mewn lleoliadau cynaliadwy, wrth hefyd leihau effeithiau amgylcheddol posibl. Mae'r ddau senario hyn yn dargedau cadarnhaol ac uchelgeisiol iawn sydd â'r modd i ddatrys amcanion lluosog y CDLl diwygiedig.

## SENARIOS TWF UWCH:

6.1.8 **Mae dwy senario arall wedi'u hystyried sydd â lefelau twf uwch. Mae'r cyntaf yn dilyn Amcanestyniadau Poblogaeth Uchel 2018 Llywodraeth Cymru ac mae'n seiliedig ar ragdybiaethau uchel ar gyfer ffrwythlondeb, marwolaethau a mudo o gymharu â'r prif amcanestyniad. Mae'r ail, senario 5 Mlynedd PG (meddalwedd cwmni Pop Group), yn calibro amcanestyniadau poblogaeth/aelwydydd yn seiliedig ar batrymau mudo dros y 5 mlynedd diwethaf.**

6.1.9 Gofynion tai newydd y senarios hyn yw 721 a 682 y flwyddyn, a'r twf cyflogaeth blynyddol fyddai 343 a 355 o swyddi yn y drefn honno.

| Enw'r Senario Amcanestyniad | Crynodeb | Cyfanswm y newid yn y boblogaeth 2022-37 (% y newid) | Cyfanswm y newid mewn aelwydydd 2022-37 (% y newid) | Cyfanswm Anheddau (Anheddau'r flwyddyn) | Twf Cyflogaeth y flwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amrywiad Uwch** | Yn seiliedig ar ragdybiaethau uwch ar gyfer ffrwythlondeb, disgwyliad oes a mudo o gymharu â'r Prif Amcanestyniadau Poblogaeth. | 13,490 (5.6%) | 10,238 (9.5%) | 10,815 (721) | 343 |
| **PG-5 mlynedd** | Yn calibro rhagdybiaethau mudo gan ddefnyddio data SYG ar gyfer Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn dros y 5 mlynedd diwethaf (2015/16 – 2019/20) | 12,135 (5.0%) | 9,686 (9.0%) | 10,230 (682) | 355 |

6.1.10 Byddai'r opsiynau ar gyfer twf uwch hyn yn cyd-fynd ymhellach â dyheadau'r meysydd twf cenedlaethol; cynyddu'r boblogaeth oedran gweithio a darparu mwy o dai fforddiadwy a swyddi. Fodd bynnag, mae ansicrwydd nodedig o hyd a thystiolaeth gyfyngedig y byddai modd i'r gofynion anheddau gael eu cyflawni neu eu cyflwyno'n realistig yn RhCT yng nghyfnod y cynllun hyd at 2037. Byddai hyn yn gofyn am gyfraddau adeiladu llawer uwch na'r cyfartaledd yn y gorffennol a galw disgwyliedig y farchnad (yn wir, efallai bod y CDLl cyfredol wedi bod yn rhy uchelgeisiol yn hyn o beth). Byddai'r angen am nifer uwch o dir newydd addas sydd ar gael i'w ddyrannu yn her. Yn gyffredinol, mae'r opsiynau ar gyfer twf uwch yn cael eu hystyried yn strategaeth risg uchel, gyda gofynion a dyheadau afrealistig efallai.

## SENARIOS TWF ISEL:

6.1.11 **Mae'r drydedd set o senarios twf yn cynnwys senario Poblogaeth Isel 2018-LIC. Yn wahanol i'r amrywiad 'uwch', mae'r amrywiad is yn seiliedig ar ragdybiaethau isel ar gyfer ffrwythlondeb, marwoldeb a mudo, o gymharu â'r Prif Amcanestyniad. Mae'r senario PG-Tymor Hir wedyn yn seiliedig ar ragdybiaethau mudo sy'n adlewyrchu Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn y Swyddfa Ystadegau Gwladol o 2001-2020 (19 mlynedd).**

6.1.12 Gofynion tai newydd y senarios hyn yw 353 a 382 y flwyddyn, a'r twf cyflogaeth blynyddol fyddai 182 a 92 o swyddi yn y drefn honno.

| Enw'r Senario Amcanestyniad | Crynodeb | Cyfanswm y newid yn y boblogaeth 2022-37 (% y newid) | Cyfanswm y newid mewn aelwydydd 2022-37 (% y newid) | Cyfanswm Anheddau (Anheddau'r flwyddyn) | Twf Cyflogaeth y flwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amrywiad Is** | Yn seiliedig ar ragdybiaethau is ar gyfer ffrwythlondeb, disgwyliad oes a mudo o gymharu â'r Prif Amcanestyniadau Poblogaeth. | 129 (0.1%) | 5,013 (4.7%) | 5,295 (353) | 182 |
| **PG-Tymor Hir** | Yn calibro rhagdybiaethau mudo gan ddefnyddio data SYG ar gyfer Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn (2001/02 – 2019/20) | 1,867 (0.8%) | 5,429 (5.1%) | 5,730 (382) | 92 |

6.1.13 Efallai ei bod yn haws cyflawni'r opsiynau ar gyfer twf is yn bennaf trwy safleoedd banc tir presennol, safleoedd annisgwyl a nifer is o ddyraniadau. Fodd bynnag, mae'r opsiynau ar gyfer twf hyn yn llai uchelgeisiol a bydden nhw rywfaint yn groes i ddyheadau'r Ardal Twf Genedlaethol sydd wedi'i nodi yn nogfen Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol. Mae pryder cydnabyddedig hefyd na fyddai'r opsiynau ar gyfer twf hyn yn diwallu anghenion tai'r Fwrdeistref Sirol, o ran tai fforddiadwy a thai marchnad. Byddai'r effaith ar dwf poblogaeth hefyd yn achosi gostyngiad pellach yn y boblogaeth oedran gweithio.

## SENARIOS AR SAIL CYFLOGAETH :

6.1.14 **Y set olaf o senarios twf yw 'Oxford Economics (OE) a arweinir gan Gyflogaeth' ac 'ar sail Polisi a arweinir gan Gyflogaeth'. Mae'r cyntaf yn ystyried beth fyddai effaith dull gweithredu 'heb fod ar sail Polisi', lle mae twf poblogaeth yn cael ei llywio gan y tueddiadau twf cyflogaeth a ragwelir, heb unrhyw ymyrraeth polisi. Ar y llaw arall, mae'r senario ar sail Polisi a Arweinir gan Gyflogaeth yn ystyried yr effaith ar dwf y boblogaeth, wedi'i llywio gan ymyrraeth mewn tueddiadau cyflogaeth. Mae'r Grŵp BE ar y cyd â PER Consulting wedi paratoi papur sail tystiolaeth Adolygiad Tir Cyflogaeth sy'n nodi addasiadau i ragolygon Oxford Economics; ac yn rhagdybio ymyrraeth polisi economaidd penodol i gefnogi twf yn bennaf yn nosbarthiadau defnydd tir diwydiannol B2/B8.**

6.1.15 Gofynion tai newydd y senarios hyn yw 447 a 588 y flwyddyn, a'r twf cyflogaeth blynyddol fyddai 32 a 168 o swyddi yn y drefn honno.

| Enw'r Senario Amcanestyniad | Crynodeb | Cyfanswm y newid yn y boblogaeth 2022-37 (% y newid) | Cyfanswm y newid mewn aelwydydd 2022-37 (% y newid) | Cyfanswm Anheddau (Anheddau'r flwyddyn) | Twf Cyflogaeth y flwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|
| **OE a arweinir gan Gyflogaeth** | Yn modelu twf y boblogaeth ar sail rhagolwg Oxford Economics ar gyfer twf cyflogaeth o +32 y flwyddyn. | 3,725 (1.5%) | 6,348 (5.8%) | 6,705 (447) | 32 |
| **Ar sail Polisi a arweinir gan Gyflogaeth** | Yn modelu twf y boblogaeth ar sail y twf cyflogaeth blynyddol cyfartalog wedi'i addasu o +168 y flwyddyn ar gyfer RhCT, gan ragdybio twf yn bennaf yn y dosbarthiadau defnydd tir diwydiannol. | 8,416 (3.4%) | 8,357 (7.6%) | 8,820 (588) | 168 |

6.1.16 Mae'r senarios a arweinir gan gyflogaeth yn darparu opsiynau realistig a chyraeddadwy, er bod gan y ddau senario ddeilliannau gwahanol. Rhagwelir y bydd y ddau senario'n arwain at ostyngiad yn y boblogaeth oedran gweithio erbyn diwedd cyfnod y cynllun, er bod hyn yn llawer mwy arwyddocaol yn y senario OE (gostyngiad o 2.75%) na'r senario ar sail Polisi (gostyngiad o 0.65%). Yn debyg i'r senarios ystod ganolig, byddai'r opsiynau ar gyfer twf hyn yn annhebygol o gyflawni'r angen a nodwyd o dai fforddiadwy, fel y nodir yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol Canfyddiadau Drafft 2024. Ystyrir bod y senario OE yn arbennig yn annhebygol o fod yn briodol ar gyfer RhCT, oherwydd rhagolygon isel o dwf cyflogaeth a thwf tai.

## Yr Opsiwn Twf a Ffefrir ar gyfer y CDLl Diwygiedig – Prif Amcanestyniadau 2018 Llywodraeth Cymru.

6.1.17 O ystyried y dadansoddiad, mae tri opsiwn yn sefyll allan fel yr opsiynau ar gyfer twf mwyaf priodol ar gyfer y CDLl Diwygiedig, sef y ddau senario demograffig ystod ganolig a'r senario cyflogaeth ar sail Polisi. Rhagwelir y bydd y rhain yn darparu'r lefelau mwyaf priodol ac ystyriol o dwf tai a thwf cyflogaeth. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd yr opsiwn olaf yn darparu llai o swyddi newydd na'r senarios demograffig ystod ganolig ac yn cael effaith negyddol ar y boblogaeth oedran gweithio.

6.1.18 O'r ddau senario twf ystod ganolig, ystyrir bod opsiwn Prif Amcanestyniad 2018-LIC yn cynhyrchu deilliannau ffafriol ar gyfer y Fwrdeistref Sirol o gymharu â'r amrywiad 5 mlynedd ar sail Anheddau. Bydd y gofyniad tai uwch sy'n gysylltiedig ag opsiwn 2018-LIC yn arwain at fwy o dai fforddiadwy a thai marchnad yn cael eu hadeiladu. Mae'n darged tai mwy uchelgeisiol gan ei fod tua 10% yn uwch na'r gyfradd cwblhau tai cyfartalog dros y 5 mlynedd diwethaf, ond hefyd yn cyd-fynd â'r maes twf cenedlaethol. Mae'r dull dadansoddi a'i baramedrau hefyd yn dangos y byddai hyn yn darparu dros 1,000 yn fwy o swyddi newydd na'r opsiwn twf 5mlynedd ar sail Anheddau. Rhagwelir ymhellach y bydd opsiwn 2018-LIC yn rhagweld cynnydd ym mhoblogaeth oedran gweithio RhCT.

6.1.19 Cydnabyddir bod cyflawni'r angen am dai a nodwyd yn heriol iawn ond mae ceisio diwallu amcanestyniadau 2018-LIC yn rhoi'r cyfle gwell i ddarparu amrywiaeth o dai newydd o ansawdd uchel, gan gynnwys tai fforddiadwy. Teimlir na fyddai'n briodol dyheu am lefelau twf is na'r rhain; er, byddai hyn yn amodol ar sicrhau bod modd i CDLl Diwygiedig RhCT roi tystiolaeth lawn o sicrwydd ynghylch ei gyflawni, drwy gydol cyfnod paratoi'r cynllun.

6.1.20 Mae'r Papur Cyflenwad Tai yn nodi'r dystiolaeth i ddangos sut mae modd cyflawni'r opsiwn twf yma o 8,450 o anheddau (gyda byffer ychwanegol a phriodol o dir ar gyfer tai). Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy'r banc tir tai, cyfanswm cychwynnol o dir o Safleoedd Ymgeisiol a allai fod yn addas a chyfraniad o dir tai annisgwyl tebygol.

Mae papur yr Adolygiad Tir Cyflogaeth a'r polisi cyflogaeth strategol yn ddiweddarach yn y Strategaeth a Ffefrir, hefyd yn nodi sut y bydd y CDLl Diwygiedig yn ceisio cyflawni'r twf cyflogaeth arfaethedig.

## Ystyriaethau Awdurdodau Lleol Cyfagos a Rhanbarth De Ddwyrain Cymru

6.1.21 Mae angen nodi bod yna lefelau uchel o ddarpariaeth tai arfaethedig wedi'i gynnig mewn ACLlau cyfagos a De-ddwyrain Cymru yn gyffredinol, ac mae hyn wedi creu ystyriaeth ychwanegol y mae'n rhaid i RhCT ei hystyried. Mae llawer o'r twf yma'n uwch nag amcanestyniadau twf uwch LIC ar gyfer yr Awdurdodau priodol. Mae dadansoddiadau ac adroddiadau rhanbarthol hefyd yn nodi cynigion ar gyfer twf sy'n sylweddol uwch na lefelau'r FfDC. Mae ein dadansoddiad o'n sail tystiolaeth yn dangos rhywfaint o gyd-ddibyniaeth rhwng ein marchnad tai ni a marchnadoedd tai ein cymdogion. Mae hyn i gyd wedi cael ei ystyried yn llawn gan RhCT. Fodd bynnag, bydd materion ar y gweill bob amser, a chynigion mewn awdurdodau cyfagos, a fydd yn parhau y tu allan i'n rheolaeth ac a allai fod yn destun newid.

6.1.22 Mae'r Prif Amcanestyniadau y mae RhCT wedi penderfynu cynllunio ar eu cyfer, yn parhau i fod yn gyfrannol is nag eraill, ac yn cyd-fynd â Pholisi Cenedlaethol. Mae gyda ni ddyletswydd i sicrhau ein bod ni'n deall yn llawn ein hanghenion tai, economaidd a demograffig ein hunain yn RhCT. Dylai'r CDLl Diwygiedig sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r anghenion penodol hyn ac yn eu diwallu, ein bod ni'n cyflawni ein dyheadau ein hunain ar gyfer twf priodol yn RhCT, ochr yn ochr ag ystyried ardaloedd twf rhanbarthol y FfDC ac awdurdodau cyfagos.



# 7 OPSIYNAU STRATEGAETH OFODOL

## Cyflwyniad

7.1.1 Yn ogystal â phenderfynu faint sydd angen i RhCT dyfu, elfen hollbwysig arall o'r Strategaeth a Ffefrir yw lle bydd y twf yma'n digwydd. Er bod tai yn elfen hanfodol o'r cynllun, dyw'r twf cyffredinol a ystyriwyd drwy'r Strategaeth a Ffefrir ddim yn gyfyngedig i gartrefi yn unig ond hefyd i ddatblygiad economaidd a chymdeithasol dros gyfnod y cynllun.

7.1.2 Wrth ddatblygu'r Opsiynau Strategaeth Ofodol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig (CDLlD), ystyriwyd llawer o ffactorau. Yn gyntaf, roedd yn rhaid i'r opsiynau gofodol gydymffurfio â pholisiau cenedlaethol, megis y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) a Pholisi Cynllunio Cymru, sy'n nodi'r 'prawf trothwy' lle mae'n rhaid asesu cynlluniau a chynigion yn erbyn y materion opsiynau strategol a gofodol a'r deilliannau creu lleoedd cynaliadwy cenedlaethol. Mae'r prawf trothwy allweddol yma'n sicrhau bod materion pwysig yn cael eu harchwilio gan nodi cyfleoedd, ynghyd â mesurau lliniaru posibl.

7.1.3 Mae'n rhaid i'r opsiynau gofodol hefyd symud i'r un cyfeiriad â pholisiau a strategaethau lleol eraill. Mae'r rhain yn cynnwys y Cynllun Llesiant, Cynllun Corfforaethol Rhondda Cynon Taf a nifer o ddogfennau strategaethol eraill.

7.1.4 Yn ogystal, er mwyn datblygu'r Opsiynau Strategaeth Ofodol, ystyriwyd pa mor llwyddiannus yw'r CDLl cyfredol. Darparodd hyn dystiolaeth wych o ba elfennau o'r strategaeth ofodol flaenorol oedd wedi gweithio, beth nad oedd wedi gweithio a beth y dylid ystyried ei newid. Cyflawnwyd hyn trwy ddadansoddi'r Adroddiadau Monitro Blynyddol ac Adroddiad Adolygu'r CDLl, sy'n dangos lle mae datblygiad wedi digwydd ac yn cael ei gyflawni.

7.1.5 Yn ystod y prosesau creu gweledigaeth ac ymgysylltu y soniwyd amdanyn nhw'n gynharach (ac yn fanwl iawn yn y dogfennau sylfaen tystiolaeth sy'n cyd-fynd â'r ddogfen yma, sef yr **Adroddiad Ymgynghori Cyn-adneuo** a'r **Papur Gweledigaeth, Materion ac Amcanion**) nodwyd nifer o faterion penodol yn seiliedig ar leoliad. Defnyddiwyd y rhain i lywio datblygiad yr Opsiynau Strategaeth Ofodol ar gyfer y Strategaeth a Ffefrir, sydd yn ei dro yn gorfod cyflawni Gweledigaeth ac Amcanion y CDLlD.



7.1.6 Roedd ffynonellau cefndir a thystiolaeth eraill a lywiodd yr opsiynau gofodol yn cynnwys:

- Safleoedd Ymgeisiol a gyflwynwyd a Methodoleg Safleoedd Ymgeisiol
- Yr Hierarchaeth Aneddiadau a'r Papur Asesu
- Yr Astudiaeth Capasiti Trefol
- Y Papur Opsiynau ar gyfer Twf
- Y Papur Cyflenwi Tai
- Yr Adolygiad Tir Cyflogaeth
- Yr Adroddiadau Hyfywedd
- Yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol
- Y Strategaeth Dai
- Yr Astudiaeth Modelu Trafnidiaeth

7.1.7 Ystyrir hefyd yr hyn sy'n datblygu ar lawr gwlad a'r hyn y mae modd ei ddirnad o hyn; megis buddsoddiad a datblygiad sylweddol Metro De Cymru, y twf yn y diwydiant twristiaeth a natur newidiol canol trefi.

7.1.8 Lluniwyd cyfres o Opsiynau Strategaeth Ofodol yn seiliedig ar yr uchod i gyd, gan gloi gyda'r canlynol:

- **OPSIWN 1:**
  Parhad o Strategaeth bresennol y CDLl
- **OPSIWN 2:**
  Rhwydwaith Priffyrdd Strategol yn ystyried y Prif Aneddiadau
- **OPSIWN 3:**
  Canol Trefi yn Gyntaf
- **OPSIWN 4:**
  Strategaeth Twf y De
- **OPSIWN 5:**
  Nodau Metro a Thrafnidiaeth Gyhoeddus
- **OPSIWN 6:**
  Safle Strategol Allweddol yn y De
- **OPSIWN 7:**
  Cyfyngiad Trefol
- **OPSIWN 8:**
  Strategaeth Anghenion Lleol

7.1.9 Ceir disgrifiad, dadansoddiad ac asesiad cynhwysfawr o'r opsiynau yma yn y **Papur Opsiynau Strategaeth Ofodol.**

## Cefndir Opsiynau'r Strategaeth Ofodol a'u Hasesiad

7.1.10 Ystyriwyd ac aseswyd yr holl opsiynau yn erbyn y sylfaen dystiolaeth gynhwysfawr a restrir uchod. Serch hynny, un o'r ffactorau allweddol a benderfynodd oedd y gallu i gyflawni pob opsiwn, yn enwedig o ran maint y tir sydd ar gael. Er y gall datblygiadau tir llwyd yn unig mewn canolfannau/ardaloedd trefol presennol gyflawni'n dda o ran cynaliadwyedd; os na all y dull gweithredu ddarparu'r swm gofynnol o dir ar gyfer tai ac adeiladau masnachol, dydy hyn ddim yn realistig.

7.1.11 Mae Opsiynau'r Strategaeth Ofodol wedi'u cysylltu'n gynhenid â'r **Papur Opsiynau Twf** a'i ofynion a'i gasgliadau. Byddai methu â chyflawni'r swyddi a'r cartrefi gofynnol hefyd yn effeithio'n negyddol ar Rondda Cynon Taf. Gall arwain at fwy o deithio wrth i bobl gael eu gorfodi i fyw a gweithio ymhellach oddi wrth ei gilydd. Felly, her allweddol i RCT yw cydbwyso dyheadau cynaliadwyedd â pha mor realistig yw hi i gyflawni datblygiad o dan bob opsiwn, gan gofio pa mor ddeniadol yw ardal y de i ddatblygwyr o gymharu â'r gogledd. **Mae'r Papur Cyflenwi Tai**, sy'n ystyried y banc tir sydd ar gael ar gyfer tai; y safleoedd ymgeisiol sydd wedi mynd trwy asesiadau cynnar; a'r dadansoddiad o safleoedd annisgwyl, hefyd yn dylanwadu'n drwm ar y penderfyniadau ynghylch opsiynau.

7.1.12 Ystyriwyd yr Opsiynau Strategaeth Ofodol ymhellach yn erbyn yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI), a ddefnyddiodd amcanion yr ACI ar gyfer asesu. Mae canlyniadau llawn y broses yma i'w gweld yn y **Papur ACI o Opsiynau Gofodol**. Yn gyffredinol, nododd yr ACI ystod eang o effeithiau cadarnhaol a negyddol ar draws yr opsiynau. Ystyriwyd amcanion pellach y CDLlD hefyd yn erbyn yr opsiynau.

7.1.13 Ffactor allweddol arall o ran darparu opsiynau yw hyfywedd y farchnad mewn gwahanol rannau o'r Fwrdeistref Sirol. Cafodd asesiad hyfywedd lefel uchel, yn yr **Adroddiadau Hyfywedd** ei gomisiynu i ddarparu gwybodaeth am hyfywedd/meysydd marchnad i lywio'r CDLlD.

### OPSIWN 1:
### Parhau â'r Strategaeth CDLl gyfredol

7.1.14 Mae'r Strategaeth CDLl yn strategaeth hybrid, sy'n darparu ar gyfer datblygiad mewn lleoliadau sy'n diwallu anghenion lleol gan hyrwyddo twf cynaliadwy. Mae ardal y strategaeth wedi'i rhannu'n ddwy ran ar wahân, sef y Gogledd a'r De lle defnyddir dull polisi gwahanol ar gyfer pob un. Mae datblygiad yn y strategaeth bresennol yn canolbwyntio ar y Prif Drefi a'r Aneddiadau Allweddol, fel y nodir yn yr Hierarchaeth Aneddiadau. Mae hefyd yn dyrannu datblygiad defnydd cymysg ar raddfa fawr ar wyth safle strategol.

7.1.15 Mae'n amlwg o fonitro'r CDLl bod rhai elfennau o'r strategaeth hon wedi gweithio ac eraill heb weithio. Mae'r Strategaeth bresennol wedi gweld 7,784 o dai newydd yn cael eu hadeiladu yn ystod oes y cynllun. Adeiladwyd cyfanswm o 3,050 o anheddau yn yr Ardal Strategaeth Ogleddol a 4,734 yn Ardal Strategaeth y De. Serch hynny, dim ond ychydig dros hanner y swm a ddyrannwyd oedd hyn.

7.1.16 Roedd y gyfradd gwblhau ar yr holl ddyraniadau yn isel, (o ran tai a chyflogaeth) ac yn arbennig felly ar nifer o Safleoedd Strategol y dibynnwyd yn drwm arnynt ar gyfer cyflawni. Mae datblygiad wedi parhau o ddifrif ar safle Llanilid yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae datblygiad wedi digwydd ar elfen gyflogaeth Tresalem/Aber-nant a pharatoi'r elfen gyflogaeth ar Dir i'r De o Hirwaun. Dylai datblygiadau diweddar weld datblygiad pellach yn ardaloedd Mwyndy/Tonysguboriau ac Aber-nant yn y dyfodol agos. Erys y ffaith bod dim modd dibynnu ar o leiaf dri Safle Strategol tir llwyd ar hyn o bryd ar gyfer datblygiadau dwysedd uchel. Serch hynny, mae'r Strategaeth wedi gweld datblygiad sylweddol ar safleoedd heb eu dyrannu/safleoedd annisgwyl, yn enwedig safleoedd tir llwyd sydd wedi cyfrannu'n fawr at amcanion y CDLl a'i bolisïau. Mae hyn hefyd wedi'i weld mewn perthynas â datblygiad masnachol ac ailddatblygu ar safleoedd cyflogaeth presennol.

7.1.17 Wrth asesu'r opsiwn yma, mae'r elfen rhaniad gogledd/de a bwriadau'r Strategaeth yn dal yn berthnasol, ochr yn ochr â'r Hierarchaeth Aneddiadau. Efallai na fydd y Strategaeth bresennol yma yn gwbl briodol i'w datblygu yn ei chyfanrwydd, er bod elfennau cadarnhaol clir y dylid eu cadw.

## OPSIWN 2: Rhwydwaith Priffyrdd Strategol sy'n ystyried y Prif Aneddiadau

7.1.18 Mae'r opsiwn yma'n cynnig datblygiad yn y rhannau hynny o'r Fwrdeistref Sirol sy'n elwa fwyaf o'u hagosrwydd at goridorau'r M4, yr A470 a'r A465. Mae hyn yn cyd-fynd yn gyffredinol â Phrif Aneddiadau Tonysguboriau/Pont-y-clun/Llantrisant, Pontypridd ac Aberdâr, sydd ar ben yr Hierarchaeth Aneddiadau.

7.1.19 I raddau, mae modd dosbarthu hwn fel opsiwn, sy'n hyrwyddo'r defnydd o geir ymhellach gan ei fod yn seiliedig ar y rhwydwaith priffyrdd strategol. Wrth gwrs, fyddai hyn ddim yn cyd-fynd â'r polisi cenedlaethol, sy'n hyrwyddo newid i ffwrdd oddi wrth ddatblygiadau sy'n hybu'r defnydd o geir. Serch hynny, yn hytrach na strategaeth yn seiliedig ar geir yn unig, mae'n ceisio ehangu'r adfywio parhaus yn y coridorau Prif Aneddiadau yma ac o'u cwmpas. Mae hyn yn cynnwys yr hwb i dwristiaeth yng ngogledd Cwm Cynon, yr adfywio a welwyd ym Mhontypridd a galw'r farchnad yn ardal Taf-elái. O ran yr A465, ffordd 'Blaenau'r Cymoedd', yn benodol, bwriad y buddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru yng nghoridor y cymoedd gogleddol oedd cynyddu ffyniant economaidd yn yr isranbarth yma. Mae hyn yn amlwg yn rhywbeth y mae'n rhaid i'r CDLlD wneud y mwyaf ohono, a ddylai gynnwys twf economaidd cyffredinol a chryfhau'r economi twristiaeth sy'n datblygu yng ngogledd RhCT.

## OPSIWN 3: Canol Trefi yn Gyntaf

7.1.20 Mae'r opsiwn yma'n ceisio ymagwedd canol trefi yn gyntaf at leoliad datblygiadau, gan ddefnyddio dull dilyniannol. Mae'n nodi safleoedd datblygu sy'n agos at y prif aneddiadau a'r aneddiadau allweddol, fel y nodir yn yr Hierarchaeth Aneddiadau. Mae'r opsiwn yma'n hyrwyddo teithio cynaliadwy trwy leoli datblygiadau'n agos at drafnidiaeth gyhoeddus ac yn agos at gyfleoedd cyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau i gyflawni byw'n gynaliadwy a newid moddol.

7.1.21 Byddai'r opsiwn yma'n amlwg yn cyd-fynd â pholisi cenedlaethol ac yn cyd-fynd â'r Hierarchaeth Aneddiadau ehangach. Mae'n gynaliadwy iawn, gan ei fod yn agos at gyfleusterau. Byddai hefyd yn ddefnydd effeithlon o dir ac yn lleihau'r angen i deithio. Mae'n darparu opsiynau trafnidiaeth cynaliadwy, pan fo angen trafnidiaeth. Byddai hefyd yn cefnogi adfywiad parhaus canol trefi RhCT. Serch hynny, mae'n amlwg iawn nad oes digon o dir addas i gyflawni amcanion y CDLlD, ac yn arbennig ar gyfer y raddfa angenrheidiol o dwf mewn datblygu, gyda'r opsiwn strategaeth yma'n unig. Dylai ymagwedd Canol Trefi yn Gyntaf, fel y nodir mewn polisi cenedlaethol, bob amser fod yn gynsail cryf mewn CDLl a dylid ei nodi ym mholisïau'r cynllun. Yn arbennig, mae'r ddogfen sail tystiolaeth Astudiaeth Capasiti Trefol yn nodi cyfyngiadau'r opsiwn yma.

## OPSIWN 4:
## Strategaeth Twf y De

7.1.22 Mae'r opsiwn strategaeth yma'n canolbwyntio ar leoli twf yn ardal ddeheuol RhCT (ardal Taf-elái) gan ganolbwyntio'n benodol ar goridor yr M4. Elfennau allweddol yr opsiwn yma yw lleoli'r rhan fwyaf o'r twf yn y de, a fyddai'n golygu rhyddhau tir glas. Byddai hyn yn gweld twf cyfyngedig yn yr ardaloedd gogleddol, a fyddai'n darparu ar gyfer angen lleol yn unig.

7.1.23 Y fantais fawr gyda'r opsiwn yma yw bod modd iddo gyflawni'r lefel ofynnol o dwf ac mae ganddo hanes profedig o gyflawni, ac mae'n ardal lle mae galw hyfyw. Byddai'r opsiwn yma'n caniatáu'r gallu i wella seilwaith cymunedol a seilwaith arall a gallai ddarparu rhagor o dai fforddiadwy. Mae'r ardal yma o RCT yn fwy cyfyngedig o ran seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus ac nid yw rhai ardaloedd yn gynaliadwy iawn.

## OPSIWN 5:
## Nodau Metro a Thrafnidiaeth Gyhoeddus

7.1.24 Byddai'r opsiwn yma'n canolbwyntio datblygiad o amgylch canolbwyntiau trafnidiaeth gyhoeddus, coridorau a gorsafoedd presennol. Mae'n gwneud y mwyaf o ddatblygiadau o fewn pellter cerdded neu feicio i orsafoedd a chanolfannau Metro, sydd yn gyffredinol yn cyd-fynd â'r Hierarchaeth Aneddiadau. Byddai'n ceisio twf yn yr ardaloedd hynny a wasanaethir orau gan drafnidiaeth gyhoeddus ac yn lleihau'r angen i deithio gyda cherbydau preifat.

7.1.25 Byddai hyn yn cael effeithiau sylweddol, cadarnhaol yn gysylltiedig â dulliau teithio cynaliadwy a llesol a darparu mynediad at swyddi heb fod mor ddibynnol ar ddefnyddio ceir; gan leihau'r angen i deithio yn y pen draw. Byddai'r datblygiad gweddol wasgaredig a fyddai'n digwydd o dan yr opsiwn yma hefyd yn cael effeithiau cadarnhaol o ran ysgogi adfywio mewn gwahanol rannau o'r Fwrdeistref Sirol, yn ogystal â chefnogi canolfannau manwerthu a masnachol. Serch hynny, mae'n amlwg iawn nad oes digon o dir addas i gyflawni amcanion y CDLlD, ac yn arbennig graddfa'r twf, gyda'r opsiwn strategaeth yma'n unig.

## OPSIWN 6:
## Safle Strategol Allweddol yn y De

7.1.26 Byddai'r opsiwn yma'n golygu bod Safle Allweddol mawr yn cael ei ddyrannu yn ne'r Fwrdeistref Sirol. Byddai'n darparu ar gyfer mwyafrif sylweddol o'r tai newydd a datblygiadau eraill dros gyfnod y cynllun wedi'u cefnogi gan ddyraniadau llai wedi'u gwasgaru ar draws y Fwrdeistref Sirol i fynd i'r afael ag angen lleol.

7.1.27 Drwy ddyrannu Safle Allweddol yn y de, sydd â hanes profedig o gyflawni, mae'n debygol y byddai'r opsiwn yma'n sicrhau'r rhan fwyaf o'r twf sydd ei angen ar gyfer cyfnod y cynllun. Drwy ddyrannu safle mwy byddai modd darparu cymysgedd o ddefnyddiau a chynnwys seilwaith a chyfleusterau priodol. Mae pryderon ynghylch cynaliadwyedd mewn rhai ardaloedd, yn ogystal â diffyg trafnidiaeth gyhoeddus. Mae risg hefyd gyda safle mawr y byddai'n cymryd mwy o amser i'w adeiladu na nifer o safleoedd llai. At hynny, os bydd methiant i adeiladu safle mwy, mae'n debygol y bydd yn arwain at beidio â chyflawni'r strategaeth.

## OPSIWN 7:
## Cyfyngiad Trefol

7.1.28 Mae'r opsiwn strategol yma'n ceisio sicrhau twf yn yr ardal drefol bresennol heb fod angen rhyddhau tir newydd i'w ddatblygu. Mae elfennau allweddol y strategaeth yma'n ceisio cefnogi ailddefnyddio, trosi ac ailddatblygu eiddo a thir gwag, segur ac adfeiliedig (h.y. datblygu ar dir llwyd) o fewn terfynau presennol yr anheddiad. Byddai'r strategaeth hefyd yn cael ei chefnogi gan safleoedd annisgwyl a safleoedd sydd wedi'u hymrwymo ar hyn o bryd ac mae'n dilyn patrwm yr Hierarchaeth Aneddiadau.



7.1.29 Byddai hyn yn cael effeithiau cadarnhaol sylweddol sy'n gysylltiedig â hwyluso rhagor o ddefnydd o ddulliau teithio cynaliadwy a llesol yn y cymunedau presennol. Byddai'r datblygiad gweddol wasgaredig a fyddai'n digwydd o dan yr opsiwn yma hefyd yn cael effeithiau cadarnhaol o ran ysgogi adfywio mewn gwahanol rannau o'r Fwrdeistref Sirol. Byddai hefyd yn cynnig cyfleoedd da ar gyfer defnyddio tir llwyd a darparu datblygiad yn agos at wasanaethau, cyfleusterau a chysylltiadau trafnidiaeth presennol. Serch hynny, byddai'r opsiwn strategol yn arwain at lefelau is o dwf yn gyffredinol, er gwaethaf y ffaith nad oes digon o dir ar gael i gyflawni'r opsiwn yma.

## OPSIWN 8:
## Strategaeth Anghenion Lleol

7.1.30 Mae'r opsiwn yma'n seiliedig ar yr egwyddor o fynd i'r afael ag anghenion pob anheddiad unigol, a fyddai'n arwain at dwf gwasgaredig ledled RhCT. Byddai hyn yn arwain at ddyraniadau datblygu cymesur i adlewyrchu maint a graddfa'r aneddiadau cysylltiedig ynghyd â'r angen am dai fforddiadwy a thai ar gyfer y farchnad.

7.1.31 Byddai'r opsiwn yma'n gweld twf lle mae ei angen, a fyddai'n lleihau'r pwysau ar feysydd eraill yn RhCT.

7.1.32 O ystyried y byddai datblygiad yn y dyfodol o fewn aneddiadau presennol, byddai'r opsiwn yn cael effeithiau cadarnhaol sylweddol yn gysylltiedig â mwy o ddefnydd o ddulliau teithio cynaliadwy a llesol a lleihau'r defnydd o geir. Byddai'r datblygiad gweddol wasgaredig a fyddai'n digwydd o dan yr opsiwn yma hefyd yn cael effeithiau cadarnhaol o ran ysgogi adfywio mewn gwahanol rannau o'r Fwrdeistref Sirol. Serch hynny, does dim digon o dir i gyflawni'r twf gofynnol mewn llawer o'r meysydd angen. Byddai hyfywedd mewn rhai o'r ardaloedd yma hefyd yn lleihau'r tebygolrwydd o gael cyflenwad digonol o dai fforddiadwy.

## Strategaeth Ofodol a Ffefrir Posibl

7.1.33 I gloi, mae'r dadansoddiad o'r opsiynau yma'n amlygu bod agweddau cadarnhaol iawn i bob un. Serch hynny, fyddai unrhyw opsiwn unigol arall ddim yn briodol ar ei ben ei hun i gwrdd â'r lefelau twf angenrheidiol, ac ehangder Gweledigaeth ac Amcanion y CDLID.

7.1.34 Serch hynny, penderfynwyd bod elfennau sylfaenol Strategaeth Ofodol y CDLl cyfredol yn parhau i fod yn briodol, fel sylfaen gadarn ar gyfer y CDLl Diwygiedig. Mae'r Sail Tystiolaeth yn awgrymu bod angen amlwg o hyd i'r strategaeth barhau i gael strategaethau gwahanol ar gyfer gogledd a de'r Fwrdeistref Sirol.

7.1.35 Dangosir bod graddfa'r twf y gellir ei gynnwys yn y de dros gyfnod cyfan y cynllun yn fwy nag yn y gogledd; ac ar raddfa sy'n angenrheidiol i ddiwallu ein hanghenion tai a chyflogaeth gofynnol. Er bod cyfleoedd mwy hysbys ar gyfer twf tai yn rhan gychwynnol o gyfnod y cynllun, byddai angen i'r ardal ogleddol elwa ar ddull amrywiol o gyflawni twf dros gyfnod cyfan y cynllun.

7.1.36 Serch hynny, wrth ystyried y dystiolaeth sydd wedi llywio'r Opsiynau Strategaeth Ofodol, a'r dadansoddiad ohonynt; byddai agweddau cadarnhaol pob opsiwn yn cyfrannu at gyflawni amcanion y CDLl, a gofynion a nodweddion unigryw rhannau gogleddol a deheuol y Fwrdeistref Sirol.



# 8 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL DIWYGIEDIG - STRATEGAETH A FFEFRIR

## Nodau'r Strategaeth a Ffefrir

8.1.1 Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn adeiladu ar Weledigaeth y CDLl Diwygiedig, sy'n ceisio Rhondda Cynon Taf mwy cydnerth a chynaliadwy:

- **Ardal o gymunedau cynaliadwy, cydlynol sydd â chysylltiadau da lle mae eu trigolion yn iach, gyda mynediad cyfartal i gartrefi, swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau o ansawdd uchel.**
- **Ardal sy'n gallu gwrthsefyll heriau newid yn yr hinsawdd yn well gyda bioamrywiaeth a mannau gwyrdd wedi'u diogelu a'u gwella a system drafnidiaeth gynaliadwy sydd â chysylltiadau da.**
- **Ardal ag economi amrywiol ac iach, a gefnogir gan sector twristiaeth lewyrchus. Rhondda Cynon Taf sy'n dathlu ei threftadaeth ac sy'n wydn ar gyfer y dyfodol.**

8.1.2 Mae'r Strategaeth a Ffefrir, ar ei lefel uchaf, yn ceisio sicrhau ymagwedd a fydd yn cyflawni'r Weledigaeth yma a'r Amcanion a nodwyd. Fe'i cefnogir gan fframwaith o Bolisïau Strategol.

8.1.3 Mae canfyddiadau'r Opsiynau Twf Strategol a Gofodol, ochr yn ochr â'r Hierarchaeth Aneddiadau, (a'r holl dystiolaeth a gasglwyd i'w llywio), yn dod at ei gilydd i lunio'r Strategaeth a Ffefrir fwyaf priodol a chyflawnadwy.

## Lefel Twf Arfaethedig

8.1.4 Mae lefel twf addas ar gyfer y CDLlD ar gyfer y cyfnod 2022-2037 wedi'i bennu. Mae hyn yn deillio o Brif Amcanestyniadau Poblogaeth 2018 Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn seiliedig ar ffrwythlondeb, marwoldeb, mudo a thybiaethau am gyfansoddiad aelwydydd. Mae'r rhagamcanion yn cyfateb i ofynion am 8,450 o dai newydd ar draws cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig, neu 564 o anheddau i'w hadeiladu'r flwyddyn. Y lefel ragdybiedig o dwf yn nifer y swyddi sy'n gysylltiedig â hyn, drwy'r cyfrifiad modelu, yw cyfanswm o 3,990 neu 266 bob blwyddyn.

8.1.5 Mae'r twf mewn anheddau a swyddi a ragamcanir gan y senarios yma yn adlewyrchu safle RhCT o fewn Ardal Twf Genedlaethol Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd yn nogfen Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol.

8.1.6 Mae'n gadarnhaol ac yn uchelgeisiol wrth geisio cyflawni'r lefelau angenrheidiol o dai ar gyfer y farchnad a thai fforddiadwy a thwf economaidd yn RhCT. Er ei fod yn heriol, ystyrir ei fod yn gyraeddadwy ac yn gyflawnadwy.

8.1.7 Mae'r **Papur Cyflenwi Tai** a'r polisi tai strategol, yn ddiweddarach yn y Strategaeth a Ffefrir, yn nodi'r dystiolaeth i ddangos bod modd cyflawni'r opsiwn twf gofyniad tai yma o 8,450 o anheddau (gyda byffer ychwanegol o 10% i osod y ddarpariaeth tai).

8.1.8 Mae papur yr Adolygiad Tir Cyflogaeth a'r polisi cyflogaeth strategol, yn rhoi rhagor o fanylion am sut y bydd y CDLlD yn ceisio cyflawni'r twf cyflogaeth arfaethedig.

8.1.9 Cyflawnir y lefel yma o dwf trwy Strategaeth Ofodol briodol.

## Strategaeth Ofodol

8.1.10 Mae canfyddiadau'r dadansoddiad Opsiynau Gofodol wedi bod yn gwbl glir gan nad oes dull unigol a allai gyflawni'r twf arfaethedig, na'r CDLlD cyfan yn effeithiol. Serch hynny, mae'n nodi bod gan nifer o'r Opsiynau Strategaeth Ofodol elfennau a fyddai'n briodol ac yn gallu cyfrannu'n sylweddol at ei gyflawni.

8.1.11 Mae angen cynnig Strategaeth a Ffefrir sy'n gyfuniad o'r agweddau mwyaf cadarnhaol o'r **Opsiynau Strategaeth Ofodol**. Dylai hyn hefyd ystyried nodweddion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd unigryw gwahanol rannau o'r Fwrdeistref Sirol, a'r lefel twf a nodwyd a'r lefel ofynnol, yn unol â lle y mae modd cyflawni hyn.

8.1.12 Mae ystyriaeth Strategaeth Ofodol allweddol ar gyfer y Fwrdeistref Sirol gyfan yn gysylltiedig â'r angen am dai fforddiadwy, fel y nodir yn yr **Opsiynau Strategaeth Ofodol,** a ddylanwadwyd gan yr **Asesiad o'r Farchnad Dai Leol Canfyddiadau Drafft**. Mae'r **Papur Cyflenwi Tai** yna'n nodi'r berthynas rhwng y dulliau a fwriedir o gyflawni'r ddarpariaeth dai gyffredinol a darparu tai fforddiadwy. Mae'r Strategaeth isod yn cynnig lledaeniad gofodol o'r ddarpariaeth dai gyffredinol sy'n cyd-fynd yn agos â'r ardaloedd marchnad is dai a nodwyd a'u hangen am dai fforddiadwy. Mae adrannau diweddarach o'r Strategaeth a Ffefrir yma'n nodi lleoliad y raddfa strategol arfaethedig o gyflenwi tai yn y CDLlD, a'i berthynas â'r ardaloedd penodol yma.

8.1.13 Mae gwahanol rannau o'r Fwrdeistref Sirol yn arddangos nodweddion penodol a gwahanol iawn, yn enwedig rhwng y gogledd a'r de. Mae hyn wedi arwain at nodi materion gwahanol sydd angen mynd i'r afael â hwy. Un o ganfyddiadau allweddol yr Opsiynau Strategaeth yw bod elfennau sylfaenol Strategaeth Ofodol y CDLl cyfredol yn parhau i fod yn briodol, yn sylfaen ar gyfer y CDLl Diwygiedig. Mae angen amlwg am barhad gwahaniaeth amlwg yn y strategaeth ar gyfer gogledd a de'r Fwrdeistref Sirol, er mwyn mynd i'r afael â'r Materion a chyflawni Amcanion y CDLlD.

8.1.14 Serch hynny, mae angen elfennau ychwanegol o'r Strategaeth Ofodol a Pholisïau Strategol i adeiladu ar lwyddiannau sylweddol y cynllun presennol hyd yma. Bydd y rhain yn mynd i'r afael yn gadarnhaol â'r amcanion hynny yn y CDLl presennol sydd ddim wedi bod mor llwyddiannus, neu lle mae materion newydd wedi codi ac mae angen mynd i'r afael â nhw, neu lle mae cyfleoedd cyfredol wedi'u gwireddu. Bydd elfennau o strategaeth gyfredol y CDLl sydd ddim eu hangen mwyach yn cael eu dileu neu'n cael sylw.

## Y Strategaeth a Ffefrir

8.1.15 Mae Gweledigaeth, Amcanion a Bwriadau Twf cyffredinol y CDLlD yn eu lle ar gyfer y Fwrdeistref Sirol gyfan. Yn yr un modd, mae'r rhan fwyaf o'r Polisïau Strategol sy'n dilyn, a'u bwriadau, yn berthnasol i'r rhan fwyaf o'r ardaloedd yn RhCT.

8.1.16 Serch hynny, bydd strategaeth benodol a rhai ymagweddau polisi ar gyfer yr Ardaloedd Strategol Gogleddol a Deheuol a ddiffinnir yn ddaearyddol yn sicrhau dyfodol mwy priodol a llewyrchus, dan arweiniad cynllun, ar gyfer yr ardaloedd yma.

8.1.17 Felly diffinnir Strategaeth a Ffefrir y CDLl Diwygiedig fel un gyfunol **'Strategaeth Cymunedau Cynaliadwy'r Gogledd a Thwf Cynaliadwy'r De'**, ar gyfer Ardaloedd Strategol penodol Gogleddol a Deheuol.



# Cymunedau Cynaliadwy yn yr Ardal Strategol Ogleddol (ASO)

8.1.18 **Mae'r strategaeth ofodol ar gyfer gogledd RhCT yn ceisio nodi dulliau ac ymyriadau gwahanol yn yr ASO. Prif nod Strategaeth Cymunedau Cynaliadwy'r Gogledd yw parhau i gryfhau'r cymunedau ynddi. Ar y cyfan, yr ardaloedd trefol yn yr ASO yw'r rhai yng Nghwm Rhondda Fawr, Rhondda Fach a Chwm Cynon.**

8.1.19 Mae'r CDLl presennol wedi gweld cryn ddatblygiad a thwf economaidd mewn rhai ardaloedd yn yr ASO. Bydd y CDLlD yma'n chwilio am gyfleoedd i ymestyn y duedd yma i bob ardal yn yr ASO. Mae hefyd yn anelu at sicrhau bod diboblogi yn parhau i gael ei atal, fel y cyflawnwyd yn gadarnhaol gan Strategaeth gyfredol y CDLl.

## Darpariaeth Tai

8.1.20 Bydd lefelau twf tai yn yr ASO yn cyfrannu'n sylweddol at lefel twf cyffredinol y CDLlD, ond bydd yn is yma o'i gymharu ag Ardal Strategaeth y De. Mae'r twf a ragwelir hefyd yn fwy tebygol o fod ym mlynyddoedd cynnar cyfnod y cynllun. Mae'r banc tir tai mawr a bach cyfun yn dynodi 1,561 o anheddau sylweddol sy'n debygol o gael eu hadeiladu yn ystod hanner cyntaf cyfnod y cynllun, yn yr ASO. Mae'r rhan fwyaf o'r safleoedd mwy o amgylch Prif Anheddiad Aberdâr, gydag amrywiaeth o safleoedd canolig a llai ar draws yr ardal:

| ASO | Anheddau yn y Banc Tir |
|---|---|
| **Cwm Rhondda** | 592 |
| **Cwm Cynon** | 969 |
| **CYFANSWM** | **1,561** |

8.1.21 Disgwylir hefyd i barhau i ddarparu tai ar safleoedd annisgwyl drwy gydol cyfnod y CDLlD, gyda mwy o gyfleoedd yn yr ASO, fel y nodwyd yn yr Astudiaeth Capasiti Trefol ac o ddadansoddiad tueddiadau'r gorffennol yn y Papur Cyflenwi Tai.

8.1.22 Mae llai o sgôp a dibyniaeth ar ddyraniadau tai newydd i gefnogi yr ASO yng nghamau olaf y cynllun. Mae llai a llai o Safleoedd Ymgeisiol priodol wedi'u cyflwyno. Mae llawer o'n cymunedau yn yr ASO y cymoedd mewn parthau risg llifogydd uchel. Mae hyn yn golygu bod llawer o'r tir llwyd mewn lleoliadau addas yn gyfyngedig o ran ei botensial ar gyfer ailddatblygu. Yn yr un modd, mae ymylon trefol yr ASO yn gynefinoedd ecolegol pwysig ar gyfer bioamrywiaeth warchodedig.

8.1.23 Er bod Mannau Agored ac Isadeiledd Gwyrdd sylweddol yn y Fwrdeistref Sirol, mae angen i ni barhau i warchod a gwella'r ardaloedd yma a gwella mynediad atyn nhw lle bo modd. Mae'r ardaloedd yma'n chwarae cymaint o rolau pwysig yn ein cymunedau.

8.1.24 Mae'r Adroddiad Hyfywedd yn nodi y byddai gan safleoedd mwy, ac yn enwedig safleoedd maes glas, y lefelau mwy priodol o hyfywedd a arweinir gan y farchnad ar gyfer eu cyflawni'n hyderus yn yr ASO. Bydd dyraniadau'n cael eu gwneud ar Gam Adneuo'r CDLlD; er y nodir y byddai yr ASO yn gyffredinol yn darparu tua thraean o'r ddarpariaeth tai a nodwyd ar gyfer RhCT.

## Gwaith

8.1.25 Mae llawer o safleoedd cyflogaeth yn yr ASO, o wahanol raddfeydd, oedran a chyflwr. Bu nifer o gynlluniau datblygu ac ailddatblygu masnachol newydd cadarnhaol ar y safleoedd yma drwy gydol cyfnod y cynllun presennol. Mae llawer o gyfleoedd ar gyfer datblygiad pellach ar safleoedd banc tir cyflogaeth hysbys ac ailddatblygu safleoedd annisgwyl ar ystadau cyflogaeth yn yr ASO. Byddai'r rhain yn cyfrannu at y twf disgwyliedig mewn swyddi sy'n gysylltiedig â lefel y twf tai a gynigir. Mae rhagor o fanylion am hyn yn y Papur Adolygu Tir Cyflogaeth a'r Polisi Cyflogaeth Strategol.

8.1.26 Mae rhagor o fanylion am y cynigion ar gyfer safle tai allweddol posibl a safle cyflogaeth gymysg allweddol isod.


## Hierarchaeth Aneddiadau

8.1.27 Dylai datblygiad yn yr ASO alinio â Hierarchaeth Aneddiadau'r CDLID a nodwyd lle bo'n bosibl. Mae Prif Anheddiad Aberdâr, ynghyd ag Aneddiadau Allweddol Hirwaun, Aberpennar, Glynrhedynog, y Porth, Treorci a Thonypandy, yn chwarae rhan hanfodol yn eu cymunedau ar draws yr ASO. Mae'r aneddiadau yma'n darparu ystod eang o wasanaethau a chyfleusterau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ar gyfer cymunedau presennol. Dyma'r lleoliadau mwyaf priodol ar gyfer darparu ar gyfer twf yn y dyfodol – o bob math o ddatblygiad, ac maen nhw wedi cael eu hannog i'r perwyl yma. Yn yr un modd, mae twf datblygiad cyffredinol yn cael ei ystyried yn allweddol i gefnogi dyfodol y lleoedd yma.

8.1.28 Mae'r Ganolfannau Aneddiadau cysylltiedig yn chwarae rhan arwyddocaol yng nghanol yr aneddiadau yma, a dylai datblygiadau newydd, (neu ailddatblygu eiddo presennol) yma eu cefnogi ymhellach a'u strategaethau manwl ar gyfer y dyfodol. Amlinellir hyn ymhellach yn y polisi strategol isod.

8.1.29 Byddai datblygiad yn dderbyniol mewn aneddiadau llai, sydd â chyfleusterau addas a chysylltiadau trafnidiaeth gynaliadwy priodol i'r aneddiadau lefel uwch.

8.1.30 Mae'r opsiynau gofodol ar gyfer lleoli datblygiadau yn Ganolfannau Aneddiadau, o amgylch canolfannau metro, gan ddiwallu anghenion lleol a chyfyngiant trefol lle bo'n bosibl, felly yn briodol iawn yn yr ASO ac wedi'u hymgorffori yn y Strategaeth Cymunedau Cynaliadwy. Bydd datblygiad yn yr ASO yn cael ei annog i alinio â'r dulliau yma, sy'n caniatáu ar gyfer mathau cynaliadwy iawn o ddatblygiad. Mae hyn, yn ei hanfod, yn dilyn Polisi Cenedlaethol trwy geisio ymagwedd Canol Trefi yn Gyntaf at leoliad datblygiad newydd. Byddai'r egwyddor gyffredinol yma o gael lleoliadau cynaliadwy yn trosi bwriadau'r CDLID yn ddull gweithredu'r Cyngor i fynd i'r afael â Newid yn yr Hinsawdd a lleihau cynhyrchiant Carbon. Amlinellir hyn ymhellach yn y polisi strategol isod.



## Dulliau arfaethedig eraill o ddarparu Cymunedau Cynaliadwy Gogleddol Strategaeth:

### FFINIAU ANEDDIADAU HYBLYG

8.1.31 Er ei bod yn anodd ei fesur, disgwylir y bydd safleoedd annisgwyl yn parhau i ddarparu tai yn yr ASO, ar gyfradd a allai godi i 100 y flwyddyn o 2026 ymlaen. Fel gyda'r CDLl presennol, cynigir bod modd i Ffiniau'r Aneddiadau yma fod yn fwy hyblyg. Mae hyn er mwyn rhoi cyfle i safleoedd addas ddod ymlaen dros gyfnod y cynllun; gan fod chwiliadau am safleoedd wrth baratoi'r CDLlD wedi dangos un neu nifer o'r cyfyngiadau a grybwyllwyd uchod, e.e. perygl llifogydd, ecoleg, gwerth o ran mannau agored cyhoeddus ac ati. Bydd polisïau manylach yn cael eu paratoi ar gyfer y Cam Adneuo.

### METRO DE-DDWYRAIN CYMRU

8.1.32 Dylid manteisio ar y buddsoddiad sylweddol ym Metro De Cymru, sy'n gwasanaethu ardaloedd trefol sylweddol yn yr ASO yng Nghwm Rhondda a Chwm Cynon, lle bynnag y bo modd. Bydd datblygiad newydd ger y gorsafoedd yn cael ei gefnogi, mewn egwyddor. Mae'r Cyngor yn parhau i wella rhwydwaith Teithio Llesol cynhwysfawr i wneud y cyfleusterau yma'n fwy hygyrch.

### TAI GWAG

8.1.33 Mae RhCT yn nodi uchelgeisiau brwd i wella eiddo preswyl gwag er mwyn ei ddefnyddio eto. Er bod y broses yma yn ei hanfod yn dod â thai newydd ar y farchnad, ni ellir eu hystyried fel tai newydd a fyddai'n cael eu cynnwys yn y ddarpariaeth tai. Mae'r Papur Cyflenwi Tai a'r Polisi Tai Strategol yn rhoi rhagor o wybodaeth am hyn, er bod 2,120 o gartrefi gwag wedi'u lleoli yn yr ASO ar hyn o bryd. Gyda chyfraddau cwblhau diweddar yn y gorffennol mor uchel â 273 yn 2021/22, ynghyd â'r cyllid sydd ar gael ar hyn o bryd, disgwylir y bydd Strategaeth Tai Gwag y Cyngor yn parhau i arwain at gynnydd yn y nifer o gartrefi newydd cychwynnol i deuluoedd sydd ar gael; bydd hyn yn amlwg yn chwarae rhan fawr yn Strategaeth Cymunedau Cynaliadwy'r Gogledd.

### TWRISTIAETH

8.1.34 Mae'r diwydiant Twristiaeth yn RhCT wedi parhau i weld twf sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf, tra bod ein Strategaeth Dwristiaeth yn ceisio parhau â'i lwyddiant. Mae hyn yn arbennig o wir yn yr Ardal Strategol Ogleddol, lle mae cefn gwlad agored ac agosrwydd at Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a'i nodweddion, yn atyniad cynyddol i drigolion RhCT, i ymwelwyr o Brydain ac ymwelwyr rhyngwladol. Mae yna atyniad cryf i Gymoedd De Cymru gan selogion chwaraeon antur ledled y DU, gyda Thŵr Zip World yn Hirwaun, sy'n ehangu'n gyson, yn un o brif atyniadau RhCT.

8.1.35 Mae treftadaeth y Fwrdeistref Sirol hefyd yn denu ymwelwyr o bell ac agos, ynghyd â theithiau undydd o'r rhanbarth i ganol ein trefi a'n parciau. Mae'r Strategaeth a Ffefrir yma'n cynnwys polisi twristiaeth strategol ar gyfer y CDLlD, yn enwedig yn yr ASO. Bydd hwn yn nodi rhai canllawiau ac anogaeth lefel uwch ar gyfer cynigion twristiaeth addas. Dyma'r cyfleusterau eu hunain, yn ein Canolfannau Aneddiadau ac mewn lleoliadau cefn gwlad priodol. Yn yr un modd mae'n nodi'r addasrwydd ar gyfer datblygu llety, h.y. gwestai, llety rhent neu hyd yn oed barciau gwyliau.

8.1.36 Ystyrir hyn yn fwriad strategol allweddol ar gyfer dyfodol yr yr ASO. Mae'r diwydiant yma'n dod â buddsoddiad a gwariant sylweddol i'r ardal, ac fe'i gwelir fel arallgyfeiriad realistig iawn i'r ardal o ran cyfleoedd cyflogaeth newydd. Mae hefyd yn rhoi rhagolwg cadarnhaol mawr ei angen ar gyfer ein Canolfannau Aneddiadau. Unwaith eto, mae ganddo rôl fawr yn Strategaeth Cymunedau Cynaliadwy'r Gogledd.

## Safleoedd Allweddol Posibl

8.1.37 Yn debyg i'r Safleoedd Strategol yn y CDLl presennol, dylai'r CDLlD nodi safleoedd sy'n 'Allweddol' i gyflawni'r Strategaeth.

8.1.38 Dylid nodi na fydd y Safleoedd Strategol yng Nglofa Fernhill, Maerdy a Phurnacite yn cael eu hystyried yn y modd yma mwyach. Mae cyfnod y CDLl wedi nodi'r ansicrwydd a'r cyfyngiadau parhaus sy'n gysylltiedig â'r safleoedd a'u cynigion datblygu. Does dim modd i ni ddibynnu arnyn nhw am y raddfa o ddarpariaeth y dyrannwyd ar ei chyfer yn y gorffennol. Bydd potensial ar gyfer defnyddiau amgen yn cael eu hystyried trwy Gam Adneuo'r CDLlD. Mae elfen Cyflogaeth Safle Strategol Tresalem wedi'i datblygu, gyda safle hen Ysbyty Aberdâr yn y Banc Tir o safleoedd tai ymrwymedig.

### 8.1.39 SAFLE ALLWEDDOL POSIBL 1
### Pentref Pen-rhys, Tylorstown

8.1.40 **Mae cynlluniau ymlaen llaw ar gyfer ailddatblygu pentref Pen-rhys ar y safle 29.8 hectar. Y bwriad cyffredinol yw adeiladu hyd at 700 o dai breifat a thai fforddiadwy newydd yn lle'r stoc tai presennol, ynghyd ag adeiladu cyfleusterau newydd a gwella cyfleusterau a gwasanaethau cyhoeddus presennol. Ystyrir y bydd tua 500 o'r rhain yn cael eu cyflawni yng nghyfnod Cynllun y CDLlD. Mae'r cynigion yn cynnwys cymysgedd o ddefnyddiau gan gynnwys safleoedd at ddefnydd cymunedol a chyfleusterau addysg newydd, ynni adnewyddadwy, hamdden a thwristiaeth. Mae maint y dynodiad arfaethedig yn cynnig y potensial i warchod cynefin Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur ac i liniaru a gwella bioamrywiaeth.**

8.1.41 Er ei bod hi'n bosibl bydd y cynnydd net yn y nifer o dai newydd yn 200 yn unig yng nghyfnod y Cynllun (a 200 pellach ar ôl y pryd yma); mae graddfa sylweddol y stoc tai newydd a gynigir yn ddyhead a datganiad cadarnhaol iawn ar gyfer Cwm Rhondda. Does dim llawer o ddatblygiadau tai ar raddfa fwy wedi bod yn y rhan yma o'r ASO dros flynyddoedd diweddar.



8.1.42 **SAFLE ALLWEDDOL POSIBL 2**


## Tir i'r De o Hirwaun

8.1.43 **Bu'r tir a neilltuwyd ar gyfer cyflogaeth yn Safle Strategol y CDLl presennol yn Hirwaun yn destun gwaith cloddio glo brig helaeth drwy gydol cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol presennol. Roedd hyn ar gyfer echdynnu'r cronfeydd glo ymlaen llaw, er mwyn caniatáu i'r datblygiad a neilltuwyd barhau. Mae'r gwaith yma wedi ei gwblhau, ac mae'r safle tua 160 hectar o faint.**

8.1.44 Mae'r CDLlD yn gweld y safle fel un sy'n gallu ehangu ei ddefnyddiau arfaethedig. Mae hyn yn cynnwys parhad y defnyddiau cyflogaeth arfaethedig; mae 15 i 20 hectar o dir cyflogaeth addas yma. Mae cyfle hefyd i ddefnyddio 30 - 40 hectar o dir ar gyfer cyfleoedd twristiaeth a buddsoddiad yn y dyfodol. Mae llawer o weddill y safle wedyn yn destun ailsefydlu bioamrywiaeth a chynefinoedd naturiol, ynghyd â chadwraeth natur yn y dyfodol; mae hyn yn gysylltiedig ag adfer y safle y cytunwyd arno yn dilyn y cynllun glo brig. Serch hynny, ystyrir ymhellach bod modd i'r ardal naturiol yma gael ei dylunio'n briodol i ganiatáu mynediad cyhoeddus addas a thwristiaeth ecolegol a geomorffolegol. Byddai hyn ar y safle ond gallai hefyd gynnwys cysylltiadau â chefn gwlad ehangach, gyda'i atyniadau naturiol lluosog a chyrchfannau twristiaeth modern.

8.1.45 Mae maint y cynnig yma'n amlwg yn allweddol yn yr ASO. Serch hynny, fe'i hystyrir yn allweddol hefyd i fanteisio'n llawn ar fuddsoddiad sylweddol Llywodraeth Cymru i ddeuoli cefnffordd gyfagos yr A465 'Ffordd Blaenau'r Cymoedd'. Mae'r ffordd yma'n agor yr isranbarth yma o Gymoedd De Cymru i ganolbarth Lloegr a Gorllewin Cymru. Mae'n hanfodol bod RhCT yn achub ar y cyfle yma i ddod â buddsoddiad i'r ASO, yn hytrach na gadael iddo fynd heibio.

8.1.46 At hynny, mae cynnig cyfunol gan Drafnidiaeth Cymru a RhCT wedi cael cymeradwyaeth Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru 2 ar gyfer parhau â'r rheilffordd i deithwyr o Aberdâr hyd at Ystad Ddiwydiannol Hirwaun. Byddai'r gorsafoedd newydd arfaethedig yn Hirwaun ac Ystad Ddiwydiannol Hirwaun yn gwneud yr ardal ehangach yn llawer mwy cynaliadwy o ran yr opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus sy'n eu gwasanaethu. Byddai'r orsaf ar yr ystad ddiwydiannol hefyd yn agos at y Safle Allweddol posibl.



# Strategaeth Twf Cynaliadwy yn yr Ardal Strategaeth Ddeheuol

8.1.47 **Mae'r strategaeth ofodol ar gyfer de RhCT yn nodi dulliau penodol o gyflawni lefel arfaethedig uchel o dwf tai yn yr Ardal Strategol Ddeheuol (ASDd), yn enwedig o gymharu â'r ASO. Bydd y Strategaeth Twf Cynaliadwy yn ceisio darparu'r twf angenrheidiol ar gyfer cymunedau presennol, gyda thwf ychwanegol i ddiwallu anghenion ehangach RhCT gyfan ac yn unol â dogfen Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol.**

8.1.48 Mae'r CDLl presennol wedi gweld cryn ddatblygiad a thwf economaidd mewn rhai ardaloedd yn yr ASDd. Ar y cyfan, yr ardaloedd trefol yn yr ASDd yw'r rhai o amgylch Pontypridd i lawr i Ffynnon Taf a Phentre'r Eglwys yn y dwyrain, a Thonyrefail i lawr i ardal ehangach Llantrisant i Lanharan yn y gorllewin. Bydd y CDLlD yma'n chwilio am gyfleoedd i ddarparu tai newydd a datblygiad economaidd mewn ardaloedd lle mae darpariaeth wedi'i harwain gan y farchnad fwy profedig a thir datblygu addas wedi'i leoli'n gynaliadwy.

## Y Ddarpariaeth Dai

8.1.49 Bydd lefelau twf tai yn yr ASDd yn cyfrannu'r gyfran uwch o lefel twf cyffredinol y CDLlD, o gymharu â'r ASO. Cyflawnir hyn trwy barhau i ddatblygu safleoedd yn y banc tir tai a thrwy nodi dyraniadau newydd addas a chynaliadwy. Mae'r banc tir tai mawr a bach cyfun yn dangos bod 2,562 o dai yn debygol o ddod ymlaen yn yr ASDd, yn ystod hanner cyntaf cyfnod y cynllun:

| ASDd<br>Ardal Strategaeth Ddeheuol | Tai yn y Banc Tir |
|---|---|
| **Dwyrain Taf-elái** | 225 |
| **Gorllewin Taf-elái** | 2,337 |
| **CYFANSWM** | **2,562** |

8.1.50 Mae mwyafrif y tai yma ar safleoedd mawr yng ngorllewin yr ASDd, ac yn enwedig ar y Safleoedd Strategol yn Llanilid a Chefn-yr-Hendy/Tonysguboriau. Mae llawer llai o safleoedd banc tir yn ochr ddwyreiniol yr ASDd. Er y bydd safleoedd annisgwyl yn dod ymlaen, dydyn nhw mor debygol o fod yn yr un niferoedd ag a ddisgwylir yn yr yr ASO. Nodir hyn yn yr Astudiaeth Capasiti Trefol ac mae i weld o ddadansoddiad tueddiadau'r gorffennol yn y Papur Cyflenwi Tai.

8.1.51 Mae llawer o Safleoedd Ymgeisiol wedi'u cyflwyno yn yr ASDd, ac mae nifer ohonyn nhw'n sylweddol o ran maint. Mae gan nifer sylweddol o'r rhain gyfyngiadau tebyg i'r rhai yn yr yr ASO, yn enwedig mewn ardaloedd trefol presennol ac ar safleoedd tir llwyd. Serch hynny, mae mwy o gyfleoedd yn ymddangos yn yr ASDd ar gyfer safleoedd tai addas. Mae graddfa'r twf yn ei gwneud yn ofynnol i'r safleoedd arfaethedig fod mewn lleoliadau cynaliadwy, tra'n ceisio lledaenu'r ddarpariaeth ar draws yr Hierarchaeth Aneddiadau.

8.1.52 Mae angen i RCT ddiogelu a gwella ein Mannau Agored a'n Seilwaith Gwyrdd yn y Fwrdeistref Sirol. Mae llawer llai o ardaloedd mawr o dir mynediad agored i drigolion yr ASDd nag yn yr yr ASO, sy'n dangos bod angen datblygiadau newydd i ddarparu, ehangu neu wella mynediad i leoedd o'r fath.

8.1.53 **Mae'r Adroddiad Hyfywedd** yn nodi y gallai fod gan bob math o safleoedd datblygu yn yr ASDd lefel weddol o hyfywedd a arweinir gan y farchnad er mwyn sicrhau y cânt eu cyflawni, a rhan ddeheuol yr ASDd yw'r mwyaf hyfyw yn RhCT yn gyffredinol. Bydd dyraniadau'n cael eu gwneud ar Gam Adneuo'r CDLlD, er y nodir yn gyffredinol y byddai'r ASDd yn darparu tua dwy ran o dair o'r ddarpariaeth tai a nodwyd ar gyfer y CDLlD.

8.1.54 Mae'n anochel y bydd angen i lawer o'r dyraniadau yma fod yn safleoedd maes glas oherwydd y diffyg amlwg o dir llwyd sydd ar gael yn yr ardal yma.

8.1.55 Bydd angen i ddyraniadau yn yr ASDd gael eu dewis yn ofalus a byddan nhw'n fwy o ran maint er mwyn caniatáu i seilwaith ategol pellach gael ei ddatblygu, lle bo modd, fel y nodir yn y canllawiau **Opsiynau Strategaeth Ofodol cysylltiedig**. Mae cynigion i wella'r seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus yn yr ASDd. Mae cynigion wedi'u hystyried i wella'r gwasanaethau bysiau o Ben-y-bont ar Ogwr i Lanharan a Phontypridd ac ar draws canol Cymoedd De Cymru. Dylai datblygiad parhaus cynigion i ddod â seilwaith rheilffyrdd ysgafn ymlaen o ganol Caerdydd allan i ogledd-orllewin Caerdydd ymestyn i dde-ddwyrain RhCT. Ystyrir hefyd a allai rhagor o gapasiti prif reilffordd i wasanaethu de orllewin y Fwrdeistref Sirol ddod i'r fei yn ystod cyfnod y cynllun.

## Gwaith

8.1.56 Mae llawer o safleoedd cyflogaeth yn yr ASDd, o wahanol raddfeydd, oedran a chyflwr. Bu llawer o ddatblygiadau newydd cadarnhaol a chynlluniau ailddatblygu ar y safleoedd yma drwy gydol cyfnod y cynllun presennol. Mae ystadau diwydiannol a masnachol mawr o bwysigrwydd isranbarthol megis Ystad Ddiwydiannol Trefforest, Parc Busnes Llantrisant ac Ystad Ddiwydiannol ehangach Tonysguboriau yn ffynnu, gyda nifer isel iawn o leoedd gwag. Mae cyfleoedd o hyd ar gyfer ailddatblygu rhagor o safleoedd annisgwyl ar yr ystadau yma ac ystadau eraill a chapasiti ar gyfer datblygiadau newydd ar safleoedd banc tir cyflogaeth. Byddai'r rhain yn cyfrannu at y twf disgwyliedig yn y nifer o swyddi sy'n gysylltiedig â lefel y twf tai a gynigir. Mae rhagor o fanylion am hyn yn y Papur Adolygu Tir Cyflogaeth a'r Polisi Cyflogaeth Strategol.

8.1.57 Mae cynigion ar gyfer Safle Allweddol posibl ar gyfer defnydd cymysg o dai, cyflogaeth a mannau agored, ynghyd â rheolaeth ecolegol wedi'u nodi ymhellach isod.

## Hierarchaeth Aneddiadau

8.1.58 Dylai datblygiad yn yr ASDd alinio, lle bo'n bosibl, â Hierarchaeth Aneddiadau'r CDLlD. Mae Prif Aneddiadau Pontypridd a Thonysguboriau/Pont-y-clun/Llantrisant, ynghyd ag Aneddiadau Allweddol Llanharan a Thonyrefail, yn chwarae rhan hanfodol yn eu cymunedau ar draws yr ASDd. Mae'r aneddiadau yma'n darparu ystod eang o wasanaethau a chyfleusterau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ar gyfer cymunedau presennol. Maen nhw wedi cael eu dangos, ac yn cael eu hannog i fod, y lleoliadau mwyaf priodol ar gyfer twf yn y dyfodol. Yn yr un modd, mae twf datblygiad cyffredinol yn cael ei ystyried yn allweddol i gefnogi dyfodol y lleoedd yma.

8.1.59 Mae'r Canolfannau Aneddiadau gysylltiedig yn chwarae rhan arwyddocaol yng nghanol yr Aneddiadau yma, a dylai datblygiadau newydd, (neu ailddatblygu eiddo presennol) yma eu cefnogi ymhellach a'u strategaethau manwl ar gyfer y dyfodol. Amlinellir hyn ymhellach yn y polisi strategol isod.

8.1.60 Mae'r opsiynau gofodol ar gyfer lleoli datblygiadau yn Canolfannau Aneddiadau, o amgylch canolfanau metro, diwallu anghenion lleol a chyfyngiant trefol lle bo modd, yn dal yn briodol iawn yn yr ASDd ac wedi'u hymgorffori yn y Strategaeth Twf Cynaliadwy. Anogir datblygiad yn yr ASDd i gyd-fynd â'r dulliau yma, sy'n caniatáu ar gyfer ffurfiau cynaliadwy iawn o ddatblygu. Mae hyn yn ei hanfod yn dilyn y Polisi Cenedlaethol o geisio ymagwedd Canol Trefi yn Gyntaf at leoliad datblygiadau newydd. Byddai'r egwyddor gyffredinol yma o gael lleoliadau cynaliadwy yn trosi bwriadau'r CDLID yn ddull gweithredu'r Cyngor i fynd i'r afael â Newid yn yr Hinsawdd a lleihau cynhyrchu Carbon. Amlinellir hyn ymhellach yn y polisi strategol isod. Serch hynny, cydnabyddir y byddai lefel y twf a gynigir yma yn gweld rhai aneddiadau yn ehangu'n sylweddol, mewn modd cynaliadwy.

## Dulliau arfaethedig eraill o gyflawni Strategaeth Twf Cynaliadwy'r De:

### PRIF ANHEDDIAD PONTYPRIDD

8.1.61 Capasiti cyfyngedig sydd gan Brif Anheddiad Pontypridd ar gyfer twf tai, o ran y tir sydd ar gael i'w ddatblygu. Bydd datblygiad o fewn y Ganolfan Anheddiad ym Mhontypridd yn cael ei gefnogi, er ei fod yn anhebygol o ddarparu niferoedd uchel o dai. Yn ogystal, mae angen datblygiadau tai yn y Prif Anheddiad yma ac o'i amgylch er mwyn ei ffyniant parhaus, ei anghenion lleol a'i uchelgeisiau fel cyrchfan flaenllaw yn y rhanbarth. I'r gwrthwyneb, mae angen datblygiad pellach yma i fanteisio'n llawn ar ei allu i ddarparu ar gyfer poblogaeth fwy. Byddai hyn yn cynnwys y Brifysgol yn Nhrefforest, ac Ystad Ddiwydiannol Trefforest, drwy'r Ganolfannau Aneddiadau a'i chyfleusterau a gwasanaethau manwerthu a hamdden. Mae ochr ddwyreiniol yr ASDd hefyd yn elwa fwyaf o ddatblygiad parhaus Metro De Cymru.

8.1.62 Mae'r CDLID yn cytuno gyda'r CDLl presennol, mewn egwyddor, y byddai datblygiad yn dderbyniol mewn aneddiadau llai, sydd â chysylltiadau addas a chynaliadwy ag anheddiad ehangach Pontypridd, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig iddyn nhw, yr ardaloedd o gwmpas e.e. Pentre'r Eglwys, Llanilltud Faerdref a Bedda . Yn ogystal, fel y crybwyllwyd uchod, mae angen ceisio mynd i'r afael â'r angen sylweddol am dai fforddiadwy yn ardal ehangach Pontypridd yn yr aneddiadau yma sydd ar ymyl y dref.

### FFINIAU ANEDDIADAU

8.1.63 Bydd ffiniau aneddiadau pendant yn yr ASDd, a fyddai'n atal cynigion datblygu cynyddrannol rhag cael eu cyflwyno. Bydd safleoedd yn cael eu dyrannu'n briodol mewn lleoliadau cynaliadwy, ar safleoedd mwy yn aml, sy'n gallu elwa ar arbedion maint. Mae rhannau mawr o'r ASDd wedi'u ffurfio gan ddatblygiad parhaus ystadau tai dros y 70 mlynedd diwethaf. Yn unol â hynny, dyw'r patrwm datblygu ddim yn addas ar gyfer nifer cynyddol o ddatblygiadau bach ar ei ymylon.

### TWRISTIAETH AC EIDDO GWAG

8.1.64 Dyw'r cyfleoedd a'r ddibyniaeth ar ymyriadau polisi eiddo gwag a thwristiaeth yn yr ASDd ddim yn debygol o fod mor fawr ag yn yr yr ASO.

8.1.65 Mae yna eiddo gwag yn y de a fydd yn cael ei ddatblygu drwy'r cynllun Eiddo Gwag, ond nid ar yr un raddfa neu gyfradd ag yn yr ASO.

8.1.66 Mae gan yr ASDd ei atyniadau twristiaeth fel y Bathdy Brenhinol a Thref Pontypridd. Serch hynny, ystyrir bod ganddo fwy o gysylltiad twristiaeth â Chaerdydd nag efallai â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Bydd cyfleusterau twristiaeth yn cael eu cefnogi yn yr ASDd, er bod tueddiadau'r gorffennol wedi cynnwys mwy o gyfleusterau hamdden lleol, megis arallgyfeirio amaethyddiaeth yng nghefn gwlad. Hyrwyddir cyfleusterau llety yn yr aneddiadau ac nid mewn lleoliadau cefn gwlad, fel y nodir ymhellach mewn polisi strategol.

## Safleoedd Allweddol yn yr ASDd

8.1.67 Dylid nodi na fydd Safle Strategol Hen Olosgfa Cwm yn cael ei ystyried yn y modd yma mwyach. Mae cyfnod y CDLl wedi nodi'r ansicrwydd a'r cyfyngiadau parhaus sy'n gysylltiedig â'r safle a'i gynigion datblygu. Does dim modd i ni ddibynnu arno'n hyderus ar gyfer y raddfa o ddatblygiad y dyrannwyd ar ei gyfer. Mae'r safle wedi'i ystyried ar gyfer cyllid Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i helpu i'w ddwyn ymlaen. Os daw hyn ymlaen fel y rhagwelwyd, bydd modd ystyried y safle ar gyfer defnyddiau amgen, megis Safle Adfywio, trwy Gam Adneuo'r CDLlD.


### 8.1.68 SAFLE ALLWEDDOL POSIBL 3
### Tir yn Llanilid

8.1.69 **Mae'r Safle Allweddol yma wedi'i leoli ar y safle glo brig blaenorol yn Llanilid, sy'n ffinio â'r de o Anheddiad Allweddol Llanharan; sy'n leoliad strategol yn RhCT. Mae'r safle yn gyfanswm o 269 hectar. Mae'r cynnig ar gyfer y safle yn adeiladu ar lwyddiant y dyraniad Safleoedd Strategol yn y CDLl presennol, sy'n cael ei adeiladu ar hyn o bryd. Mae'r safle yn rhoi cyfle i adfywio safle glo brig blaenorol i greu datblygiad defnydd cymysg cynaliadwy.**

8.1.70 Mae'r cynigion ar gyfer y safle yma'n cynnwys datblygiad preswyl, ysgolion, cyflogaeth, canolfannau lleol ac ardal, a mannau chwarae a mannau agored. Mae'r cynnig hefyd yn cynnwys cadw darnau helaeth o fannau agored cyhoeddus a seilwaith gwyrdd, tra'n gwarchod a gwella ystod o nodweddion bioamrywiaeth pwysig.

8.1.71 Mae cynigion ar gyfer y safle yn ceisio ymgorffori dylunio enghreifftiol a chreu lleoedd a rhwydwaith o drafnidiaeth gynaliadwy a fydd yn gwasanaethu'r datblygiad, ac yn cysylltu â'r cymunedau presennol.

8.1.72 Ystyrir bod y safle yn gallu darparu nifer sylweddol o dai a thir cyflogaeth dros gyfnod y cynllun yn yr Anheddiad Allweddol. Oherwydd maint sylweddol y safle, bwriedir i'r cynigion gael eu cyflawni dros gyfnod y cynllun yma ac i mewn i gyfnod y cynllun nesaf ar ôl 2037. Rhagwelir y bod modd i'r safle gyflenwi dros 3,000 o dai i gyd, fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd mwy na 1,500 yn cael eu hadeiladu yn ystod cyfnod y cynllun hyd at 2037.




## 8.1.39 SAFLE ALLWEDDOL POSIBL 4
## Llanilltud Faerdref/Efail Isaf

8.1.74 **Mae'r Safle Allweddol posibl yma'n cynnwys nifer o Safleoedd Ymgeisiol mewn lleoliadau cyfagos i'r de o aneddiadau ehangach Llanilltud Faerdref ac Efail Isaf.**


8.1.75 O'u cyfuno, mae'r safle cyfan yn gyfanswm o 50 hectar o dir glas. Ystyrir bod modd i'r Safle Allweddol yma gynnwys hyd at tua 1,000 o gartrefi newydd, ac ystod o ddefnyddiau ategol arfaethedig i sicrhau twf cynaliadwy'r safle. Mae'r rhain yn cynnwys ysgol newydd, siopau lleol, canolfan gweithio o bell a rennir, caeau ac ardaloedd chwarae ffurfiol, mannau agored cyhoeddus anffurfiol a rhwydweithiau seilwaith gwyrdd.

8.1.76 Bydd cadw nodweddion tirwedd presennol ochr yn ochr â chysylltiadau mynediad i gerddwyr a beicwyr yn sicrhau'r dyluniad hygyrch mwyaf modern a chreu lleoedd. Nodir y dylid diogelu llinell yr hen reilffordd sy'n rhedeg trwy elfen ddwyreiniol y safle ar gyfer unrhyw opsiynau teithio llesol neu gynaliadwy eraill yn y dyfodol. Mae'r safle'n elwa o fynediad diogel, lle bo angen, dros ffordd osgoi Pentre'r Eglwys ac oddi tani, i'r aneddiadau cyfagos. Ystyrir y bydd y twf tai newydd yma'n dod â manteision ar ffurf rhagor o gyfleusterau a seilwaith cymunedol i gymunedau presennol, a bydd cynnydd yn nifer yr ymwelwyr o fudd i'r canolfannau lleol.

8.1.77 Mae'r safle mewn lleoliad strategol gyda mynediad da at gyfleusterau cymdeithasol, cyflogaeth, cyfleusterau addysgol, trafnidiaeth gyhoeddus a phriffyrdd sy'n bodoli'n agos at y safle, yn ardal ehangach Prif Anheddiad Pontypridd ac Ystad Ddiwydiannol Trefforest. Gwelir y Safle Allweddol yma hefyd fel cyfle i gefnogi ffyniant Pontypridd, wrth wneud cyfraniad sylweddol at gyflawni twf cyffredinol angenrheidiol y CDLlD.



# DIAGRAM ALLWEDDOL Y STRATEGAETH A FFEFRIR





9

# POLISÏAU STRATEGOL

## PS1:
## Newid yn yr Hinsawdd a Lleihau Carbon

**Mae'r Polisi yma'n cefnogi Amcanion:**
**1, 4, 5, 9, 10, 11, 12 a 13**

1 **Mae'n rhaid i gynigion datblygu ddangos ystyriaeth o'r hinsawdd, anelu at leihau allyriadau carbon a lle bo'n bosibl lliniaru yn erbyn achosion newid yn yr hinsawdd.**

Bydd yr holl ddyraniadau ar gyfer datblygu yn y CDLl Diwygiedig (CDLlD) yn cael eu lleoli mewn lleoliadau cynaliadwy. Mae hyn wedi'i benderfynu yn unol â'r Fethodoleg Safleoedd Ymgeisiol, sy'n cyd-fynd â pholisi cynllunio cenedlaethol. Mae lleoliadau cynaliadwy yn lleoedd a fyddai'n lleihau'r angen i deithio ac yn lleihau dibyniaeth ar gerbydau preifat. Byddai hyn felly yn cyfrannu at leihau allyriadau carbon yn y dyfodol.

Disgwylir i bob cynnig datblygu newydd arall drwy gydol cyfnod y cynllun fod mewn lleoliadau cynaliadwy.

**Dylai dyluniad datblygiadau newydd hefyd fod yn fwy ystyrlon o ran carbon. Dylai cynigion datblygu:**

- Hyrwyddo dulliau a deunyddiau adeiladu a fyddai'n ceisio cyflawni adeiladau carbon niwtral.
- Ymgorffori ffynonellau ynni isel a thechnolegau adnewyddadwy.
- Gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd ar gyfer gwefru cerbydau trydan.
- Ceisio cofleidio'r economi gylchol, gan sicrhau effeithlonrwydd adnoddau, deunyddiau lleol a dulliau adeiladu cynaliadwy i osgoi gwastraff diangen.

**Mae asedau naturiol yn chwarae rhan fawr wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Bydd y CDLlD yn ceisio:**

- Diogelu seilwaith gwyrdd a'r rôl amlswyddogaethol mae modd iddo ei chwarae wrth leihau allyriadau carbon e.e. rheoli mawnogydd, diogelu cynefinoedd a phriddoedd lled-naturiol sy'n storio carbon, ffurfiau priodol o blannu, gwarchod coed ac aildyfiant naturiol coetir.
- Gall rhywfaint o seilwaith gwyrdd hefyd gyfrannu at lesiant trefol, e.e. darparu oeri ar adegau o wres eithafol.

1

- **Diogelu tir amaethyddol o ansawdd uchel i gefnogi a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer ffermio a chynhyrchu bwyd lleol, i leihau allyriadau carbon a milltiroedd bwyd.**
- **Defnyddio tir llwyd yn hytrach na thir glas, lle bo modd.**

## Ynni Adnewyddadwy

**Cefnogir cynlluniau ynni adnewyddadwy priodol. Bydd hyn yn amodol ar ddadansoddiad manwl pellach o ardaloedd chwilio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC), a fyddai'n nodi lleoliadau priodol a chapasiti ar gyfer datblygiad yn RhCT yn y dyfodol; bydd hyn yn cael ei ddadansoddi'n fanylach yn y cam Adneuo.**

## Gwastraff

**Byddwn ni'n parhau i leihau faint o wastraff sy'n cael ei gynhyrchu ac yn parhau i ailgylchu a darparu atebion ailgylchu arloesol.**

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i chwarae ei ran i fynd i'r afael ag achosion newid yn yr hinsawdd drwy leihau allyriadau carbon. O'n rhan ni, mae cynnydd ar droed, ond mae angen i ni i gyd wneud rhagor – a gwneud hynny'n gyflymach - os ydyn ni am helpu i wrthdroi'r difrod i'n planed ac addasu i'r newidiadau sydd eisoes yn mynd rhagddynt, yn y Cyngor ac yn y fwrdeistref sirol.

Gwnaeth Llywodraeth Cymru ddatganiad argyfwng hinsawdd yn 2019. Mae'n hollbwysig bod y CDLlD yn lleihau allyriadau carbon sy'n cyfrannu at effeithiau dinistriol posibl y newid yn yr hinsawdd. Er mwyn gwneud hynny mae'r Cyngor wedi datblygu strategaeth newid yn yr hinsawdd **Rhondda Cynon Taf Hinsawdd Ystyriol**. Bydd y CDLlD yn cefnogi'r strategaeth yma i gyflawni ei huchelgeisiau.

Bydd y CDLlD yn sicrhau bod y dyraniadau a gynhwysir ynddo mewn lleoliadau cynaliadwy, sy'n lleihau'r angen i deithio ac felly'n lleihau allyriadau carbon. Mae hyn wedi ei fanylu yn eglur yn y **Methodoleg Safleoedd Ymgeisiol**, yr aseswyd y safleoedd yn eu herbyn. Bydd disgwyl hefyd i bob datblygiad newydd arall drwy gydol cyfnod y cynllun leihau allyriadau carbon a bod mewn lleoliadau cynaliadwy, sy'n lleihau'r angen i deithio ac yn lleihau'r ddibyniaeth ar gerbydau preifat.

Mae Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol yn mynnu bod egwyddor Canol Trefi yn Gyntaf yn cael ei defnyddio wrth leoli datblygiad. Mae ein Ganolfannau Aneddiadau yn lleoliadau cynaliadwy iawn, sydd â mynediad da at wasanaethau a chyfleusterau a dulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy. Dylid mabwysiadu dull dilyniannol wedi hynny ar gyfer lleoli datblygiadau.

Os na fydd modd lleoli datblygiad yn agos at ganol yr anheddiad yna bydd angen darparu gwasanaethau, cyfleusterau a seilwaith cymunedol a ffisegol digonol, ochr yn ochr â gwelliannau i ddulliau trafnidiaeth cynaliadwy gan gynnwys trafnidiaeth gyhoeddus a llwybrau teithio llesol.

Mae dyluniad adeiladau yr un mor bwysig â lleoliad a dyluniad safleoedd. Bydd y CDLlD yn ceisio sicrhau bod mwy o ddatblygiadau yn rhai carbon isel neu ddi-garbon, gan ddefnyddio deunyddiau cynaliadwy sy'n cefnogi amcanion yr economi gylchol. Dylid dylunio adeiladau i'r safonau uchaf, gan ddefnyddio deunyddiau cynaliadwy o ansawdd uchel a thechnolegau gwresogi ynni-effeithlon, a thrwy hynny leihau'r defnydd o ynni.

Mae mannau gwyrdd y Fwrdeistref Sirol, mannau agored, amrywiaeth naturiol gyfoethog o gynefinoedd a phriddoedd lled-naturiol, coed, a phriddoedd yn chwarae rhan hanfodol mewn lleihau carbon a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, er enghraifft trwy storio carbon, oeri naturiol a helpu i leihau llygredd. Felly, bydd y CDLlD yn ceisio gwarchod a gwella'r asedau naturiol pwysig yma.

Mae ein tir amaethyddol o ansawdd da yn rhoi'r cyfle i ni dyfu ein bwyd ein hunain, gan leihau milltiroedd bwyd. Bydd tir amaethyddol gwerth uchel yn cael ei warchod, yn unol â pholisi cenedlaethol.

Bydd y defnydd o dir llwyd yn hytrach na thir glas ar gyfer datblygiad yn cael ei gefnogi, fodd bynnag, cydnabyddir bod diffyg tir llwyd yn RhCT i gyflawni pob datblygiad newydd.

Bydd cynlluniau ynni adnewyddadwy priodol yn cael eu cefnogi a bydd polisïau manylach yn cael eu paratoi yn ystod y cam Adneuo. Bydd y CDLlD yn ymdrechu i leihau'r gwastraff a gynhyrchir ymhellach ac i gefnogi'r gwaith rhagorol parhaus mewn ailgylchu ac arloesi yn y maes yma. Bydd gwastraff yn destun polisïau manwl yn ystod y cam adneuo.

**PS2:**

# Creu Lleoedd a Chymunedau Cynaliadwy

**Mae'r Polisi yma'n cefnogi Amcanion:**

**1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 9, 10, 11, 12 a 13**

2

**Bydd disgwyl i ddatblygiadau newydd gyfrannu at weledigaeth o ddyfodol RhCT, sef ar gyfer cymunedau sydd yn gynhwysol, yn gydlynol, yn ddiogel, yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi.**

**Dylai datblygiad gynnwys cynigion ar gyfer cymysgedd o ddefnyddiau, lle bo'n bosibl, sy'n sicrhau creu lleoedd cynaliadwy. Mae hyn ar gyfer y safle ei hun ac ar gyfer y gymuned y mae i ddod yn rhan ohoni. Mae modd i ddatblygiadau newydd ddod â buddion i'r gymuned bresennol, o ran mwy o dai, cyflogaeth, safleoedd manwerthu, teithio, hamdden neu'r defnydd o fannau agored ac ati.**

**Wrth wneud hynny, disgwylir i bob datblygiad gael ei ddylunio i safon uchel sy'n hyrwyddo ffyniant, iechyd, hapusrwydd a lles y gymuned fel y nodir yn egwyddorion polisi cynllunio Llywodraeth Cymru a'r cysyniad o 'greu lleoedd'.**

**I gyflawni hyn, dylai datblygiad:**

## Dyluniad

- Bod yn hygyrch, gyda chysylltiadau da, yn ddiogel ac yn caniatáu symudiad rhwydd o fewn y datblygiad ac i'r gymuned bresennol ehangach i bob defnyddiwr.
- Bod yn ymatebol i newid yn yr hinsawdd ac yn hyblyg.
- Ymateb i'r cyd-destun a chymeriad lleol, gan barchu a gwella'r amgylcheddau naturiol, hanesyddol, diwylliannol ac adeiledig unigryw yn RhCT.
- Dylunio ar gyfer gwarchod, lliniaru a gwella cynefinoedd a bioamrywiaeth a choed yn effiethiol.
- Bod yn briodol o ran graddfa, dwysedd a chynllun.
- O ran tai, dylen nhw ddarparu cymysgedd priodol ac amrywiol o fathau a meintiau o dai, sy'n darparu ar gyfer anghenion pawb, ac sy'n gallu addasu i anghenion cyfnewidiol dros amser.

## Llesiant Cymunedau

- Cyfrannu at iechyd a lles cymunedau, gan gynnwys diogelu amwynderau, tir y cyhoedd, darparu mannau agored, mannau hamdden a thirlunio.
- Ymgorffori seilwaith gwyrdd newydd a chysylltiedig, gan hyrwyddo bioamrywiaeth.

## Seilwaith Digonol

- Sicrhau bod capasiti ac argaeledd seilwaith i wasanaethu datblygiadau newydd a'u cymunedau. Lle dydy hyn ddim yn wir, bydd angen i ddatblygiad gyfrannu at wella seilwaith o'r fath a/neu ddarparu seilwaith newydd.

## Adnoddau

- Ymgorffori, lle bo modd, effeithlonrwydd ynni ar y safle a chynhyrchu ynni adnewyddadwy.
- Rheoli dŵr a gwastraff yn gynaliadwy.



**PS2: Creu Lleoedd a Chymunedau Cynaliadwy** (parhad)

2 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig (CDLlD) wedi ymrwymo i greu cymunedau a lleoedd cynaliadwy, sy'n cynnig safon byw uchel. Mae'r cynllun yn cofleidio'r cysyniad o greu lleoedd, fel y nodir mewn polisi cenedlaethol, sy'n ceisio creu datblygiad o ansawdd uchel, hyrwyddo ffyniant, iechyd, hapusrwydd a lles pobl.

Bydd y CDLlD hefyd yn cefnogi gweledigaeth y Cynllun Llesiant, sy'n ceisio creu Cwm Taf Morgannwg mwy cyfartal. Ei nod yw creu cymdogaethau lleol iach, yn ogystal â chymdogaethau cynaliadwy a gwydn. Mae'r polisi yma'n cefnogi cyflawni datblygiadau, sy'n gallu cyfrannu at y nodau yma.

Mae creu safleoedd datblygu o ansawdd uchel sydd wedi'u dylunio'n dda ac sy'n creu cymunedau deniadol, cynhwysol a hygyrch i fyw, gweithio a chymdeithasu ynddyn nhw'n flaenoriaeth i'r CDLlD. Dylai datblygiad ganiatáu i bobl deimlo'n ddiogel, byw mewn cymunedau cydlynol a helpu i leihau'r anghydraddoldebau mae rhai pobl yn eu dioddef.

Rhaid i gynigion ystyried perthynas, swyddogaeth a chyd-destun y safle o fewn ei amgylchoedd ehangach. Bydd hyn yn cynnwys creu cysylltiadau rhwng datblygiad sefydledig a newydd, gan gryfhau cysylltiadau rhwng pobl a lleoedd.

Dylid parchu a gwella diwylliant cryf, treftadaeth a chymeriad traddodiadol Rhondda Cynon Taf a'i hasedau drwy'r broses ddylunio.

Dylai datblygiadau hybu lles ac iechyd corfforol a meddyliol da, trwy gynnwys nodweddion fel mannau gwyrdd ac agored, mannau chwarae, mynediad at fyd natur, llwybrau teithio llesol a mannau eraill i annog cydlyniant cymunedol. Lle bo modd, dylid cysylltu'r nodweddion yma â'r rhai sy'n bodoli yn y rhwydwaith cymunedol ehangach.

**PS3:**

# Rheoli Perygl Llifogydd

**Mae'r Polisi yma'n cefnogi Amcanion:**

**1**, **3**, **4**, **9** a **10**

3

**Bydd y CDLlD yn ceisio sicrhau bod datblygiadau newydd yn cael eu lleoli mewn mannau, na fyddai'n eu rhoi mewn perygl annerbyniol o lifogydd, tra'n sicrhau bod pob datblygiad yn gallu gwrthsefyll llifogydd yn briodol.**

**Bydd yn sicrhau na fydd unrhyw ddatblygiad newydd yn cynyddu perygl llifogydd lleol o fewn ac o amgylch y safle sy'n cael ei ddatblygu, nac yn unrhyw un o'n cymunedau presennol.**

**Bydd y CDLlD yn nodi rhagor o gyfleoedd i leihau maint ac effaith bosibl llifogydd, megis:**

- Dulliau gwrthsefyll llifogydd o adeiladu adeiladau newydd a datblygiad cyffredinol safleoedd.
- Gwella a darparu asedau a rhwydweithiau seilwaith gwyrdd a glas pellach ar gyfer eu rolau aml-swyddogaethol, gan gynnwys lleihau perygl llifogydd trwy ddulliau megis gwanhau.
- Drwy reoli ein hasedau naturiol mewn ffordd fwy effeithiol, mae modd i hynny ddod â nifer o fanteision megis rheoli glaw trwm. Byddai hyn yn cynnwys gwella cyflwr ein corsydd mawn, gorlifdiroedd a gwlyptiroedd, diogelu priddoedd a lleihau selio pridd, diogelu coed a chynyddu ardaloedd adfywio a chreu coetir yn RhCT a manteision eraill.

Mae glawiad mwy aml a dwys ynghyd â thopograffeg RhCT yn cynyddu'r perygl o fflachlifoedd yn RhCT. Mae glaw amlach hefyd yn gadael y ddaear yn orlawn, sy'n cynyddu'r risg ymhellach. Mae'r dyffrynnoedd ag ochrau serth yn achosi dŵr ffo cyflym i'r ardaloedd trefol yn y rhannau isaf, trwy gyrsiau dŵr cyffredin ac i'r prif afonydd.

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi ystod o ystyriaethau polisi cynhwysfawr ar gyfer cynigion datblygu a pherygl llifogydd. Mae Nodyn Cyngor Technegol 15 yn nodi rhagor o ganllawiau ar gyfer cynigion datblygu sy'n gysylltiedig â llifogydd o bob ffynhonnell.

Mae'r prif afonydd yn RhCT yn cynnwys Afon Taf, Afon Rhondda, Afon Cynon ac Afon Elái, sydd i gyd yn dueddol o orlifo yn ystod cyfnodau o law trwm. Mae llifogydd mewn prif afonydd yn aml yn cael eu hachosi gan lefelau afonydd yn 'gorlifo' o'u 'glannau' a/neu'n 'torri' strwythurau amddiffyn. Mae'r risg yma'n uchel yn RhCT. Mae hyn yn bennaf oherwydd maint trefol y cymunedau sydd wedi'u lleoli ar orlifdiroedd yr afon ac o'u cwmpas.

Diffinnir perygl llifogydd lleol fel y perygl o gyrsiau dŵr cyffredin (neu nentydd ac afonydd llai), dŵr wyneb a ffynonellau dŵr daear. Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol sy'n gyfrifol am reoli perygl llifogydd lleol; sef Cyngor RhCT. Llifogydd o ddŵr wyneb a chyrsiau dŵr cyffredin yw'r ffynhonnell fwyaf cyffredin o lifogydd yn RhCT.

Mae'r polisi perygl llifogydd strategol yma'n cyd-fynd â Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd RhCT a'r Cynllun Gweithredu, yr Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd, y Safonau Statudol ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau) ar gyfer rheoli draenio dŵr wyneb (gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn Gorff Cymeradwyo SDCau ar gyfer datblygiadau newydd yma).

Bwriedir llunio polisi cynhwysfawr yng Ngham Adneuo dilynol y CDLlD. Bydd hyn yn cynnwys polisïau Rheoli Datblygu priodol ar gyfer cynigion o fewn y parthau perygl llifogydd lleol a nodwyd (Llywodraeth Cymru). Bydd polisi arall hefyd i geisio lleihau'r holl berygl llifogydd lleol a phrif afonnydd yn RhCT, er mwyn ehangu ar rai o'r cysyniadau a godwyd ym mholisïau'r Strategaeth a Ffefrir.

## PS4:
# Bioamrywiaeth a'r Amgylchedd Naturiol

**Mae'r Polisi yma'n cefnogi Amcanion:**
**1**, **4**, **9** a **10**

4

**Mae RhCT yn ardal o dirweddau bioamrywiol ac amrywiol, sy'n cynnal amrywiaeth o gynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth. Bydd y CDLlD yn ceisio cynnal a gwella'r rhinweddau a'r nodweddion yma a gadael yr amgylchedd naturiol mewn cyflwr mwy bioamrywiol a gwydn.**

**Mae ein tirwedd bioamrywiaeth yn cael ei gwarchod gan ddynodiadau Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur (SoBCN). Fel y nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru, CNC sy'n gyfrifol am ddynodiadau ACA a SoDdGA. Mae Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur (SoBCN) yn ddynodiad Awdurdod Cynllunio Lleol.**

### Datblygiadau a SoBCN:
- Dylid osgoi datblygu ar safleoedd SoBCN dynodedig.
- Bwriad RhCT yw darparu amddiffyniad cryf i'r elfennau hynny o fioamrywiaeth yn ein SoBCN does dim modd eu hadnewyddu.
- Mae rhai SoBCN yn cynnal cynefinoedd a allai fod â rhywfaint o gapasiti ar gyfer lliniaru, gwneud iawn a gwella. Bydd disgwyl i gynigion ar y safleoedd yma ddangos tystiolaeth bod mesurau lliniaru, digolledu a gwella derbyniol yn bosibl, tra'n gwarchod y cynefinoedd a'r rhywogaethau y'u dynodwyd ar eu cyfer.

### Pob Datblygiad:
- Rhaid i bob datblygiad yn y dyfodol ddangos tystiolaeth o liniaru a gwella bioamrywiaeth yn effeithiol.
- O ran SoBCN, bydd gofyniad i liniaru effeithiol ar y safle. Dim ond mewn achosion lle bydd darparu bioamrywiaeth yn amlwg yn fwy effeithiol, a lle dydy cysylltedd, ardal a swyddogaeth bioamrywiaeth leol ddim yn cael eu peryglu, yr ystyrir darpariaeth oddi ar y safle.
- Lle mae'n amlwg bod dim modd cyflawni mesurau lliniaru neu wella ar y safle, ond lle mae modd darparu'n effeithiol ar gyfer lliniaru a gwella effeithiau cynefinoedd neu rywogaethau a achosir gan ddatblygiad, gellir ystyried darpariaeth oddi ar y safle.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan Argyfwng Natur ac yn ceisio ymgorffori ystyriaethau bioamrywiaeth pellach yn y broses gynllunio; gyda diwygiadau i Bolisi Cynllunio Cymru (a ddisgwylir) yn hydref 2023. Mae hyn hefyd yn adeiladu ar y Ddyletswydd Bioamrywiaeth ar gyfer cyrff cyhoeddus a sefydlwyd yn Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru).

Oherwydd cyd-destun bioamrywiaeth sylfaenol uchel RhCT, bydd gweithredu amcanion amrywiol y CDLlD, gan gynnwys dyheadau datblygu ac ecolegol, yn heriol. Nod y polisi bioamrywiaeth strategol yma yw mynd i'r afael â pholisi Llywodraeth Cymru yng nghyd-destun Rhondda Cynon Taf.

Mae'r system SoBCN yn darparu'r fframwaith ar gyfer cadwraeth bioamrywiaeth yn RhCT ac yn nodi'r cynefinoedd a'r rhywogaethau o bryder cadwraethol, y mae angen eu gwarchod. Mae meysydd eraill o bwysigrwydd ecolegol yn RhCT yn cynnwys Gwarchodfeydd Natur Lleol, Gwarchodfeydd Natur yr Ymddiriedolaeth Natur, safleoedd Tirwedd Fyw a Safleoedd Daearegol a Geomorffaidd Pwysig Rhanbarthol (RIGS).

Bydd polisïau rheoli datblygu manwl pellach yn cael eu paratoi ar gyfer y Cynllun Adnau a bydd y canllawiau cynllunio atodol presennol yn cael eu hadolygu.

**PS5:**

# Isadeiledd Gwyrdd a Mannau Agored

**Mae'r Polisi yma'n cefnogi Amcanion:**

**1, 3, 4, 8, 9, 10, 12 a 18**

5

**Mae pob Seilwaith Gwyrdd yn chwarae rhan arwyddocaol wrth ddarparu cynefinoedd priodol ar gyfer bioamrywiaeth yn RhCT. Felly mae gwarchod, rheoli a gwella lleoedd o'r fath yn RhCT yn gyfrifoldeb allweddol i'r CDLID.**

At hynny, mae nifer o'r amcanion a'r polisïau strategol yn y Strategaeth a Ffefrir yn cyfeirio at fanteision ehangach mannau agored naturiol a mwy ffurfiol, gan gynnwys:

- Darparu cynefinoedd naturiol ar gyfer amrywiaeth o fioamrywiaeth
- Iechyd a lles corfforol a meddyliol
- Teithio Llesol
- Chwaraeon a Hamdden
- Gwanhau Perygl Llifogydd
- Storio Carbon
- Amgylcheddau sy'n Oeri.

Mae dyletswydd yn y CDLID i sicrhau ein bod ni'n nodi ac yn deall ein Seilwaith Gwyrdd yn y Fwrdeistref Sirol yn llawn. Yn unol â hynny, bydd Cam Adneuo'r CDLID yn cynnal asesiad Seilwaith Gwyrdd cynhwysfawr, gan gynnwys asesiadau ychwanegol o Fannau Agored a Mannau Chwarae.

Bydd yr asesiadau yma'n cael eu defnyddio ymhellach i baratoi ystod o bolisïau a fyddai'n ceisio:

- Gwarchod Isadeiledd Gwyrdd a mannau agored cyhoeddus eraill yn briodol,
- Cynyddu nifer y mannau gwyrdd a chyfanswm eu harwynebedd,
- Gwella ansawdd mannau gwyrdd trwy weithredu cynlluniau rheoli sydd wedi'u cynllunio'n dda, ac
- Ystyried defnyddiau ychwanegol posibl ar eu cyfer megis lliniaru llifogydd a storio carbon.

## Ardaloedd Tirwedd Arbennig

Penderfynwyd y bydd yr Ardaloedd Tirwedd Arbennig (ATA) a nodwyd yn gynhwysfawr yn y CDLl presennol yn parhau yn eu lle yn y CDLID. Mae monitro blynyddol y CDLl wedi nodi bod dim newid wedi digwydd o fewn y tirweddau yma sydd wedi arwain at golli eu nodweddion o ansawdd uchel maen nhw wedi eu dynodi ar eu cyfer. Bydd Cam Adneuo'r CDLID yn adolygu'r polisïau ATA presennol i sicrhau y bydden nhw'n parhau i warchod a gwella ansawdd a chymeriad y tirweddau yma'n briodol.

## Lletemau Glas

Bwriedir cynnal adolygiad o Letemau Glas ar gyfer Cam Adneuo'r CDLID, gan ddefnyddio methodoleg newydd, fel y'i paratowyd ar gyfer Rhanbarth De-ddwyrain Cymru.



**PS6:**

# Tai

**Mae'r Polisi yma'n cefnogi Amcanion:**

**1**, **2**, **3**, **5**, **7** a **12**

6

**Mae angen am 8,450 o dai newydd wedi'i nodi i fodloni Gweledigaeth ac Amcanion strategol y CDLl Diwygiedig. Mae Llawlyfr y CDLl yn nodi bod angen ychwanegu lleiafswm pellach o lwfans hyblygrwydd o 10% at y ffigur, er mwyn yswirio yn erbyn unrhyw faterion nas rhagwelwyd a diffyg cyflenwi safleoedd neu niferoedd cyffredinol. Felly cyfanswm y Ddarpariaeth Tai ar gyfer cyfnod cynllun y CDLlD o 2022-2037 yw 9,295 o anheddau.**

**Bydd y lefel gadarnhaol yma o ddarpariaeth tai yn cael ei chyflawni drwy dri dull cyffredinol:**

- Dyrannu tir cyflawnadwy mewn lleoliadau priodol sy'n cyd-fynd â'r Strategaeth a Ffefrir. Bydd y dyraniadau yma'n cael eu pennu'n llawn yn y Cyfnod Adneuo, er bod Safleoedd Allweddol Posibl wedi'u nodi a allai gyfrannu niferoedd sylweddol.
- Mae datblygiad parhaus y safleoedd ymrwymedig yn y Banc Tir Tai a nodwyd (fel y nodir yn y Papur Cyflenwi Tai).
- Cefnogi datblygiad hap-safleoedd ar gyfer datblygiad preswyl ar safleoedd priodol, o fewn ffiniau aneddiadau lle y'u sefydlwyd, yn unol â'r Strategaeth a Ffefrir a'r Hierarchaeth Aneddleoedd.

Mae'r tabl isod, yn dod o'r **Papur Cyflenwi Tai**, yn nodi'n fanwl sut mae'r ddarpariaeth gyffredinol yma wedi'i hamlinellu.

| **Darpariaeth Tai CDLlD Rhondda Cynon Taf 2022-2037** | | | |
|---|---|---|---|
| **Darpariaeth Tai** | 1 | Y Gofynion o Ran Tai | 8,450 |
| | 2 | Lwfans Hyblygrwydd o 10% | 845 |
| | 3 | Cyfanswm y Ddarpariaeth Tai 2022-2037 | 9,295 |
| **Banc tir Cyflenwad** | 4 | Banc tir safleoedd bach | 621 |
| | 5 | Banc tir safleoedd mawr | 3,502 |
| | 6 | Lwfans peidio â chyflawni (gostyngiad o 20%) | -825 |
| | 7 | Is-gyfanswm cyfredol 'Banc Tir' | 3,298 |
| **Lwfansau safleoedd annisgwyl** | 8 | Safleoedd annisgwyl bach | 1,032 |
| | 9 | Safleoedd annisgwyl mawr | 1,596 |
| | 10 | Is-gyfanswm lwfansau safleoedd annisgwyl | 2,628 |
| **Dyraniadau Angenrheidiol** | 11 | Angen annedd o ddyraniadau er mwyn cwrdd â'r ddarpariaeth tai, h.y. Cyfanswm y Ddarpariaeth Tai, heblaw'r cyflenwad banc tir a lwfansau safleoedd annisgwyl. | 3,369 |

Penderfynwyd ar yr angen am dai trwy ystyried nifer o ardaloedd o'r sylfaen dystiolaeth. Nodir y canlyniad yma yn adran Opsiynau ar gyfer Twf y Strategaeth a Ffefrir.

6 Penderfynwyd ar yr angen am dai trwy ystyried nifer o ardaloedd o'r sylfaen dystiolaeth. Nodir y canlyniad yma yn adran Opsiynau ar gyfer Twf y Strategaeth a Ffefrir.

Bydd graddfa dosbarthiad gofodol dyraniadau tai newydd yn cyd-fynd â'r Strategaeth a Ffefrir, gyda mwy o dai i'w dyrannu yn y De nag yn y Gogledd. Mae asesiad cychwynnol o'r Safleoedd Posib wedi dangos bod digon o safleoedd i ddarparu ar gyfer lefel yr angen ychwanegol. Yn gyffredinol, mae'r dosbarthiad yma'n cyd-fynd â'r hyn a gwblhawyd yn y gorffennol dros gyfnod y cynllun CDLl presennol, sydd hefyd yn cael ei adlewyrchu yn y safleoedd banc tir presennol.

Gwyddys bod 1,561 o anheddau ar safleoedd banc tir ymrwymedig gyda disgwyliad teg i'w cyflwyno yn yr Ardal Strategaeth Ogleddol yn hanner cyntaf cyfnod cynllun y CDLlD; gyda 2,562 yn yr Ardal Strategaeth Ddeheuol. Mae safleoedd banc tir naill ai eisoes wedi cychwyn neu wedi sicrhau caniatâd cynllunio a thybir eu bod nhw ar gael mewn gwirionedd i'w datblygu.

Yn ôl eu natur, dyw'r safleoedd annisgwyl ddim wedi'u nodi'n llawn eto. Serch hynny, mae dadansoddiad o dueddiadau'r gorffennol yn y **Papur Cyflenwi Tai**, (gan gynnwys anwybyddu tueddiadau annormal), ynghyd â chwiliad rhagweithiol am safleoedd posibl trwy **Astudiaeth Capasiti Trefol** ffurfiol, wedi nodi cyfraniad tebygol rhesymol. Byddai cynigion datblygu annisgwyl yn y dyfodol yn cael eu ffafrio ar dir a ddatblygwyd o'r blaen a'u darparu ar sail 'Canol Trefi yn Gyntaf', lle bo modd. Anogir cynigion ar gyfer trosi strwythurau addas yn ddatblygiadau preswyl mewn lleoliadau priodol hefyd.

Mae polisïau strategol eraill y dylid eu darllen ochr yn ochr â hyn mewn perthynas â datblygiadau preswyl yn y dyfodol, yn cynnwys yn gyntaf y Polisi Canolfannau Aneddiadau, sy'n nodi ystyriaethau ar gyfer datblygiadau preswyl mewn Ganolfannau Aneddiadau. Mae'r Polisi Creu Lleoedd a Chymunedau Cynaliadwy, ochr yn ochr â'r Polisi Newid Hinsawdd a Lleihau Carbon wedyn yn nodi meini prawf polisi o'r safbwyntiau yma.

Bydd polisi rheoli datblygu manwl pellach i arwain datblygiad preswyl yn y dyfodol yn cael ei gynnwys yng Ngham Adneuo'r CDLlD. Bydd hefyd yn nodi ystyriaethau pellach ar gyfer caniatáu safleoedd eithriedig a safleoedd eraill ar gyfer tai fforddiadwy.

Mae angen darparu amrywiaeth yn y farchnad dai a sicrhau amrywiaeth o fathau a meintiau o dai i ddarparu ar gyfer anghenion holl aelodau ein cymunedau yn RhCT. Dylai lefel y ddarpariaeth a nodwyd helpu i gynyddu nifer y tai o ansawdd da sy'n fforddiadwy ar draws y marchnadoedd cymdeithasol a phreifat. Er ei bod hi'n anochel y bydd graddfa'r tai a ddarperir yn fwy yn y de nag yn y gogledd, mae'n parhau i fod y bydd niferoedd sylweddol o dai newydd yn cael eu hadeiladu ym mhob rhan o RCT i ganiatáu ar gyfer anghenion tai a chyfleoedd i bawb.

Ystyrir ymhellach y cynigir darpariaeth addas o dai newydd yn yr ardaloedd hynny yn RhCT sydd â'r cyfrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg.

## Tai fforddiadwy

Canfu Asesiad Marchnad Dai Leol Canfyddiadau Drafft 2024 fod angen 5,672 o dai fforddiadwy/sydd ddim ar y farchnad agored yn RhCT dros gyfnod cynllun 2022-2037. Mae hyn yn cyfateb i 378 bob blwyddyn ar gyfartaledd neu 67.1% o gyfanswm y gofyniad tai o 8,450 o anheddau. Byddai hyn yn darparu ar gyfer yr anghenion presennol heb eu diwallu ac anghenion tai fforddiadwy yn y dyfodol. Serch hynny, byddai unrhyw golledion i'r stoc tai fforddiadwy presennol (megis dymchwel) yn cynyddu nifer y tai fforddiadwy sydd eu hangen gan swm cyfatebol. I'r gwrthwyneb, bydd eiddo fforddiadwy gwag, sydd ar gael i'w defnyddio unwaith eto, yn lleihau'r angen.

Yn hanesyddol mae RhCT wedi darparu tua 25% o'r anheddau a gwblhawyd yn flynyddol fel rhai fforddiadwy ers mabwysiadu'r CDLl presennol. Yn seiliedig ar y gyfradd gyfartalog yma, byddai angen i RCT ddatblygu 1,512 o anheddau y flwyddyn er mwyn diwallu'r angen am 378 o anheddau fforddiadwy. Mae'r gyfradd yma'n afrealistig.

Pe bai'r duedd bresennol yn parhau dros gyfnod y cynllun, yna byddai disgwyl i oddeutu 140 o dai fforddiadwy gael eu darparu ar gyfartaledd bob blwyddyn dros gyfnod y cynllun, sef cyfanswm o tua 2,112. O ystyried cyfraddau adeiladu tai fforddiadwy yn y blynyddoedd mwy diweddar, a lefel uwch arfaethedig y cyflenwad tai cyffredinol, mae hwn yn ymddangos yn ffigwr cyraeddadwy iawn.

6 Mae dadansoddiad yn y **Papur Cyflenwi Tai** yn cefnogi hyn. Drwy ganiatadau tai fforddiadwy cyfredol y banc tir, safleoedd annisgwyl a dyraniadau arfaethedig, ystyrir ei bod hi'n ymarferol darparu hyd at 159 o anheddau fforddiadwy bob blwyddyn ar gyfartaledd. Ategir hyn ymhellach gan ddosbarthiad gofodol y ddarpariaeth tai yn y Strategaeth a Ffefrir, sy'n cyd-fynd yn gyffredinol â'r **Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol** meysydd a nodwyd a maint yr angen. Byddai'r 159 o anheddau'r flwyddyn yma eto'n cyfateb i tua 25% o'r ddarpariaeth dai gyffredinol.

Bydd dadansoddiad pellach o hyfywedd safleoedd tai yn ceisio sicrhau polisïau pendant a fydd yn nodi'r raddfa ofynnol o gyfraniadau gan ddatblygwyr at yr angen am dai fforddiadwy. Disgwylir i hyn amrywio a chyd-fynd â'r meysydd a nodir yn yr **Adroddiad Hyfywedd** lefel uchel, a baratowyd ar gyfer y Strategaeth a Ffefrir. Bydd y polisïau yma'n cael eu nodi yng ngham Adneuo'r CDLID, a fydd hefyd yn rhoi rhagor o fanylion am sut y ceisir y cyfraniadau yma.

Bydd cyflawni cynigion tai fforddiadwy ehangach yn llwyddiannus o ffynonellau eraill yn parhau dros gyfnod y cynllun, megis Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, buddsoddiad gan Gyngor RhCT ac ail-fuddsoddiad parhaus gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn y Fwrdeistref Sirol.

## Tai Gwag

Mae gan RhCT fwriadau strategol i wella eiddo preswyl gwag er mwyn ei ail-ddefnyddio. Er bod y broses yma yn ei hanfod yn dod â thai newydd ar y farchnad, ni ellir eu hystyried fel tai newydd a fyddai'n cael eu cynnwys yn y ddarpariaeth tai. Ar hyn o bryd mae 2,894 eiddo gwag ledled y Fwrdeistref Sirol. O'r rhain mae 2,120 ohonyn nhw wedi'u lleoli yn yr Ardal Strategaeth Ogleddol, tra bod y 774 sy'n weddill wedi'u lleoli yn yr Ardal Strategaeth Ddeheuol. Gyda chyfraddau cwblhau yn y gorffennol diweddar mor uchel â 273 yn 2021/22, ynghyd â'r cyllid sydd ar gael ar hyn o bryd, disgwylir y bydd hyn yn parhau i fod yn ffynhonnell nifer o gartrefi newydd cychwynnol i deuluoedd; yn enwedig yn yr ardal strategol ogleddol.

Bydd taflwybr tai yn cael ei baratoi ar gyfer y cam Adneuo o baratoi'r cynllun, a fydd yn dangos y camau adeiladu a chyflawniad dyraniadau tai a safleoedd banc tir hysbys dros oes y cynllun. Bydd hyn yn caniatáu ar gyfer monitro tai yn effeithiol yn y CDLl Diwygiedig a sicrhau cyflenwad digonol o dai.

## Anghenion Llety Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr

Mae'n ofynnol i'r Cyngor a'r CDLID ddarparu ar gyfer anghenion llety'r Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn diweddaru'r diffiniad o 'Sipsi a Theithiwr' i gynnwys Siewmyn Teithiol, ochr yn ochr â Theithwyr Newydd lle maen nhw'n gallu dangos traddodiad diwylliannol o nomadiaeth neu o fyw mewn cartrefi symudol. Mae'r Ddeddf yn gorchymyn bod yn rhaid asesu anghenion llety cymunedau Sipsiwn a Theithwyr; y cytunwyd arno gan Lywodraeth Cymru; a bod darpariaeth ddigonol yn cael ei gwneud ar eu cyfer. Y mecanwaith ar gyfer asesu'r ddarpariaeth yw'r Asesiad o Anghenion Llety ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.

Asesodd Asesiad o Anghenion Llety ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr Cyngor RhCT, a gynhyrchwyd ym mis Chwefror 2022 gan Opinion Research Services, yr angen am lety Sipsiwn a Theithwyr ledled y Fwrdeistref Sirol yn y dyfodol. Prif amcan yr astudiaeth oedd darparu asesiad cadarn o anghenion presennol ac yn y dyfodol am lety yn y tymor byr a thros oes y CDLl Diwygiedig (2022-2037). Mae'r anghenion llety wedi'u crynhoi drwy gyfuniad o ymchwil desg ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys aelodau o'r Cymunedau Teithiol.

Mae Asesiad RhCT ar ffurf drafft ar hyn o bryd ac mae'n amodol ar gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru. Mae'r asesiad yn nodi angen sydd heb ei ddiwallu; felly, bydd gofyniad i ddyrannu digon o leiniau i fynd i'r afael â hyn. Daw'r asesiad i'r casgliad y bydd angen 27 o leiniau dros gyfnod y cynllun, sy'n cyfrif am ffurfiant aelwydydd newydd a ragwelir, yn seiliedig ar ddemograffeg gyfredol. Ar ôl rhoi sylw dyledus i ganfyddiadau'r Asesiad o Anghenion Llety ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, bydd y Cyngor yn darparu'r fframwaith polisi angenrheidiol i ganiatáu ar gyfer diwallu anghenion y cymunedau Sipsiwn a Theithwyr, yn y cam Adneuo o baratoi cynllun y CDLID.

**PS7:**

# Tir Cyflogaeth a'r Economi

## Mae'r Polisi yma'n cefnogi Amcanion:

**1**, **14**, **15**, **16** a **18**

7

**Nod y CDLlD yw darparu ar gyfer economi gynaliadwy ledled RhCT a chwilio am gyfleoedd i gefnogi twf cyflogaeth. Bydd busnesau newydd a rhai sy'n ehangu yn RhCT, ynghyd â chyfleoedd mewnfuddsoddi yn parhau i gael eu cefnogi'n gryf, lle bo'n briodol yn RhCT.**

Wrth gefnogi egwyddor polisi cenedlaethol Canol Trefi yn Gyntaf (ar gyfer y rhan fwyaf o gynigion datblygu), mae rhai mentrau diwydiannol a masnachol wedi'u lleoli i ffwrdd o'r canolfannau yma gan fod hyn yn fwy addas.

Bydd cynigion datblygu ar gyfer dosbarthiadau defnydd B1, B2 a B8 newydd yn cael eu cefnogi, lle ystyrir eu bod nhw fel arall yn dderbyniol ac yn briodol, ar:

- Safleoedd Cyflogaeth a Ddyrannwyd.
- Tir sydd ar gael ar safleoedd banc tir cyflogaeth presennol.
- Ailddatblygu safleoedd banc tir cyflogaeth presennol a/neu unedau sydd wedi dadfeilio, sy'n wag neu ddim yn addas i'r diben mwyach. Mae modd i hyn gynnwys ailddatblygu safleoedd cyfan, i lawr hyd at isrannu unedau.

Ac eithrio'r uchod, dylid ceisio cyfleoedd ar gyfer cynigion ar gyfer swyddfeydd B1 mewn Ganolfannau Aneddiadau sydd wedi'u lleoli'n fwy priodol. Lle dydy hyn ddim yn bosibl, bydd angen dull chwilio dilyniannol ar gyfer safleoedd, yn unol ag egwyddor cenedlaethol Canol Trefi yn Gyntaf.

| Dyraniadau Cyflogaeth a Thir o fewn Safleoedd Banc Tir Cyflogaeth Presennol | |
|---|---|
| | **Nifer yr Hecterau** |
| Dyraniad Cyflogaeth (o fewn y Safle Allweddol) ar safle hen Lofa'r Tŵr i'r De o Hirwaun (ASO) | 15 Ha |
| Dyraniad Cyflogaeth ar Safle Allweddol Llanilid (ASDd) | 10 Ha |
| Tir sydd ar gael o fewn Safleoedd Banc Tir Cyflogaeth Presennol yn yr ASO | 19.8 Ha |
| Tir sydd ar gael o fewn Safleoedd Banc Tir Cyflogaeth Presennol yn yr ASDd | 23.9 Ha |
| **Cyfanswm Argaeledd Tir Cyflogaeth** | **68.7 Ha** |

Mae dyraniadau cyflogaeth a safleoedd banc tir i'w diogelu i sicrhau eu bod nhw ar gael at ddibenion cyflogaeth. Felly:

- Mae defnyddiau ar wahân i rai dosbarth B wedi'u lleoli'n fwy priodol yn y Ganolfannau Aneddiadau a dylid cynnig eu lleoli yno. Lle dydy hyn ddim yn bosibl, bydd angen dull chwilio dilyniannol ar gyfer safleoedd, yn unol ag egwyddor Canol Trefi yn Gyntaf.
- Bydd modd cefnogi'r cynigion defnydd sydd ddim yn rai dosbarth B sy'n arddangos nodweddion defnyddiau B1, B2 a B8, ac mae modd eu cynnwys yn briodol ar safle cyflogaeth.
- Mae modd cefnogi defnyddiau bach, atodol sy'n cefnogi swyddogaeth ehangach safle cyflogaeth.
- Fydd unrhyw gynigion a fyddai'n cael effaith andwyol annerbyniol ar allu defnyddiau dosbarth B i weithredu ar hyn o bryd neu yn y dyfodol, neu a fyddai'n amharu ar fywiogrwydd a hyfywedd y safle cyflogaeth yn y dyfodol, ddim yn cael eu cefnogi.

## **PS7: Tir Cyflogaeth a'r Economi** (parhad)



7 Rhaid i'r CDLlD gynnal lefel addas o dir cyflogaeth sydd ar gael i hwyluso busnesau newydd a chaniatáu ar gyfer ehangu busnesau presennol RhCT, ynghyd â mewnfuddsoddiad i'r Fwrdeistref Sirol. Comisiynodd Cyngor RhCT y BE Group i gynnal Adolygiad Tir Cyflogaeth i ganfod yr angen dros gyfnod y cynllun. Gan ddefnyddio'r ddwy fethodoleg a nodir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru o 2015 Adeiladu Sail Tystiolaeth ar gyfer Datblygu Economaidd er mwyn Cefnogi Cynlluniau Datblygu Lleol, mae angen a argymhellir am 49 hectar o dir cyflogaeth o 2022-2037, gan gynnwys lwfans priodol ar gyfer byffer, fel y nodir yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Arg. 3).

Fel y nodir uchod, mae'r Cyngor wedi nodi tua 68 hectar o dir cyflogaeth sydd ar gael. Mae hyn yn cynnwys safle newydd a neilltuwyd ar Safle Allweddol Llanilid ac ailddyrannu safle Glofa'r Tŵr ar y Tir i'r De o Safle Allweddol Hirwaun. Mae yna hefyd nifer o safleoedd ym manc tir cyflogaeth presennol y Cyngor. Dylid nodi bod y tir cyflogaeth arfaethedig yn Llanilid yn ychwanegol at yr hyn a nodwyd yn yr Adolygiad Tir Cyflogaeth.

Bydd y safleoedd yma'n cael eu diogelu ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth drwy gydol cyfnod y CDLlD. Bydd hyn yn sicrhau cyflenwad parhaus o dir cyflogaeth, a fydd yn diwallu anghenion yr economi yn lleol ac yn darparu ar gyfer cyfleoedd mewnfuddsoddi posibl. Cydnabyddir bod cyfanswm y tir sydd ar gael yn fwy na'r angen cyffredinol a nodwyd. Serch hynny, fyddai pob un o'n safleoedd banc tir cyflogaeth presennol ddim o reidrwydd ar raddfa ddigonol, nac yn fasnachol ddeniadol ar gyfer cyfleoedd buddsoddi mwy. Bydd y dyraniadau Safle Allweddol yn sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer mewnfuddsoddiad sylweddol yn gallu cael eu cynnwys mewn lleoliadau strategol rhagorol, gan ddarparu cyfleoedd cyflogaeth ychwanegol yn lleol, tra'n cael mynediad rhagorol i'r rhwydwaith rheilffyrdd a phriffyrdd strategol.

Mae'r tir cyflogaeth yma'n hanfodol i gwrdd â'r lefel twf a nodwyd ar gyfer y CDLlD, h.y. gwireddu'r gofyniad tai a'r cynnydd cysylltiedig disgwyliedig mewn swyddi dros gyfnod y cynllun. Mae'r polisi yma'n cyd-fynd â pholisi'r Ganolfannau Aneddiadau o ran hyrwyddo cyfleoedd i gael rhagor o gyflogaeth a chyflawni economi gynaliadwy ledled RhCT.

Serch hynny, cydnabyddir bod y cynnydd disgwyliedig mewn swyddi i ddod o ffynonellau heblaw'r safleoedd cyflogaeth yma'n unig. Bydd y lefel twf tai arfaethedig ar gyfer RhCT hefyd yn arwain at ragor o dwf mewn swyddi o ardaloedd eraill. Byddai hyn yn cynnwys gwasanaethau a sefydliadau cyhoeddus, pobl hunangyflogedig/cyflogedig sydd heb sylfaen benodol o bosibl (gweithio hyblyg) ac wrth gwrs y nifer cynyddol o bobl sy'n gweithio gartref. Nid yw'n gyfyngedig i'r rhain.

**PS8:**

# Canolfannau Aneddiadau

**Mae'r Polisi yma'n cefnogi Amcanion:**
**2, 3, 4, 5, 6, 11, 12, 14, 15, 16 a 8**

## Y Canolfannau Aneddiadau yn RhCT

Mae canolfannau aneddiadau RhCT yn cael eu nodi mewn sawl ffordd, a thrwy gyfeiriadau ffurfiol ac anffurfiol. Byddai'r rhain yn cynnwys canol trefi, canolfannau manwerthu, strydoedd mawr, canol pentrefi, canolfannau lleol neu ganolfannau cymdogaeth, ac ati. Er eglurder, mae'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig (CDLID) bellach yn ystyried y rhain gyda'i gilydd fel ein 'Canolfannau Aneddiadau'.

Mae'r Canolfannau Aneddiadau wedi'u cysylltu'n naturiol â'r anheddiad ehangach y maen nhw wedi'u lleoli'n ganolog ynddo, ac felly mae'n rhan o Hierarchaeth Aneddiadau'r CDLID. Mae'r Canolfannau Aneddiadau niferus ledled RhCT i gyd yn chwarae rhan fawr yn eu cymunedau unigol. Yn dibynnu ar eu maint a'u swyddogaeth, mae gan nifer fwy o rôl yn cefnogi rhannau ehangach o RCT. Mae gan eraill rôl a dylanwad cydnabyddedig yn rhanbarth ehangach De-ddwyrain Cymru.

Isod mae'r Canolfannau Aneddiadau yn unol â'r Hierarchaeth Aneddiadau. Nodir bod gan rai o'r Prif Aneddiadau a'r Aneddiadau Allweddol fwy nag un ganolfan, oherwydd eu maint cyffredinol. Mae canolfan gynradd amlwg yn y mannau yma, gyda rhai canolfannau eilaidd sy'n gwasanaethu rhai rhannau o'r anheddiad ehangach ar raddfa fwy lleol.

| HIERARCHAETH ANEDDIADAU - CANOLFANNAU ANEDDIADAU | |
|---|---|
| **PRIF GANOLFANNAU ANEDDIADAU** | |
| **Canolfan gynradd** | **Canolfan eilaidd** |
| **Aberdâr** | • Aberaman<br>• Gadlys<br>• Trecynon |
| **Pontypridd** | • Trefforest |
| **Tonysguboriau** | • Pont-y-clun<br>• Hen Dref Llantrisant |
| **CANOLFANNAU ANEDDIADAU ALLWEDDOL** | |
| **Canolfan gynradd** | **Canolfan eilaidd** |
| **Glynrhedynog** | |
| **Hirwaun** | |
| **Llanharan** | |
| **Aberpennar** | |
| **Porth** | |
| **Tonypandy** | • Pen-y-graig<br>• Trewiliam |
| **Tonyrefail** | |
| **Treorci** | |

| CANOLFANNAU ANEDDIADAU LLAI | |
|---|---|
| • Abercynon | • Ffynnon Taf |
| • Pentre'r Eglwys | • Ton Pentre |
| • Gelli | • Ton-teg (Canolfan Yr Heol Fawr a Chlos Aberteifi) |
| • Llanhari | • Trebanog |
| • Llwydcoed | • Treherbert |
| • Maerdy | • Tyn-y-Nant |
| • Penrhiwceiber | • Tynewydd |
| • Pentre | • Ynys-hir |
| • Pen-y-waun | • Ynys-y-bwl |
| • Rhydfelen | • Ystrad |

## 8 Creu Lleoedd yn ein Canolfannau Aneddiadau

**Mae angen cynnal llawer o swyddogaethau sefydledig ein Canolfannau Aneddiadau. Serch hynny, mae'r CDLlD yn cefnogi'n gryf eu datblygiad i ddod yn lleoedd hollgynhwysol, integredig a rhyng-gysylltiedig i bobl ymweld â nhw, eu mwynhau, a gweithio a byw ynddyn nhw. Byddai hyn yn unol ag egwyddorion cenedlaethol 'Canol Trefi yn Gyntaf'.**

**Mae'r CDLlD yn ceisio darparu hyblygrwydd addas i ganiatáu i'r canolfannau addasu a ffynnu, gan annog cynigion a fyddai'n gwella eu bywiogrwydd a'u hyfywedd. Bydd ein canolfannau hefyd yn cael eu cefnogi i sicrhau eu bod nhw'n gallu parhau i wasanaethu anghenion eu cymunedau a RhCT yn briodol.**

**Mae'r polisi yma felly'n cefnogi cynigion sydd:**

- Yn annog cymysgedd amrywiol a phriodol o ddefnyddiau, sy'n cefnogi'r economïau oriau dydd a gyda'r hwyr wrth gynyddu nifer yr ymwelwyr drwyddi draw;
- Yn cefnogi pob defnydd priodol a fyddai'n dod â buddsoddiad a phobl i'r canolfannau. Byddai hyn yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i), defnyddiau dosbarth 'A' traddodiadol, cynigion cymunedol, hamdden a lletygarwch a datblygiad sy'n cefnogi'r cynnig twristiaeth yn RhCT;
- Yn darparu gwasanaethau a chyfleusterau priodol, hygyrch a digonol i gymunedau presennol a chynyddol RhCT;
- Yn darparu defnyddiau masnachol priodol a fyddai'n rhoi cyfleoedd cyflogaeth pellach;
- Wedi'u dylunio'n dda ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at amgylchedd adeiledig a naturiol cyffredinol y ganolfan;
- Yn creu cyfleoedd i ddefnyddio tir neu adeiladau gwag.

**Bydd datblygiadau preswyl mewn Canolfannau Aneddiadau yn cael eu cefnogi mewn egwyddor lle:**

- Maen nhw'n darparu tai newydd priodol a fydd yn cynyddu bywiogrwydd canol trefi; a
- Sicrheir amwynder preswyl priodol i ddeiliaid y dyfodol; a
- Ni fydd yn effeithio ar weithgareddau manwerthu a masnachol parhaus yr eiddo cyfagos; ac
- Mewn achosion o ailddatblygu neu drawsnewid eiddo, nid yw datblygiad preswyl yn cymryd lle defnyddiau masnachol cyffredinol presennol ar lefel stryd; a
- Lle mae safle'r datblygiad yn rhydd o gyfyngiadau; a lle bo modd,
- Lleolir defnyddiau manwerthu, gwasanaeth, hamdden neu fasnachol ehangach ar loriau gwaelod datblygiadau newydd yn y canolfannau.

8 **Dylai pob math o gynigion datblygu yn y Canolfannau Aneddiadau fod o raddfa a defnydd priodol sy'n gymesur â'r hierarchaeth manwerthu.**

**Bydd ffin unigol yn cael ei chadarnhau ar gyfer pob Canolfan Aneddiadau yng Ngham Adneuo'r CDLID.**


Mae'r polisi yma'n ceisio sicrhau ffyniant ac addasrwydd ein Canolfannau Aneddiadau yn y dyfodol. Dylai'r egwyddorion ynddo helpu i gynnal eu hyfywedd a'u bywiogrwydd a pharhau i ddarparu gwasanaethau a chyfleusterau priodol ar lefel leol, sirol a rhanbarthol. Mae rhagor o fanylion am y broses o adnabod y canolfannau yma ym **Mhapur y Canolfannau Aneddiadau.** Nodwch, mae'r newidiadau o'r CDLl presennol yn cynnwys nodi canolfannau newydd yn Llanhari, Pen-y-waun, Llwydcoed a Chanolfan Yr Heol Fawr a Chlos Aberteifi, Ton-teg.

Bydd y Prif Aneddiadau a'r Aneddiadau Allweddol yn ganolbwyntiau ar gyfer twf ychwanegol a chyfleoedd ailddatblygu strategol. Bydd defnyddiau masnachol, hamdden a phreswyl (ac ati) priodol yn cael eu hannog yn y lleoliadau yma, ochr yn ochr â'u swyddogaethau traddodiadol i gynyddu'r nifer o ymweliadau a denu pobl o'u cymunedau, ledled RhCT a thu hwnt. Bydd y tair Prif Ganolfan Anheddiad yn parhau i gyflawni rôl isranbarthol, gan weithredu fel cyrchfannau siopa, canolfannau gwasanaethau a chyfleusterau a chyrchfannau ymwelwyr cyffredinol lefel uwch, ar gyfer dalgylch eang. Bydd y Canolfannau Aneddiadau Allweddol yn parhau i ddarparu rôl debyg, er ar raddfa lai ac yn gwasanaethu eu hardaloedd priodol yn RhCT.

Mae'r Canolfannau Aneddiadau Llai yn chwarae rhan bwysig iawn wrth ddiwallu anghenion siopa cyfleus dyddiol a darparu gwasanaethau llai eraill mewn cymunedau lleol. Disgwylir y bydd unrhyw gynigion yn y canolfannau hyn yn y dyfodol yn cyd-fynd â'r polisi yma, er y cydnabyddir y byddai hyn ar raddfa gymesur.

Mae'r Canolfannau Aneddiadau yma ar y cyfan yn rhai sydd hefyd â darpariaeth dda o, a/neu gysylltiadau da ag amrywiaeth o ddulliau trafnidiaeth gyhoeddus gynaliadwy neu lwybrau teithio llesol presennol. Bydd llawer o ganolfannau yn gweld manteision y buddsoddiad sylweddol ym Metro De Cymru. Mae hyn i gyd yn amlwg yn cefnogi'r egwyddor o leihau dibyniaeth ar gerbydau modur preifat.

Yn ogystal, mae datblygiad preswyl yn ein Canolfannau Aneddiadau, neu ddull 'canol trefi yn gyntaf', yn ddyhead polisi cynllunio cenedlaethol allweddol. Bydd y polisi yma'n helpu i hyrwyddo ein canolfannau ar gyfer datblygiadau preswyl priodol, gan ddarparu amrywiaeth bellach, a'r opsiynau mwyaf cynaliadwy, yn y farchnad dai yn RhCT.



**9** **PS9:**

# Twristiaeth

## Mae'r Polisi yma'n cefnogi Amcanion:

**6**, **7**, **14**, **15**, **16** a **18**

**Mae Rhondda Cynon Taf yn ardal sydd â threftadaeth gyfoethog ac asedau naturiol hardd, sy'n ei gwneud yn gyrchfan wych ar gyfer twristiaeth. Mae'r CDLlD yn ceisio tyfu'r sector twristiaeth yn RhCT trwy gefnogi datblygiad twristiaeth gynaliadwy mewn lleoliadau priodol.**

**Bydd y CDLlD yn cefnogi ac yn annog:**

- Datblygiadau twristiaeth a fydd yn denu ymwelwyr o bob rhan o'r DU a thu hwnt.
- Cynigion twristiaeth antur, awyr agored ac 'eco', sy'n integreiddio i harddwch naturiol yr ardal.
- Cynigion sy'n cefnogi ac yn gwella'r cynnig twristiaeth yn y Prif Aneddiadau a'r Aneddiadau Allweddol ac sy'n debygol o ychwanegu at eu bywiogrwydd a'u hyfywedd yn y dyfodol.
- Arallgyfeirio busnesau amaethyddol a busnesau cefn gwlad eraill mewn modd priodol.

**Bydd y CDLlD yn sicrhau bod cynigion twristiaeth:**

- Yn darparu seilwaith digonol fel eu bod ddim yn cael effaith andwyol annerbyniol ar gymunedau presennol.
- Ddim yn cael effaith andwyol annerbyniol ar fioamrywiaeth, tirwedd neu nodweddion dynodedig eraill.
- Ddim yn cael effaith andwyol annerbyniol ar nodweddion twristiaeth presennol na'u lleoliadau.

**Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn nodi rôl benodol ar gyfer ehangu'r diwydiant twristiaeth yn yr ASO, er mwyn caniatáu cyfle i arallgyfeirio yn yr economi yma. Mae Safle Allweddol a fydd yn ymgorffori cynigion ar sail twristiaeth, ymhlith defnyddiau eraill, wedi'i nodi ar hen safle Glofa'r Tŵr, Tir i'r De o Hirwaun.**

**Yn yr ASO, bydd cynigion ar gyfer llety twristiaeth y tu allan i ffin yr anheddiad yn amodol ar y meini prawf uchod. Yn yr ASDd bydd llety twristiaid yn cael ei gefnogi o fewn ffiniau'r anheddiad yn unig.**

**Bydd polisïau rheoli datblygu manwl pellach yn cael eu paratoi ar gyfer y Cynllun Adnau.**

Bydd y CDLlD yn cefnogi nodau strategaeth Twristiaeth RhCT, sy'n ceisio cynyddu llety twristiaid a chefnogi cynigion sy'n hyrwyddo teithiau twristiaeth estynedig.

Hoffai'r CDLlD adeiladu ar lwyddiannau'r sector yma i weld cynnig twristiaeth ehangach i RhCT.

Mae gan ogledd a de RhCT nodweddion tra gwahanol, sy'n golygu bod angen dull gwahanol o ymdrin â thwristiaeth yn unol â'u hardaloedd strategaeth priodol. Mae ardal y strategaeth ogleddol gyda'i nodweddion tirwedd naturiol o ansawdd uchel, ei diwylliant a'i hanes yn golygu ei bod mewn sefyllfa briodol i ddarparu cynnig twristiaeth o ansawdd uchel. Mae'r ardal wedi gweld twf yn y sector twristiaeth dros y blynyddoedd diwethaf gydag agoriad ac ehangiad tŵr Zip World ac atyniad poblogaidd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae llwybrau cerdded a beicio yn denu defnydd a chyfleoedd twristiaeth sylweddol i'r ardal. Mae'r ardal yma hefyd yn cael ei gwella'n sylweddol o ran seilwaith drwy wneud yr A465 yn ffordd ddeuol, a chynllun Metro De Cymru i'w gwneud hyd yn oed yn fwy hygyrch. Mae Parc Treftadaeth Cwm Rhondda yn gyfleuster sefydledig yn rhan isaf Cwm Rhondda.

## **PS9: Twristiaeth** (parhad)

9 Trwy annog ehangu'r cynnig twristiaeth a diwydiant yn yr ASO, bwriad y Strategaeth a Ffefrir yw y bydd yn gallu cynnig arallgyfeirio'r economi a chreu swyddi y mae mawr eu hangen. O'r herwydd, y dull a ddefnyddir yn yr yr ASO yw annog datblygiad diwydiant twristiaeth gynaliadwy, sy'n adeiladu ar y cynnig twristiaeth presennol. Bydd y CDLID yn ceisio sicrhau bod y gogledd yn creu sector twristiaeth sy'n denu ymwelwyr o bob rhan o'r DU ac yn rhyngwladol.

Mae gan yr Ardal Strategol Ddeheuol hefyd rai cyrchfannau twristiaeth mwy sy'n bodoli eisoes gan gynnwys Prif Anheddiad Pontypridd, gyda'i gyfleusterau megis Lido Cenedlaethol Cymru, a Phrofiad y Bathdy Brenhinol yn Llantrisant; ynghyd ag eraill ar raddfa lai, gan gynnwys ei thirweddau deniadol, sy'n denu o ddalgylch mwy lleol. Cydnabyddir hefyd bod yr ASDd yn chwarae rhan wrth ddarparu ar gyfer y galw am y rhai sy'n ymweld â Chaerdydd. Bydd twristiaeth yn ardal y strategaeth yma'n cael ei chefnogi'n ofalus i sicrhau bod ein cynigion twristiaeth presennol yn cael eu hehangu'n gynaliadwy yn yr ASDd.

Mae'r CDLID yn cefnogi ac yn annog trosi ac ailddefnyddio adeiladau ac asedau hanesyddol a threftadaeth at ddefnydd twristiaeth yn ein Prif Drefi a'n Aneddiadau Allweddol. Bydd hyn yn sicrhau dyfodol yr asedau gwerthfawr yma ond hefyd yn dod â budd i'r amgylchedd adeiledig a'r cymunedau presennol yma fel ei gilydd, a fydd yn eu tro yn denu mwy o ymwelwyr.

Mae'r diwydiant twristiaeth yn gwneud cyfraniad pwysig yn Rhondda Cynon Taf; o ganlyniad, bydd y Cyngor yn annog cynigion sy'n gwella'r cynnig twristiaeth yn y Fwrdeistref Sirol. Bydd hyn yn cynnwys darparu llety twristiaeth, ehangu cwmpas y cynnig twristiaeth a gwella profiad yr ymwelydd.

Mae twristiaeth yn sector pwysig sy'n tyfu i Rondda Cynon Taf. Fel y nodwyd gan Lywodraeth Cymru, mae'n sector â blaenoriaeth i Gymru yn gyffredinol, gan gyfrif am 9% o swyddi yn y wlad. Mae Strategaeth Dwristiaeth Rhondda Cynon Taf yn amcangyfrif bod twristiaeth yn y Fwrdeistref Sirol yn werth dros £179 miliwn i'r economi leol. Oherwydd hyn, mae'r strategaeth yn datgan: "mae'n hanfodol bod cymunedau yn effro i bwysigrwydd manteisio ar fwy o ymwelwyr a busnesau lleol yn datblygu sgiliau a fydd yn ddefnyddiol i'r sector gwasanaethau cwsmeriaid a thwristiaeth" (CBSRhCT, 2021, t10). Mae hyn yn cael ei gefnogi gan Gynllun Corfforaethol y Cyngor (2020-2024) Gwneud Gwahaniaeth a'r Cynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ein Cwm Taf. Mae'r cynlluniau'n cydnabod pwysigrwydd datblygu'r cynnig twristiaeth, tra'n cefnogi busnesau yn y rhanbarth a chydnabod bod cryfder y cynnig i ymwelwyr yn RhCT yn deillio o'n cymunedau lleol.

